



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

GWOBRAU TAI CYMRU 2019

Compendiwm arfer da

Rhannu'r gwersi a ddysgwyd o Wobrau Tai Cymru 2019

#WHACymru

Sponsored by





Gwneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau pobl

Yng Ngrŵp Tai Wales & West, rydym wedi bod yn helpu pobl yng Nghymru i ddod o hyd i gartrefi am fwy na 50 o flynyddoedd.

Gwyddom pa mor bwysig ydyw i'n preswylwyr gael cartref sy'n saff, ddiogel a chynaliadwy.

Dydyn ni ddim ond yn adeiladu cartrefi o safon, rydyn ni'n adeiladu perthynas gyda'r bobl sy'n byw yn ein cartrefi.

P'un a ydym yn darparu cymorth a gofal i breswylwyr hŷn a diamddiffyn i fyw'n annibynnol, neu'n helpu pobl i rentu neu brynu eu cartref cyntaf, yr ydym yn cymryd yr amser a'r ymdrech i feithrin perthynas â'n preswylwyr a phartneriaid. Mae'r cydberthnasau hyn wrth wraidd popeth a wnawn ac yn ein galluogi i ddeall sut y gallwn wneud gwahaniaeth i'w bywydau, eu cartrefi a'u cymunedau.

Mae WWH yn falch iawn o noddi Gwobrau Tai Cymru eleni Compendiwm Arfer Da. Da iawn i bawb a gyrrhaeddodd y rownd derfynol.



☎ 0800 052 2526

🌐 www.wwha.co.uk

🐦 @wwha

Croeso

Pan ddwedaf wrth bobl i mi weithio dros CIH Cymru, y sefydliad sy'n cynrychioli gweithwyr tai proffesiynol yng Nghymru ac yn gartref i safonau proffesiynol y sector tai, yn aml rwy'n clywed ymateb fel, "Doeddwn i ddim yn gwybod bod yna fath beth â phroffesiwn tai neu weithwyr tai proffesiynol."

A dyna un o'r prif broblemau yr ydym ni fel sector yn ei hwynebu - diffyg dealltwriaeth o'r hyn a wnawn ac effaith ein gwaith ar gynifer o bobl - sydd yn aml ymysg y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Dyna pam mae'r compendiwm arfer da yn un o'r cyhoeddiadau pwysicaf, os nad y pwysicaf oll, y mae CIH Cymru yn ei gynhyrchu bob blwyddyn.

Mae'n dathlu ac yn taflu goleuni ar yr hyn y mae gweithwyr tai proffesiynol yn ei gyflawni, gan ddangos tro ar ôl tro yr effaith y maent yn ei chael ar fywydau

cynifer o bobl - gan gyflawni mwy yn aml mewn un diwrnod nag y mae sectorau eraill yn ei gyflawni dros eu gyrfa gyfan.

Ni waeth p'un a yw'n ddatblygwyr preifat yn codi ystadau bach a mawr; staff tai rheng flaen mewn cymdeithasau tai neu awdurdodau lleol; neu'r rhai sy'n datblygu datrysiadau a gyd-gynhyrchir i daclo problemau cymunedol; neu'r rhai sy'n gweithio yn y sector rhentu preifat.....mae'r compendiwm arfer da wedi mynd yn gofnod hanfodol o arloesedd, datblygiadau a chyflawniadau'r sector yng Nghymru.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn darllen y compendiwm hwn yn drylwyr. Yn ei hanfod mae'n ddogfen ddysgu, ond yn gweithredu fel ysbrydoliaeth i ni i gyd i wneud y gorau y gallwn ni a chyflwyno ein gweledigaeth a rennir o ddarparu opsiwn tai cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer pawb yng Nghymru.



Matt Dicks
Cyfarwyddwr cenedlaethol, CIH Cymru

Contents

Page

Datblygiad newydd - bach		6
Llys Cynfran	Cartrefi Conwy	6
Glan Morfa, Westbourne Avenue, Y Rhyl	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	8
Tŷ Newydd	Cymdeithas Tai First Choice	9
Llys Aur, Gabalfa, Caerdydd	Hafod	10
Lle Ysgol, Hirwaun	Cymdeithas Tai'r Rhondda	12
Iard y Parrog, Trefdraeth, Sir Benfro	Tai Wales & West	13
Datblygiad newydd - mawr		15
Cynllun gofal ychwanegol Hafan Cefni, Llangefni	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	15
Cynllun Gofal Ychwanegol Byw yn Annibynnol Llys Raddington	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	16
Y Felin - Treganna	Lovell	18
Captain's Walk and Captain's View - Braunton a Clevedon - Prosiect gan Cartrefi Caerdydd	Cyngor Caerdydd	19
Contractwr â ffocws ar y gymuned		22
Anwyl Construction	Anwyl Construction	22
Creu Menter (Y Contractwr Cymdeithasol o Ddewis)	Creu Menter a Chartrefi Conwy	24
Syniadau a dulliau newydd		26
Rheoli Asedau o Bell - IoT (LoRaWAN / TTN)	Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf	26
Residents at the heart	Newport City Homes	27
United Welsh ac Alertacall - Gwella rheolaeth ar dai gyda chyswllt cynyddol	United Welsh	29
Cynlluniau talu hyblyg i bawb	Tai Wales & West	30
Gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai		32
All out for Scrutiny	Linc Cymru	32
Adeiladu cymunedau mwy diogel		34
Tai Tarian a'r Heddlu 'Better Together'	Tai Tarian	34
Tackling County Lines	United Welsh	36
Gweithio gyda sectorau eraill		38
Lliniaru effaith Credyd Cynhwysol	Adra (Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) gynt)	38
Hen Dŷ'r Ysgolfeistr, Llanrwst	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	40
Tackling ASB together - A Police & RSL partnership	Grŵp ASB Landlordiaid Gwent	41
Fit & Fed Merthyr Tydfil	Cymdeithas Tai Merthyr Tudful	43

Partneriaeth Welcome To Our Woods	Cymdeithas Tai'r Rhondda a Welcome To Our Woods	44
Prosiect WISDOM	Trivallis	46
Wellbeing 4U	United Welsh	47
YMCA Aspire	YMCA Caerdydd	49
Grymuso a chynnwys cymunedau		51
Siop Griffiths	Grŵp Cynefin	51
Grub Hub	Cymdeithas Tai'r Rhondda	52
Arloesedd cyfathrebu		54
Filling a void	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	54
Cymdeithas Tai Taf	Cymdeithas Tai Taf	55
Cefnogi Cenedlaethau'r Dyfodol		57
Mannau Gwyrdd Yn Tyfu	Cymdeithas Tai Linc Cymru	57
Cyfuno - Ennyn diddordeb gan ddefnyddio diwylliant a threftadaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot	Tai Tarian	59
Y sector rhentu preifat		61
Asiantaeth Osod Serenliving	Pobl	61
Creu lleoedd cadarnhaol		63
Tre Cwm	Cartrefi Conwy	63
Glan Morfa, Westbourne Avenue, Y Rhyl	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	65
Llys Raddington	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	66
Hen Dŷ'r Ysgolfeistr	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	68
Y Felin - Treganna	Lovell	69
Cefnogi bywydau actif		71
Hafan Cefni	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	71
Llys Raddington	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	73
Cynllun Gorseion	Cymdeithas Tai First Choice	74
Dyddiau Slawer Dydd (Vintage Days)	Linc Cymru	76
Eiriolw(y)r tai		78
Alan Jones	Cyngor Sir Gâr	78
Panel Tenantiaid	Linc Cymru	79
Tim y Gymdogaeth	Cymdeithas Tai Sir Fynwy	81
Logan Oberholster	Cymdeithas Tai'r Rhondda	82

Er mwyn cadw naws ddiledryw y prosiectau hyn ac i gyfleu angerdd y rhai dan sylw, nid ydym wedi newid unrhyw ran o'r testun a gyflwynwyd i ni fel rhan o'r cynigion hyn.

Datblygiad newydd - bach

Noddir gan



Mae'r wobwr hon yn cydnabod datblygiadau newydd o 50 uned neu lai sy'n cyfrannu at gyflenwad neu fforddadwyedd tai yn eu hardal, neu sy'n diwallu angen nas diwallwyd yn flaenorol.

Llys Cynfran

Cartrefi Conwy



Datganiad o gefnogaeth

Llys Cynfran yw'r datblygiad cartrefi cymdeithasol diweddaraf gan Cartrefi Conwy sy'n darparu cymysgedd amrywiol o dai anghenion cyffredinol â phedair ystafell wely (x4), tai anghenion cyffredinol â thair ystafell wely (x6), fflatiau wedi'u haddasu i ddefnyddwyr cadair olwyn a ddylunnir i'r rhai sydd ag anghenion arbenigol (x3), ynghyd â fflatiau anghenion cyffredinol ag un neu ddau ystafell wely (x4). Etifeddwyd y safle diffaith fel rhan o'n trosglwyddiad stoc 11 mlynedd yn ôl a phrofodd i fod yn anodd iawn ei ddatblygu oherwydd y craigwely cul, cyfuchliniau garw a phrif gyflenwad dŵr gwasgedd uchel a fu'n croesi'r safle. Er mwyn cael yr effeithlonrwydd mwyaf, dyluniwyd y cynllun gyda dull lefelau gwahanol, gan osgoi torri a llenwi ar raddfa fawr a ddefnyddio topograffeg y safle yn lle i greu llawr isaf. Bu i'r dyluniad arloesol hwn gynnal safonau GAD (gofynion ansawdd datblygu) o hyd, ac yn ei dro creu llety gloyw, eang ac ymarferol ar gyfer tenantiaid sydd â lefelau amrywiol o angen. Mae pob eiddo yn elwa o olygfeydd panoramig o Fôr Iwerddon, gan edrych dros forlin Llandrillo-yn-Rhos.

Mae datblygiad Llys Cynfran drws nesaf i Barc Peulwys,

ein hystâd a enillodd wobwr y faner werdd, felly bu'n bwysig i ni integreiddio'r datblygiad hwn â'r gymuned leol sefydledig. I wneud hyn, ysbrydolwyd yr arddull, y bensaerniaeth a'r tirlunio gan yr ystâd gyfagos sydd wedi ennill gwobrau. Bu'n bwysig hefyd i drigolion presennol Peulwys gymryd rhan yn weithredol yn y cam cyn-gynllunio. Cynhaliom ddau ddigwyddiad ymgynghori â'r cyhoedd cyn dechrau ar y gwaith, gan gaffael mewnbwn gwerthfawr ar gynllun a nodweddion yr ystâd, yr esthetig a chynlluniau lliw. Croesawyd y digwyddiad yn wresog gan denantiaid a'r gymuned gyfagos a bu ennyn diddordeb trigolion yn gynnar yn allweddol i gyflwyno'r cynllun yn llwyddiannus. Mae'r datblygiad o fewn pellter cerdded i amwynderau lleol ac mae arosfa fysiau newydd yn golygu bod gan ein trigolion fynediad hwylus i gludiant cyhoeddus.

Mae'r galw am gartrefi fforddiadwy o safon dda'n parhau i gynyddu yng Nghonwy, yn enwedig ar gyfer cartrefi teulu mwy ynghyd â'r angen am ddiwallu anghenion pobl ag anableddau. Mae dros 400 o deuluoedd yn gofyn am eiddo 3 ystafell wely neu fwy yn sir Conwy gyda 95 o denantiaid pellach yn byw mewn llety anaddas ar hyn o bryd ac yn aros ar y Gofrestr Tai Arbenigol. Mae'r cynllun hwn wedi targedu'r demograffig tenantiaid hwnnw yn benodol trwy ddarparu eiddo ymarferol, eang a hygyrch sy'n diwallu eu hanghenion tymor hir.

Cydweithiom â thîm Strategaeth Tai Conwy hefyd i sicrhau bod 'cymysgedd' y cynllun yn diwallu anghenion y boblogaeth leol. Mae'r tai pedair ystafell wely a'r fflatiau arbenigol yn benodol yn diwallu un o anghenion brys yr awdurdod lleol.

Cymhwyswyd amrywiaeth eang o fuddion cymunedol a chymdeithasol a fyddai'n cefnogi'r gymuned leol i'r cynllun hwn hefyd. Enynnwyd diddordeb yr ysgol leol trwy sgysiau am ddiogelwch ar safleoedd adeiladu a chystadlaethau poster i'w harddangos ar balisau'r safle. Noddodd Brenig Construction barêd o gwmpas Ystâd Peulwys, yn ogystal â darparu atgyweiriadau yr oedd angen taer amdanynt i'r maes pêl-droed lleol a oedd wedi cael ei gondemnio. Mae mentrau

bychain fel hyn wedi gwneud cyfraniad i'r gymuned amgylchynol a fydd hyn para'n hir.

Lleolir y safle o fewn ffin anheddiad Hen Golwyn Uchaf ac yn gyfagos â Pheulwys, ystâd o dai cymdeithasol breswyl fawr sydd yn bennaf yn eiddo i Gartrefi Conwy ac wedi'i rheoli ganddo.

Adeiladwyd dyluniad y cynllun yn unol â safonau arfer gorau cyfredol gan gynnwys Safonau Ansawdd Tai Cymru, y Gofynion Ansawdd Datblygu a'r Safonau Cartrefi Gydol Oes.

Gan fod y safle cyfagos ag ystâd o dai presennol a fu ynghynt yn eiddo i'r awdurdod lleol a bellach yn eiddo i Gartrefi Conwy, ymddangosiad y cynllun yw waliau allanol traddodiadol wedi'u rendro gyda rhesi o frics. Bwriedir i'r dyluniad adlewyrchu'r arddull frodorol ac mae'n gweddu o ran arddull i'r adeiladau preswyl amgylchynol. Er hynny mae'r mathau o eiddo'n wahanol i'r eiddo cyfagos gan eu bod ar lefelau gwahanol ac yn dri llawr.

Ar dir a fu'n ddiffaith yn flaenorol, mae gan y safle ddau raddiant ar osgo ac yn sefyll ar graigwely cul o

ddyfnderoedd amrywiol. Anelodd dyluniad y cynllun at ddilyn cyfuchliniau a siâp y safle, sydd wedi creu cartrefi teulu ar lefelau gwahanol. Galluogodd lefel is wyneb wedd sengl i'r eiddo sefyll dros raddiannau presennol y tir yn hytrach na chael ei dorri i mewn iddo. Dileodd hwn yr angen am adeileddau cynnal mawr, gan greu dyluniad lefelau gwahanol a gaiff ei ddefnyddio eto mewn ardaloedd eraill sydd â chyfyngiadau tebyg.

Defnyddiwyd dyluniad blaengar i gyflawni mynediad gwirioneddol wastad ar gyfer pob un o'r fflatiau yn y bloc. Trwy gael uned cadair olwyn un ystafell wely ar y llawr gwaelod, gellir defnyddio fflat anghenion cyffredinol dwy ystafell wely â'r un ôl troed yn uniongyrchol uwch ei phen. Felly mae gan bob fflat ei mynediad lefel wastad uniongyrchol a phreifat ei hun, nodweddd a groesawyd yn wresog gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Strategaeth Tai'r awdurdodau lleol.

Mae'r cynllun yn cynnwys ffordd fynediad newydd hefyd ac yn darparu mynediad lefel wastad ar draws y safle.

Canlyniadau a chyflawniadau

Fel ein holl ddatblygiadau newydd, roedd sicrhau cadwyn gyflenwi leol a chreu cyfleoedd gwaith newydd yn hollbwysig i lwyddiant y datblygiad hwn. Gan gydweithio â'n datblygwr, Brenig Construction, creodd y prosiect hwn 4 prentisiaeth newydd. Roedd gan 96% o'r gweithlu gôd post yng Ngogledd Cymru gyda 72% yn cael eu cyflogi o sir Conwy.

Gwnaed y gwaith paentio mewnol gan ein his-gwmni masnachol, Creu Menter, y crëwyd pedwar cyfle swydd ohono, gan gynnwys cyflogi tenant a fu'n ddi-waith yn flaenorol trwy'r Academi Gyflogaeth.

Yn 2017, roedd gan Conwy 891 o aelwydydd ag anghenion tai a oedd wedi cofrestru am gartref cymdeithasol. Roedd 1 o bob 10 ohonynt wedi bod yn aros am fwy na 3 blynedd. Mae Cartrefi Conwy yn gwneud ymdrech i greu mwy o dai fforddiadwy yn y sir a'r tu hwnt; yn wir, mae datblygiad Llys Cynfran yn rhan o raglen ddatblygu uchelgeisiol Cartrefi Conwy a fydd yn gweld mwy na 400 o gartrefi fforddiadwy yn cael eu hadeiladu dros y ddwy flynedd nesaf.

Ond nid yw'r rhaglen ddatblygu Cartrefi Conwy yn ymwneud â brics a mortar yn unig. Rydym yn ceisio creu cymunedau y gall ein tenantiaid i gyd fod yn falch ohonynt. Dyma'r hyn a oedd gan un o'r tenantiaid a symudodd i mewn i un o'r fflatiau a addaswyd yn arbennig i'w ddweud:

"Mae symud i mewn i'r eiddo hwn wedi gwneud gwir welliant i fy mywyd. Yn flaenorol bûm yn byw mewn fflat llawr uchaf lle teimlais yn unig iawn, ni allwn fynd allan i siopa neu ymolchi'n iawn yn y bath yr oedd gennyf.

Yn ogystal â byw yn agosach at fy mam, sef y person sy'n cefnogi fi'n bennaf, yn awr mae gennyf gyfleusterau wedi'u haddasu sy'n golygu y gallaf symud o gwmpas yn fwy a gwneud mwy dros fy hun; gan fy mod ar y llawr gwaelod, gydag ystafell ymolchi cynllun agored iawn a chyfleusterau llawn yn y gegin.

Rwy'n dwlu ar fod yma ac yn ddiolchgar iawn y bu'n bosib i fy landlord gynnig eiddo i mi sydd gymaint yn fwy addas i mi na'r lle y bûm yn byw yn flaenorol."

Glan Morfa, Westbourne Avenue, Y Rhyl

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn



Datganiad o gefnogaeth

Mae 'Glan Morfa - Westbourne Avenue' yn brosiect tir llwyd £2.3m yn Y Rhyl, Sir Ddinbych, a gwblhawyd gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn yn y flwyddyn ariannol 2018/19. Mae'n darparu 16 o gartrefi fforddiadwy mewn lleoliad glan dŵr syfrdanol gyda phedwar cartref teuluol 3 ystafell wely a deuddeg o fflatiau 1 a 2 ystafell wely pellach sy'n edrych dros llyn trefol.

Mae'r datblygiad, a leolir o fewn parth adfywio dynodedig, yn darparu porth tirnod i gyrion gorllewinol y dref, gan helpu i'w trawsnewid i le gwych i fyw - i'r fath raddau i beri i un o'r trigolion newydd sylwi: "Rydym yn hapus iawn fan hyn - mae fel ein bod wedi ennill y loteri ac yn byw ar Rodfa'r Miliynyddion y Riviera!"

Ac yntau o fewn rhai canllathau o'r traeth a pharc manwerthu newydd ar gyfer y safle ei hun, ac wedi'i amgylchynu â thai teras yr oes Fictoraidd a busnesau bach lleol, bu'r safle ei hun, sy'n agor ar y llyn, yn wag am nifer o flynyddoedd ac yn hyllbeth i drigolion lleol a'r nifer cynyddol o fusnesau ac ymwelwyr sy'n cael eu denu i'r ardal.

Mae'r cartrefi newydd wedi eu dylunio'n brydferth at safon esthetig uchel - gan annog ymdeimlad go iawn o falchder - rhywbeth sy'n rhan annatod o weledigaeth Cymdeithas Tai Clwyd Alyn ar gyfer yr ardal. Mae'r cartrefi hefyd wedi'u dylunio at safon aur 'Diogel trwy Ddyluniad', gan alluogi trigolion i deimlo'n ddiogel ac yn sefydlog yn eu cartrefi, ac maent yn elwa o osodiadau system chwistrellu a ddyluniwyd yng Nghymru.

Gweithredwyd Polisi Gosod Lleol i gynyddu sefydlogrwydd a darparu cymuned gynaliadwy, gan osod i bobl sy'n byw neu'n cael eu cyflogi'n lleol fel

blaenoriaeth i ostwng y gyfradd trosiant tenantiaethau a chyflawni cydbwysedd o aelwydydd, gan sicrhau ymdeimlad cryfach o gysylltiad, perthyn ac ymroddiad i'w cartref a'u hardal leol, a chan rymuso trigolion i gynnal rhwydweithiau cymdeithasol newydd a phresennol a chymryd rhan yn eu gweithgareddau, cyfleusterau a grwpiau cymunedol lleol.

Meddai Yvonne Cole, sy'n Swyddog Tai: "Rydym wedi cael adborth arbennig gan y trigolion sy'n dwlu ar eu cartrefi newydd. Mae'r lleoliad, ynghyd â dyluniad y cartrefi i fanteisio i'r eithaf ar y lleoliad, wedi bod yn gymorth mawr wrth greu ymdeimlad o gymuned, hunan-gred a balchder gyda phobl yn codi llaw o'u balconïau wrth i gymdogion fynd heibio. Mae'n ddatblygiad hyfryd ac yn wir yn fy ngwneud yn wirioneddol falch o weithio i Cymdeithas Tai Clwyd Alyn hefyd.

Dechreuodd cwmni lleol o'r Rhyl, N.W.P.S.

Construction Ltd, ar y gwaith ym mis Mawrth 2018, gan ddefnyddio pren cynaliadwy lleol o Gymru a chwblhawyd y cynllun mewn dau gam, yn gynharach na'r disgwyl, ym misoedd Ionawr a Mehefin 2019.

Mae dyluniad dengar y fflatiau wedi'i ysbrydoli gan y lleoliad glan dŵr. Gellir cymharu nodweddion dylunio fel y cladin yn null pren a balconïau gwyrdd â chyfleusterau llety soffistigedig eraill mewn trefi glan môr ac ardaloedd llewyrchus eraill ble y byddai'r fath llety yn ennyn cenfigen unrhyw ddatblygwr preifat nodedig.

Defnyddiwyd cladin cyfansawdd, yn hytrach na rendr, i ddarparu amddiffyniad tymor hir deniadol i'r adeiledd rhag y tywydd, a dewiswyd gorffeniadau deunydd a gwaith haearn dengar sy'n gofyn am ychydig iawn o gynnal a chadw, os o gwbl, gan ddarparu hirhoedledd hyd yn oed mewn lleoliad arfordirol sy'n profi gwyntoedd cryfion a glaw gyrru.

Mae'r cynllun yn ymgorffori triniaeth ecolegol fanwl hefyd trwy waliau ffiniol byw a thirlunio cynhwysfawr i ddenu bioamrywiaeth a meddalu natur drefol lleoliad y safle.

Mae ei nodweddion esthetig syfrdanol, ynghyd â'r gofodau byw a pharcio hael a gynigir (yn enwedig o ystyried ei gyd-destun trefol) wedi creu gofod byw dymunol tu hwnt y mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn ei reoli ar lefelau rhent tai cymdeithasol.

Galluogwyd y cynllun diolch i waith partneriaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru. Cynllun eiconig a nodedig sy'n arddangos cartrefi newydd fforddiadwy ar eu gorau gan wneud datganiad eofn dros y dref a'r rhanbarth ehangach.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae 'Glan Morfa - Westbourne Avenue' yn brosiect tir llwyd £2.3m a leolir yn Y Rhyl, Gogledd Cymru, a gwblhawyd gan Gymdeithas Tai Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn y flwyddyn ariannol 2018/19. Mae'r cynllun cartrefi cymysg yn darparu 16 o gartrefi fforddiadwy mewn lleoliad glan dŵr syfrdanol. Gyda phedwar o gartrefi teulu teras 3 ystafell wely a 12 o fflatiau 1 a 2 ystafell wely pellach sy'n edrych dros lyn trefol, rhoddwyd yr enw 'Glan Morfa' / 'The Waterside' i'r cynllun syfrdanol hwn.

Bydd gan y cynllun bach hwn, a grëwyd fel rhan o bortffolio adfywio ehangach sy'n cynnwys y gymuned leol, nifer o fudd-ddeiliaid ac asiantaethau partner,

effaith gadarnhaol enfawr, gan gynnig tai cymdeithasol nodedig mewn ardal a oedd wedi dirywio, gan drawsnewid y lleoliad ac ar ben hynny yr ymdeimlad o falchder cymunedol, gan ddod ag optimistiaeth, hunan-gred a grymuso i'r rhai sy'n byw yno.

Wedi'i ddylunio gyda manyleb o safon, yn esthetig ac i uchafu cynaladwyedd ac effeithlonrwydd ynni, mae'n dlws pefriol mewn lleoliad glan llyn rhai canllathau o draethau ardderchog a chyfleusterau manwerthu newydd gyda golygfeydd pell o fynyddoedd Eryri.

Fel y dywedodd un o'r tenantiaid newydd: "Mae fel ein bod yn byw ar Rodfa'r Miliynyddion ar y Riviera!" - Tai fforddiadwy ar ei orau ac enghraifft ddisglair i'r sector.

Tŷ Newydd

Cymdeithas Tai First Choice



Datganiad o gefnogaeth

Datblygwyd Tŷ Newydd, cynllun blaengar ar gyfer pobl sydd ag anableddau iechyd a dysgu cymhleth diolch i bartneriaeth lwyddiannus rhwng Cymdeithas Tai First Choice, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Llywodraeth Cymru, McIntyre Support, Williams Homes (Y Bala) Ltd, WYG ac AGA Architects.

Cefnogodd y cynllun anghenion tai CBS Wrecsam trwy ddarparu llety addas ar gyfer pedwar o denantiaid sydd ag anableddau iechyd a dysgu cymhleth. Mae dyluniad y cynllun yn cynnwys pedair fflat un ystafell wely hunangynhwysol gan gynnwys hyb staff canolog i ddarparu cefnogaeth cysylltu i mewn ar gyfer y tenantiaid i gyd. Mae'r hyb staff canolog yn darparu ystafell wely i staff gyda thoiled en-suite, cegin gymunedol a chyfleuster ystafell gyfarfod i staff a thenantiaid ei defnyddio pan fydd angen. Mae gan y cynllun fanyleb o safon sy'n addas ar gyfer anghenion iechyd cymhleth gyda mynediad mewn cadair olwyn i'r ddwy fflat ar y llawr gwaelod. Mae'r cynllun hefyd

yn elwa o barcio oddi ar y ffordd o flaen y datblygiad gyda chymysgedd o gerddi preifat a chymunedol.

Gwblhawyd y cynllun ym mis Chwefror 2019 ac roedd y pedair fflat i gyd dan feddiant ym mis Mawrth 2019.

Cyllidwyd y cynllun trwy gymysgedd o Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Grant Cyllid Tai a chyllid preifat CTFC.

Gwerth am arian

Ystyriwyd cyflawni gwerth am arian gyda'r cynllun o'r cychwyn cyntaf o ran dylunio, costau, deilliannau a gwerth cymdeithasol. O ran gwerth cymdeithasol yn ychwanegol at y deilliannau ar gyfer tenantiaid isod, cyflwynodd y cynllun fuddion arwyddocaol i'r gymuned, gan gynnwys:

- 208 person-wythnos o weithredwyr cyflogedig, cyflogeion lled-fedrus a di-fedr.
- 8 person-wythnos o brentisiaid crefftau ar gyfer pobl ifanc ac oedolion
- 4 person-wythnos o hyfforddeion anghyflogedig ar bob lefel a galwedigaeth (1 person ar brofiad gwaith am 4 wythnos)
- 37 o gyflenwyr lleol
- 15 o is-gontractwyr lleol

Trwy gyrchu cyllid grant Llywodraeth Cymru roedd yn bosib cyflawni rhenti fforddiadwy ar gyfer y pedwar tenant. Roedd hyn yn allweddol i lwyddiant y cynllun.

Cynaladwyedd

Cyflawnodd pob fflat o fewn y datblygiad radd effeithlonrwydd ynni o 81+. Defnyddiwyd deunyddiau cynaliadwy a chydannau effeithlonrwydd ynni â gradd uchel o fewn y fanyleb i gyflawni'r perfformiad ynni uchel. Cafodd y mesurau hyn effaith gadarnhaol ar strategaethau tlodi tanwydd y Gymdeithas a'r Awdurdod Lleol.

Manteision a chyflawniadau

Mae'r datblygiad wedi darparu llawer o fanteision a chyflawniadau gan gynnwys:

- Darparu llety â chefnogaeth addas ar gyfer pedwar o denantiaid sydd ag anawsterau iechyd a dysgu cymhleth
- Darparu gwelliant dramatig yn ansawdd bywyd y tenant

- Gostyngiadau mewn Ymddygiad Heriol
- Iechyd a llesiant cynyddol
- Ennyn diddordeb tenantiaid o fewn y gymuned leol a chymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol
- Ymweliadau a rhyngweithio rheolaidd â theulu

Canlyniadau a chyflawniadau

Roedd Person X mewn tŷ a rennir a achosodd lefel uchel iawn o bryder i'r unigolyn oherwydd ei anghenion iechyd cymhleth a arweiniodd at ymddygiadau niweidiol, unigedd cynyddol a datgysylltu rhag staff. Gwelodd y staff ddirywiad yn ei weithgareddau, cyfranogiad a rhyngweithio o fewn y gymuned oherwydd yr amgylchedd anaddas yr oedd yn byw ynddo.

Ers symud i Dŷ Newydd mae wedi ymgartrefu a chynyddu ei hyder gan ei alluogi i ymgymryd â rôl wirfoddoli yn mynd â chŵn am dro yn y gymuned. Mae'n mynd i'r disgo lleol ac mae ymwneud â staff a'r gymuned wedi cynyddu gan arwain at fwy o annibyniaeth. Mae'r staff wedi sylwi ar y canlyniad cadarnhaol o ran ei iechyd meddwl a llesiant cyffredinol.

Oherwydd ei gymhlethdodau ymddygiadol profodd Person Z anhawster wrth rannu gofod ag eraill, gan arwain at gynnydd mewn ymddygiad heriol a effeithiodd ar gyd-denantiaid, staff ac aelodau'r gymuned. Golygodd rhannu cartref osod cyfyngiadau cynyddol a chafodd hyn effaith negyddol ar ei fywyd ac annibyniaeth. Mae model Tŷ Newydd wedi helpu'r unigolyn i flodeuo gan roi mwy o reolaeth dros eu bywyd ac o ganlyniad i hynny mae digwyddiadau andwyol wedi lleihau. O ganlyniad i hyn mae wedi bod yn haws cadw staff a galluogi'r tenant i dderbyn y gofal cyson y mae arnynt ei angen. Erbyn hyn mae'n fwy sefydlog ac mae teulu'n ymweld yn fwy rheolaidd gan roi bywyd mwy pwrpasol iddynt.

Llys Aur, Gabalfa, Caerdydd

Hafod



Mae Llys Aur wedi rhoi chwa o awyr iach i safle hen gartref gofal preswyl i'r henoed a gaeodd i lawr yn 2015. Datblygwyd y cynllun byw yn annibynnol sy'n cynnwys 22 o fflatiau preswyl fforddiadwy i bobl dros 55 oed mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd.

Mae Llys Aur yn cynnwys 16 o fflatiau un ystafell wely a 6 fflat dwy ystafell wely. Maent oll wedi eu dylunio yn unol â chanllawiau dylunio arfer gorau i bobl hŷn, gan ymgorffori lifft a lolfa gymunedol. Roedd y lolfa'n rhan allweddol o'r datblygiad gan ddarparu ardal gymdeithasol a rhyngweithiol er mwyn annog y trigolion i gwrdd a chymdeithasu, sydd wedi'i brofi i liniaru unigedd ac unigrwydd a gwella iechyd a llesiant meddyliol.

Ymatebwyd i'r llain ar y gornel trwy nifer o dalwynebau amlwg, mae'r dyluniad pedol yn amlapio gardd trigolion a chwrt parcio. Mae cloestr a dec cyfoes yn edrych dros gysgodfa'r ardd ac yn darparu mynediad i fflatiau'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Mae'r cloestr yn galluogi'r trigolion i fwynhau gradd uchel o gysylltiad â'r gofod gardd canolog hwn, yn ogystal ag â'i gilydd, llawer mwy o gysylltiad nag y gall dyluniad coridor mewnol ei gynnig.

Mae'r ffurf syml a'r esthetig cyfoes yn cydweddu â deunyddiau'r ystâd dai o'r 1960au y mae'r datblygiad wedi'i leoli ynddi. Er bod y palet deunyddiau a ddefnyddiwyd yn syml ac yn hawdd ei gynnal a chadw, mae'n ymgorffori nodweddiad gwaith brics diddorol

gan gynnwys bondin stac a dyluniad sgwariog sy'n darparu gwedd amrywiol ac uchel ei hansawdd.

Yn ystod y cam cynllunio gwahoddiwyd y gymuned leol i weld y cynlluniau ar gyfer y prosiect, cafodd y rhain eu derbyn yn wresog gan gymdogion a busnesau yn yr ardal, mynegodd nifer o bobl a ddaeth i'r cyfarfod ddiddordeb yn y fflatiau wedi'u cwblhau.

Yn ystod y cam adeiladu ymgysylltodd y Contractwr â grwpiau cymunedol lleol, y mai un ohonynt oedd Ministry of Life, sy'n darparu cyfleoedd addysg amgen i bobl ifanc 11 i 25 oed, gwnaed rhodd i'r grŵp hwn gan ildio nifer o ganlyniadau y mai un ohonynt oedd diwrnod hwyl i deuluoedd a gyflwynwyd gan y grŵp ar dir gyferbyn â Llys Aur. Dywedodd Jonathan Gunter Cyfarwyddwr Ministry of Life fod '200 aelod o'r gymuned wedi dod i'r ŵyl gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol a chreu ymdeimlad o gydlynad rhwng grwpiau ieuencid gwahanol a theuluoedd'.

Noddodd y Contractwr y tîm pêl-droed lleol hefyd yn ogystal â darparu dau saer coed profiadol i helpu gwneud gwaith mewn cyfleuster cymunedol yn ogystal â chynlluniau hyfforddiant a phrentisiaeth. Gwestiodd y datblygiad fyfyrwr TGAU ifanc sy'n astudio at

gymhwyster adeiladu hefyd.

Mae'r fflatiau mewn lleoliad cynaliadwy gan eu bod o fewn cyrraedd agos i amwynderau lleol a chysylltiadau cludiant cyhoeddus da. Mae'r datblygiad wedi'i gwblhau hefyd yn cynnwys peiriant diffibrilio allanol y gall y gymuned leol ei gyrchu er mwyn darparu adnodd y mae ei angen yn fawr ar yr ardal.

Bu'r galw yn uchel gan drigolion sydd yn yr ardal yn barod a hefyd gan drigolion sydd â symudedd cyfyngedig, y mae llawer ohonynt wedi mynd yn gaeth i'w cartrefi. Mae'r datblygiad wedi darparu cymuned gymdeithasol a bywiog sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd y trigolion.

Mae un o'r trigolion a oedd wedi dioddef profedigaethau lluosog a mynd yn unig ac wedi'i encilio yn ei gartref wedi elwa'n fawr o symud i Lys Aur. Mae'r rhwydwaith cefnogi ehangach ynghyd â'r gweithgareddau yn y lolfâ gymunedol wedi peri gwelliant cadarnhaol i fwynhad a rhagolwg ar fywyd y trigolyn. Mae hyn yn dangos ethos cymunedol hanfodol y datblygiad sy'n darparu cartrefi annibynnol ble mae'r trigolion yn teimlo'n ddiogel.

Canlyniadau a chyflawniadau

Yn ystod y chwe mis byr y mae Llys Aur wedi'i feddiannu, mae Tîm Anogwyr Cymunedol Hafod wedi cydweithio'n agos â'r trigolion, gan rymuso nhw i ddefnyddio eu lolfâ gymunedol er budd pawb sy'n byw yno. Mae'r lolfâ bellach yn gartref i gemau bingo rheolaidd, boreau coffi a chafwyd sesiwn ragflas canu â'r iwcailili hyd yn oed. Agorwyd sesiwn ysgrifennu creadigol i fyny i'r trigolion a chawsant fwynhad wrth gofio teulu, gyrfaoedd a'u plentynod, gan ysgogi llawer o sgysiau diddorol am hanes lleol.

Gweithgaredd poblogaidd arall a gynhelir yn rheolaidd yw'r grŵp crosio, sy'n gweld y gwniadyddesau mwy profiadol yn dysgu cyd-drigolion

sut i wneud matiau cysgu diddos i bobl ddi-gartref allan o fagiau plastig. Wedyn, mae'r matiau'n cael eu rhoddi'n garedig i elusen leol i'w dosbarthu. Mae'r grŵp yn gobeithio cynnwys mwy o ddynion trwy wau hosanau Morgannwg, sef hosanau gwlan trwm all gael eu dosbarthu trwy'r elusen hefyd.

Mae'r trigolion hefyd yn ymchwilio i ffyrdd o gyflwyno digwyddiadau a fydd yn croesawu'r gymuned gyfan i Lys Aur. Mae'r rhain yn cynnwys y posibilrwydd o ailgyflwyno grŵp eglwys a oedd wedi cwrdd yn flaenorol yn yr hen gartref gofal a dosbarth ymarfer corff a redir gan sefydliad lleol.

Lle Ysgol, Hirwaun

Cymdeithas Tai'r Rhondda



Datganiad o gefnogaeth

Roedd yr hen ysgol ddiffaith hon yn hyllbeth i'r gymuned. Gwnaethom ei gaffael i ddarparu cartrefi fforddiadwy o safon yn yr ardal boblogaidd hon yn ogystal â chyflwyno uned fasnachol y mae ei hangen yn fawr sydd wedi adfywio'r safle. Mae'n golygu bod tai cymdeithasol wedi'u croesawu'n wirioneddol i'r ardal leol ac wedi'u cofleidio gan drigolion.

Trwy weithio mewn partneriaeth â'r contractwyr lleol mawr eu bri WDL Homes, darparwyd 12 o unedau a siop Co-operative. Adeiladwyd y gymdogaeth newydd hon at safonau GAD, gyda phob uned yn cyflawni gradd effeithlonrwydd ynni o 82+.

Buddsoddwyd £3 miliwn yn y cynllun hwn, yr oedd £1 miliwn ohono'n gyllid GTC gan Lywodraeth Cymru. Gan fod WDL Homes wedi'u lleoli 2 filltir yn unig i ffwrdd, galluogwyd i ddeunyddiau a ddefnyddiwyd ar y cynllun gael eu cynhyrchu ar y safle. Roedd yr holl is-gontractwyr a ddefnyddiwyd fel trydanwyr a phlwmwyr yn lleol i'r datblygiad hefyd, ynghyd â masnachwyr adeiladu lleol ar gyfer deunyddiau eraill yr oeddent oll yn rhoi cefnogaeth arwyddocaol i'r economi sefydliadol a chylchol.

Ynghyd ag inswleiddio cynhwysfawr, goleuadau LED effeithlon a systemau gwres canolog hynod effeithlon, rydym wedi creu cartrefi ag ôl troed carbon a chostau rhedeg isel sy'n gostwng tloidi tanwydd ymysg ein tenantiaid. Hefyd, bu i'r datblygiad ddarparu llwybr mynediad newydd diogel ac wedi'i oleuo'n dda i'r siop, sydd wedi annog y gymuned leol i gerdded i'w

siop leol a bod yn fwy actif. Mae nifer o amwynderau lleol ar garreg drws y cynllun a chysylltiadau cludiant cyhoeddus gyfagos pan fydd angen teithio.

Enwyd y datblygiadau newydd yn unol â'u defnydd hanesyddol, felly defnyddiwyd yr enw Lle Ysgol a rhoddwyd enwau unigol i bob tŷ ar blaciau llechen leol prydfarth i ychwanegu naws unigryw a gwneud i'r cartrefi deimlo'n arbennig gan greu ymdeimlad o falchder.

Mae'r safle hwn yn arbennig gan i ni wneud cymaint yn fwy na "dim ond" darparu tŷ - rydym wedi darparu cartref. Roedd llawer o'r tenantiaid newydd yn agored i niwed ac yn wynebu llawer o heriau gan gynnwys salwch corfforol ac emosiynol. Bu tri o'r tenantiaid yn ddigartref yn flaenorol, addaswyd un cartref yn benodol ar gyfer tenant newydd sydd ag anghenion ar lefel arwyddocaol o uchel. Mae tri chartref teulu mawr hefyd, y mae gan un ohonynt gyfansoddiad teuluol cymhleth, felly mae'r cynllun hwn yn arbennig oherwydd ei effaith drawsnewidiol.

Mae'r byngalo wedi'i addasu wedi newid bywyd y tenant newydd yn gyfan gwbl ac mae ei bywyd bob dydd wedi newid cymaint y cafodd ei llethu â dagrau ar y diwrnod trosglwyddo. Mae ei byngalo'n darparu cegin a addaswyd yn llawn sy'n caniatáu iddi goginio prydau mwy iach, ac mae'r gardd â'i faint da y gall ei chyrchu bellach yn golygu ei bod yn mwynhau'r gofod awyr agored ac yn gweld gwelliannau iechyd sylweddol, yn gorfforol ac yn emosiynol.

Cefnogwyd y 12 o denantiaid i gyd gan ein prosiect 'Get Set'. Cyflwynodd y prosiect hwn ymyrraeth a chefnogaeth gynnar i'w helpu rheoli eu cartrefi newydd ar ffurf gwasanaeth wedi'i deilwra, gan weithio ar bob testun pryder a sicrhau eu bod yn blodeuo yn eu gymuned leol.

Darparwyd Pecynnau Croeso i bawb ar y diwrnod trosglwyddo, gan gynnwys hanfodion cartref, te, coffi, bisgedi, bagiau ailgylchu a gwybodaeth leol ddefnyddiol etc. Roedd un tenant newydd a fu'n ddigartref yn flaenorol yn profi anhawster ariannol. Felly fe gyrchom ein prosiect tloidi bwyd Grub Hub a ddarparodd becyn bwyd iddo bob wythnos hyd nes iddo dderbyn ei daliad Credyd Cynhwysol.

Agorwyd y datblygiad hwn yn swyddogol ym mis Ebrill 2019 gan Aelod Cynulliad Cwm Cynon Vikki Howells, a gyfeiriodd at y cynllun hwn yn y Senedd fel enghraifft ddisglair o ddarparwr tai sy'n adfywio, cefnogi ac yn dod â'r gymuned ynghyd.

Canlyniadau a chyflawniadau

- Crëwyd dros 20 o swyddi newydd ar gyfer pobl leol yn y Co-op. Buddsoddodd y Co-Op £600,000 yn y siop hon a adeiladwyd at y diben fel hyb lleol ac ased go iawn i bawb yn Hirwaun.
- Mae ein prosiect Get Set wedi cynnal yr holl denantiaethau hyn, gan olygu y gall tenantiaid newydd reoli eu cartrefi'n llawn a lleihau cyfradd y digartrefedd yn yr awdurdod lleol a'r costau ychwanegol i'r gwasanaethau eraill.
- Rydym wedi creu gardd gymunedol ar gyfer y tenantiaid, gan ddod â nhw ynghyd a mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol. Maent wedi sefydlu hinsawdd o ysbryd cymunedol trwy gynnal a chadw y planhigion blodau'r ddôl a gwelyau uchel

y gwnaethom eu darparu er mwyn iddynt dyfu eu llyisiau a ffrwythau eu hunain.

- Cynhaliodd staff ffug-gyfweliadau yn yr ysgol leol i alluogi disgyblion i ennill profiad hanfodol. Hefyd, rhoddodd ein Rheolwr Prosiect a Syrfëwr Meintiau benywaidd sgysiau gyrfa ysbrydoliaethus i annog menywod ifainc i ymgymryd ag adeiladu a thai fel gyrfa.
- Mae pob un o'r deuddeg o denantiaid newydd wedi derbyn cartrefi o safon ragorol sy'n defnyddio ynni'n effeithlon i alluogi nhw i deimlo'n ddiogel, yn gadarn ac yn falch. Ynghyd â'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt i gael eu grymuso i symud ymlaen at wirfoddoli a sgiliau newydd.

Iard y Parrog, Trefdraeth, Sir Benfro

Tai Wales & West



Datganiad o gefnogaeth

Mae tref fach arfordirol Trefdraeth, Sir Benfro ar ben caled y prinder cenedlaethol o dai fforddiadwy yng Nghymru.

Â'i lleoliad o fewn Parc Cenedlaethol Sir Benfro, dyma un o ardaloedd drutaf y sir i brynu a rhentu cartref. Daw nifer bach iawn o dai ar y farchnad leol, ac mae'r rhai hynny yn aml yn cael eu prynu fel ail gartrefi neu gartrefi gwyliau.

Mae asiantau lleol yn amcangyfrif gwerth tai dwy ystafell wely yn Nhrefdraeth fel tua £225,000 a fflatiau un ystafell wely fel £125,000, gan roi perchnogaeth y tu hwnt i gyrraedd llawer o deuluoedd ac unigolion lleol ifainc.

Heb unrhyw dai fforddiadwy newydd yn y dref ers mwy na 12 mlynedd, gweithiodd WWH ar y cyd gyda Chyngor Tref Trefdraeth i adnabod lleoliad addas ar gyfer tai fforddiadwy. Roedd y Cyngor Tref yn berchen

ar lain fach o dir yng nghanol y dref gyfagos â hen grochendy. Ffurfiwyd partneriaeth rhwng WWH, y Cyngor Tref a pherchennog y crochendy i greu datblygiad daliadaeth gymysg i ddiwallu anghenion tai lleol.

Y canlyniad oedd cynnig i adeiladu 8 o dai dwy ystafell wely a fflatiau 1 a 2 ystafell wely i'w rhentu'n gymdeithasol a 4 i'w gwerthu.

Cynhaliwyd proses ymgynghori ac ymgysylltu gynhwysfawr i sicrhau bod y cynllun yn diwallu anghenion tai a dylunio ar gyfer cynllun dengar.

Lleolir y safle ym Mharc Cenedlaethol Sir Benfro ac roedd hwythau, fel awdurdod cynllunio, eisiau dyluniad mwy cyfoes fel cyferbyniad i'r olygfa stryd bresennol sy'n gymysgedd o fythynnod hŷn, adeiladau ar wahân a thai a adeiladwyd yn y 1970au.

O ganlyniad i hyn mae gan y cartrefi newydd rendr â lliwiau golau sy'n gweddu i'r lleoliad glan môr ac yn weddol debyg i gytiau traeth. Er nad yw at ddant pawb, cydweithiodd WWH â'r gymuned trwy bartneriaeth â Fforwm Cymunedol Trefdraeth i roi cyfle i bobl leol weld y cynlluniau a gofyn cwestiynau. Cefnogwyd y cyfarfodydd yn dda gan y gymuned a chynhyrwyd cryn dipyn o drafodaeth ar yr angen am dai fforddiadwy i bobl leol a'r ffordd y byddai'r datblygiad yn integreiddio i'r gymuned ehangach.

Mae'r gymuned leol wedi bod yn rhan annatod o ddyluniad a datblygiad y cynllun. Daethpwyd â'r safle hwn i'r blaen gan y Cyngor Tref, a gydweithiodd â WWH, sy'n berchen ar gartrefi eraill yn y dref yng Nghysgod y Dderwen, Feidr Fach a Maes Ingli. Cytunwyd mai cymysgedd o gartrefi oedd yr hyn a fyddai'n diwallu'r anghenion lleol orau.

Cymerodd y gymuned, y Cyngor Tref ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol ran drwyddi draw o'r dyluniad i ddigwyddiadau mwy diweddar i hybu'r cynllun a

sicrhau bod pobl leol yn cofrestru ar y rhestr aros gyffredin gan fod ymhlith y cyntaf i ymgeisio am y cartrefi newydd.

Adeiladwyd y cartrefi gan y contractwr lleol WB Griffiths, a ddarparodd waith ar gyfer pump o lafurwyr di-waith yn ogystal â swyddi profiad gwaith a hyfforddai. Fe gydweithion nhw â gweithredwyr o'r ardal leol.

Dyddiad arfaethedig trosglwyddo'r safle oedd diwedd mis Medi 2019.

Bydd y datblygiad yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau'r bobl hynny a anwyd neu a dyfai i fyny yn

Nhrefdraeth y bu'n rhaid iddynt symud allan o'u tref frodorol i ddod o hyd i gartref fforddiadwy fu'n diwallu eu hanghenion.

Trigolion y cartrefi newydd fydd y rhai sydd â'r flaenoriaeth uchaf o ran anghenion tai ac sy'n byw ar hyn o bryd yn ardal Cyngor Tref Trefdraeth neu wedi byw ynddi am o leiaf pump allan o'r deng mlynedd ddiwethaf.

Mae'r cynllun wedi ei groesawu'n frwd gan Gyngor Tref Trefdraeth. Dywedodd ei Is-gadeirydd, y Cyng. John Griffiths: "Mae cael mwy o gartrefi o ansawdd da yn Nhrefdraeth y gall pobl leol fforddio eu rhentu'n hanfodol er mwyn i ni gadw ein cymuned yn effro."

Canlyniadau a chyflawniadau

- Mae wyth o gartrefi bellach yn cael eu darparu am rent cymdeithasol mewn ardal lle ceir diffyg go iawn o ran tai fforddiadwy
- Bydd yr holl gartrefi newydd yn cael eu gosod dim ond i bobl sydd â chysylltiad â Threfdraeth o dan Bolisi Gosod Lleol
- Mae'r contractwyr WB Griffiths wedi cyfrannu 0.5 % o werth y contract, sef tua £5,000 y gall prosiectau cymunedol elwa ohono.
- Gwahoddwyd disgyblion o'r ysgol leol, Ysgol Gynradd Bro Ingli i enwi'r cynllun a gwnaethant ddod i fyny â'r enw lard y Parrog.
- Hybwyd y cynllun mewn digwyddiadau cymunedol lleol a diwrnod agored i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol sy'n chwilio am gartrefi fforddiadwy.
- Daethpwyd â dau safle adnabyddus yn Nhrefdraeth yn ôl i ddefnydd er budd pobl leol
- Crëwyd cyfleoedd cyflogaeth yn ystod y cyfnod adeiladu 12 mis.
- Cyfrannwyd at gymuned gynaliadwy yn Nhrefdraeth trwy ddarparu cartrefi fforddiadwy ar gyfer teuluoedd ifainc
- Mae WWH wedi dod ynghyd gyda Fforwm Cymunedol Trefdraeth hefyd i drefnu i gopïau o Gyfeirlyfr Trefdraeth gael eu hanfon at yr holl drigolion newydd a fydd yn symud i mewn i lard y Parrog.

Datblygiad newydd - mawr

Noddir gan **BLAKE
MORGAN**

Mae'r wobwr hon yn cydnabod y datblygiadau newydd o 50 uned neu fwy sy'n cyfrannu at gyflenwad neu fforddadwyedd tai yn eu hardal, neu sy'n diwallu angen nas diwallwyd yn flaenorol.

Cynllun gofal ychwanegol Hafan Cefni, Llangefni

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn



Datganiad o gefnogaeth

Mae Hafan Cefni'n enghraifft ddisglair o waith partneriaeth sydd wedi creu cyfle unigryw i bobl 60 oed ac yn hŷn fyw yn annibynnol ac yn ddiogel gyda mynediad i gefnogaeth 24 awr ar y safle. Mae'r cynllun yn gwneud llawer mwy na diwallu anghenion tai a chefnogaeth unigol tenantiaid, mae'n gwerthfawrogi eu cyfraniad at y gymuned hefyd ac yn grymuso nhw i barhau i fedru bod yn rhan o'r ardal leol.

Mae'r adeilad, a gwblhawyd at safon uchel gan Anwyl Construction Ltd, wedi ei gynllunio i osgoi corneli miniog a newidiadau cyfeiriad sydyn ac yn lle, cael newidiadau llyfn y gall pobl sydd â namau corfforol a'r rhai sy'n byw gyda cholli eu cof eu trafod yn fwy hwylus. Mae ardal y llawr isaf, a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, wedi'i chynllunio mewn ffordd debyg i ddarparu dolen o ofodau cerdded a fydd yn dychwelyd unrhyw un i'w fflat yn hwylus.

Mae fflatiau unigol wedi eu cynllunio ar hyd y trychiadau gan gynnwys drysau wedi'u cilannu i alluogi creu a defnyddio blychau cof a mynedfeydd lliw i weithredu fel marcwyr lle o fewn yr adeilad, gan gynorthwyo ymdeimlad o gymuned a rhwyddineb trafod a chyflwynwyd y dyluniad mewnol gan arbenigwyr mewn dylunio sy'n llesol i dementia, gan fodloni safonau meincnod Prifysgol Sterling a galluogi

tenantiaid i fyw yn gyfforddus a theimlo'n ddiogel.

Yn ogystal â thechnoleg Gofal Ychwanegol Warden Call Telecare, mae'r cynllun yn cynnwys technoleg fel dyfeisiau tracio crwydro, drysau patio â larwm arnynt a dyfeisiau synhwyro gwres, dŵr a nwy.

O'r cychwyn cyntaf, mae wedi bod yn ddatblygiad 'pobl yn gyntaf'. Mae ymrwymiad yr awdurdod lleol i adnabod a chefnogi'r angen tai arbenigol hwn wedi'i integreiddio gyda chyfleuster caffi hyb cymunedol eisoes wedi profi'n llwyddiannus. Symudodd y trigolion cyntaf i mewn ym mis Hydref 2018, ac mae'r caffi bellach wedi'i sefydlu fel canolbwynt i'r ardal.

Mae'r staff yn ddwyieithog er mwyn parhau dymuniadau ieithyddol tenantiaid a chyn agor i fyny fe ddaeth y Tîm Gofal Ychwanegol ynghyd â Thîm Gofal yr Awdurdod Lleol i gynnal te prynhawn er mwyn i bawb y dyranwyd fflatiau iddynt a'u haelodau teulu a ffrindiau ddod ynghyd i gwrdd â'i gilydd, gan greu ymdeimlad cymunedol i'r gymdogaeth hyd yn oed cyn iddynt symud i mewn.

Mae cynnwys caffi ac ardaloedd cyffredin o gwmpas y fynedfa'n gweithredu fel cyswllt â'r gymuned ehangach wedi profi i fod yn ased hanfodol wrth rymuso tenantiaid sydd ag ystod eang o anghenion cefnogaeth i fyw'n annibynnol a chyfrannu'n weithredol at weithgareddau yng nghymuned ehangach tref Llangefni.

Adborth:

Gordon Barlow, 91 oed: "Fy newis i yn llwyr yw symud yma, ac rwy'n gwybod mai dyma'r penderfyniad iawn. Mae'n teimlo fel fy nghartref yn barod."

Michael Allmond, 85 oed: "Pan ddes i wybod yn gyntaf am Hafan Cefni, roeddwn braidd yn amharod i adael fy mhentref lle roedd pawb mor gefnogol, ond erbyn hyn mae'r hen gymdogaeth hynny eisieu dod i aros gyda fi. Rwy'n gallu byw yn fwy annibynnol ac mae gofal a chefnogaeth ar gael pan fydd ei angen arnaf."

Brian Burt, 76 oed: "Mae'r lleoliad canolog yn fonws go iawn gan nad wyf yn gallu gyrru mwyach, felly gallaf fynd allan a theimlo fy mod yn rhan o bethau yn ogystal â chwrdd â phobl newydd yma. Mae'n lle hyfryd".

Alwyn Rhys Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn: "Rydym yn falch bod Hafan Cefni'n darparu cyfle i bobl leol aros yn annibynnol o fewn eu tenantiaeth eu hunain gyda mynediad i ofal. Mae'r cyfleuster arobryn hwn yn darparu dewis arall go iawn i ofal preswyl."

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Hafan Cefni ger canol Llangefni, Ynys Môn, gan ddarparu 63 o fflatiau hunangynhwysol o safon uchel, amrywiaeth eang o gyfleusterau cymunedol a chefnogaeth unigol ar gyfer pobl 60 oed ac yn hŷn ag angen a asesir, y mae 15 ohonynt wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer y rhai sy'n byw gyda cholli eu cof.

Mae'r prosiect hwn, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru, yn cynnwys hyb caffi cymunedol ar gyfer pobl yr ardal ehangach hefyd.

Mae'r cynllun yn darparu ateb rhagorol i angen tai penodol a adnabuwyd gan yr ardal leol, ac ar yr un pryd mae'n creu man cyfarfod bywiog ar gyfer pobl o bob oedran.

Mae'r cynllun yn ddatblygiad meincnod gyda nodweddion dylunio allweddol i alluogi pobl sydd ag anghenion cefnogaeth amrywiol i fyw yn annibynnol. Mae nodwedd allweddol y caffi cymunedol integredig o fewn y cynllun wedi creu hyb cymdeithasol y mae ei angen yn fawr ar y gymuned leol ar yr un pryd â sicrhau bod y trigolion eu hunain yn teimlo eu bod yn rhan ganolog o gymdogaeth newydd a bywiog, gan oresgyn teimladau o unigedd cymdeithasol. Helpodd cyfranogiad cynnar y darparwyr gwasanaethau cymunedol lleol, Agewell, i gyfeirio'r broses hon a dyluniwyd y cynllun yn unol â meincnod 'Designed for Dementia' Prifysgol Sterling hefyd.

Cynllun Gofal Ychwanegol Byw yn Annibynnol Llys Raddington

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn



Mae Llys Raddington yn gynllun tai newydd i bobl 60 oed ac yn hŷn sydd ag angen cefnogaeth a adnabuwyd, a dylunnir 15 o'r 73 o fflatiau un a dwy ystafell wely hunangynhwysol yn benodol ar gyfer y rhai sy'n byw gyda cholli'r cof.

Mae'r datblygiad, a leolir yng Nghanol Tref y Fflint yn Sir Y Fflint, Gogledd Cymru ac a adeiladwyd at safon uchel trwyddi draw gan Grŵp Adeiladu Anwyl, yn gynllun partneriaeth rhwng Cymdeithas Tai Clwyd Alyn

Housing Ltd., Cyngor Sir Y Fflint a Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun yn ddatblygiad allweddol fel rhan o gynllun adfywio 'Cynllun Meistr 2021 Y Fflint' Cyngor Sir Y Fflint. Dechreuodd gwaith ar y safle yn 2016 a symudodd y tenantiaid cyntaf i mewn pan gwblhawyd y cynllun ym mis Hydref 2019.

Trwy gydol yr holl gamau, o ddylunio i gyflwyno, bu cyfranogiad agos y gymuned yn nodwedd allweddol gyda digwyddiadau ymgynghori'n cael eu cynnal mewn cyfleusterau cymunedol lleol gan gynnwys Caffi'r Hen Lys, Y Fflint ac Eglwys Santes Fair a Dewi Sant. Trwy gydol y cyfnod adeiladu, defnyddiwyd yr Eglwys bob dydd Gwener i drigolion 'alw heibio' i godi unrhyw bryderon ac, o ganlyniad uniongyrchol i hyn, aeth yr eglwys yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol sy'n cynorthwyo gwella cydlyniant cymunedol. Mae Caffi'r Hen Lys gerllaw yn Y Fflint hefyd wedi mynd yn bwynt cyswllt cymunedol ar gyfer tenantiaid y cynllun gofal ychwanegol, gan oresgyn rhwystrau unigedd ac annog cyfranogiad yn y gymuned ehangach.

Bu i'r contractwyr, Anwyl Construction, ymrwymo hefyd i gyfres o fentrau cymunedol rhagorol, gan gynnal ymweliadau ysgol i annog plant o'r ddau ryw i ystyried gyrfa yn y crefftau. Gweithiodd Anwyl hefyd gyda thrigolion un o gynlluniau byw yn annibynnol Cymdeithas Tai Clwyd Alyn i bobl a fu'n ddigartref i'w cefnogi trwy'r ardystiad diogelwch safle CSCS

angenrheidiol i alluogi nhw i ennill profiad gwaith hanfodol. (Mae un o'r hyfforddeion hyn wedi symud ymlaen i ymgymryd â swydd amser llawn gyda'r cwmni).

Mae'r ymdeimlad o greu cymdogaeth fywiog, gan adeiladu ar ysbryd cymunedol gwych yr hen fflatiau, eisoes wedi sefydlu Llys Raddington fel ased bendigedig, nid yn unig i'r trigolion ond i'r dref yn gyffredinol.

Mae cysylltiadau parhaus rhwng y cenedlaethau gyda phlant ysgol lleol a'r trigolion yn profi i fod yn llwyddiant ysgubol gyda'r hen a'r ifanc fel ei gilydd yn elwa o'r amser a dreulir gyda'i gilydd.

Meddai Susie Lunt, Uwch Reolwr Arwain Gwasanaethau Oedolion Integredig Cyngor Sir Y Fflint: "Mae Sir Y Fflint wedi cydweithio'n agos â ChlwydAlyn i ddatblygu cynllun gofal ychwanegol tra chyfoes sy'n cefnogi unigolion hŷn i fyw mor annibynnol â phosib.

"Mae dull Cymdeithas Tai Clwyd Alyn o gefnogi'r nod allweddol hwn yn golygu'n ymarferol eu bod wedi datblygu cynllun o fewn pellter cerdded i dref

hanesyddol Y Fflint, mae dyluniad y cynllun yn galluogi annog annibyniaeth. Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn ymatebol i ddiwallu anghenion tai pobl; maent yn ymateb yn gyflym i anghenion newidiol pobl, ac maent wedi datblygu dealltwriaeth ragorol o anghenion tai a chefnogaeth pobl sy'n byw gyda dementia, gan gymryd model dyluniad dementia da Sterling i ystyriaeth".

Meddai un o'r trigolion Wilfred Bateman, 95 oed: "Rwy'n falch iawn fy mod wedi symud yma. Mae'n dda i deimlo fy mod yn rhan o bethau lle mae lot yn mynd ymlaen, mae gennyf fy fflat fy hun sy'n rhoi preifatrwydd a gofod personol i mi."

Meddai un o'r trigolion Mrs Jacqueline Jones, 75 oed: "Rwy'n lleol i'r Fflint ac wedi gweld newidiadau enfawr yn yr ardal dros flynyddoedd diweddar. Mae cymaint o bethau'n mynd ymlaen nawr ac rwy'n teimlo fy mod yn byw reit yng nghanol rhywbeth sy'n wirioneddol dda."

Meddai Cerys Sullivan, merch un o drigolion Llys Raddington: "Mae symud i Lys Raddington wedi bod yn wych i fy mam, ac ar ben hynny mae wedi trawsnewid fy mywyd i hefyd. Mae gennyf gymaint o dawelwch meddwl - mae'n lle arbennig iawn."

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Llys Raddington yn gynllun gofal ychwanegol a gostiodd tua £10 miliwn yng nghanol Y Fflint, un o dri a gwblhawyd gan Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Housing Ltd ar ddiwedd 2018 mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r cynllun, a ddyluniwyd fel rhan annatod o Gynllun Adfywio Canol Tref Y Fflint, yn darparu 73 o fflatiau un a dwy ystafell wely hunangynhwysol o safon uchel dros bedwar llawr gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau cymunedol allweddol sy'n rhoi mynediad 24 awr i ofal a chefnogaeth ar gyfer trigolion 60 oed ac yn hŷn. Dyluniwyd 15 o'r fflatiau'n benodol ar gyfer pobl sy'n

byw gyda dementia.

O ddylunio i gyflwyno, mae Llys Raddington yn enghraifft arobryn o gynnwys y gymuned, gwaith partneriaeth bendigedig a gweledigaeth i drawsnewid lleoliad canol tref fel rhan ganolog o waith adfywio ehangach yr ardal.

Ar safle twr uchel o fflatiau blaenorol, mae Llys Raddington yn enghraifft ddisglair o greu cymdogaeth wych sy'n dod â chwa o awyr iach i'r ardal a rhoi cymaint o ofal i greu cysylltiadau cymunedol â'r sylw i fanylder wrth ddylunio'r adeilad er mwyn sicrhau y gall pobl ffynnu a byw yn dda mewn cynllun gwych.

Y Felin - Treganna

Lovell



Datganiad o gefnogaeth

Ar safle hen felin bapur Arjo Wiggins Teape wrth Bont Elái, Caerdydd, mae'r Felin yn trawsnewid y safle tir llwyd 53 erw diffaith i un o gymunedau preswyl mwyaf atyniadol a chynaliadwy Caerdydd.

Mae'r partneriaid Lovell, Grŵp Tirion, Cymdeithas Tai Cadwyn, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth ar ffurf gyllid gan Gymdeithas Adeiladu Principality, yn datblygu un o'r rhaglenni adfywio trefol mwyaf erioed yng Nghymru yn Y Felin, Treganna gydag 800 o gartrefi newydd. Gan ymdrin â'r angen am dai fforddiadwy, cynigir hanner y cartrefi am rent wedi'i ddisgowntio/cymdeithasol gyda Tirion, wedi'u rheoli gan Cadwyn, a bydd y cartrefi sy'n weddill ar gael i'w gwerthu ar y farchnad agored trwy Lovell. Ar ôl ei gwblhau'n llawn bydd yn cynnwys mannau gwyrdd cymunedol â pharc glan yr afon a hyb cymdogaeth ag amrywiaeth o siopau a Meddygfa a fydd yn ffurfio calon y datblygiad.

Gyda chamau 1a a Safle A eisoes wedi'u cwblhau mae'r 265 o gartrefi daliadaeth gymysg newydd eisoes yn dod â chwa o awyr iach i'r llain hon o dir a esgeuluswyd yn flaenorol, gan gynnig cymdogaeth o safon uchel sydd ag ymdeimlad unigryw o le. Ceir cymysgedd o fathau o unedau sy'n amrywio o fflatiau un ystafell wely i gartrefi teulu pedair ystafell wely.

Mae gan y cynllun meistr a ddatblygwyd chwe egwyddor drosgynnol:

- Adfer tirwedd Afon Elái
- Lleoliad y gymuned gynaliadwy newydd
- Creu 'lle' sydd wedi'i ymwreiddio yn y dirwedd
- Creu cymuned seiliedig ar rwydwaith o strydoedd sy'n ffurfio cerddwyr, beicio a chludiant cyhoeddus.
- Darparu cymysgedd o ddefnyddiau tai, masnachol a chymunedol

- Ansawdd a naws unigryw y dyluniad.

Mae'r camau cyntaf wedi'u diffinio gan groywder y cynllun meistr, sydd wedi'i gyfeirio gan gyfyngiadau a chyflleoedd y safle. Y nodweddion pwysicaf:

- Mynediad ar hyd Meingefn y Gymdogaeth sy'n rhedeg o'r Dwyrain i'r Gorllewin
- Cysylltiad â Pharc Glan yr Afon trwy'r Strydoedd Gwyrdd sy'n rhedeg o'r Gogledd i'r De
- Gofodau a rennir fel ffocws y lleiniau datblygu i greu cymdogaethau penodol.

O'r cychwyn cyntaf y weledigaeth ar gyfer Y Felin oedd darparu cartrefi ansawdd uchel, hyblyg a chynaliadwy o fewn fframwaith y cynllun meistr yr oedd ganddo 'creu lle' fel prif ysgogydd. Cartrefi'n seiliedig ar rwydwaith o ofodau croyw ac ansawdd uchel a rennir gydag isadeiledd tirlun cryf i feithrin datblygiad cymuned newydd. Rydym yn falch o fod yn creu lle y gall pobl fyw a ffynnu ynddo a chreu cysylltiadau rhwng hanes cyfoethog a bywiog yr ardal, ei phresennol a'i dyfodol.

Yn awr mae ailddatblygu Y Felin yn darparu'r cysylltiad colledig hanfodol ar lwybr darluniaidd Afon Elái, gan alluogi pobl i werthfawrogi'r fioamrywiaeth gyfoethog a chynefinoedd amrywiol ar hyd yr afon o Sain Ffagan i Fae Caerdydd. Roedd Afon Elái yn rhan hanfodol o hanes yr ardal a llwyddiant y Felin. Bydd bioamrywiaeth gyfoethog yr ardal yn cael ei diogelu a'i gwella fel y bydd modd i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

Mae tîm y bartneriaeth wedi ennyn diddordeb y gymuned leol yn uniongyrchol ac wedi cyflawni nifer mawr o fentrau cymunedol. Yn benodol ein prosiect 'Ein Hatgofion o'r Felin' sy'n ceisio dod â phobl a fu'n gweithio ym Melin Arjo Wiggins ynghyd i rannu eu hatgofion a chreu etifeddiaeth ar gyfer y dyfodol. Bydd y prosiect yn parhau trwy gydol y datblygiad wrth i ni ddathlu treftadaeth Y Felin ar draws y safle - yn benodol ym Mharc Glan yr Afon a chanol y pentref.

Yn ogystal â darparu cyfle adfywio anhygoel o ran datblygu safle tir llwyd, bydd Y Felin hefyd yn rhoi hwb gwerthfawr i'r diwydiant adeiladu lleol trwy ei ymrwymiad i ddefnyddio gweithwyr medrus o'r gymuned leol yn y datblygiad.

"Symudais i'r Felin oherwydd ei lleoliad bendigedig. Mae'n agos iawn at ysgol fy merch ac o fewn cyrraedd hwylus i Dreganna a'r tu hwnt. Rwy'n dwlu ar fyw yma ac mae'n teimlo fel pentref yn barod lle mae pawb yn adnabod ac yn cymryd gofal am ei gilydd.

"Mae fy merch wedi gwneud ffrindiau yn y stryd yn barod ac yn gallu chwarae allan yn ddiogel. Mae ymdeimlad cymunedol gwych wrth fyw yma." - Hannah - trigolyn

- Gwobrau Eiddo Insider – Gwobr Datblygiad y Flwyddyn 2019
- Gwobr Ansawdd NHBC Pride in the Job 2018
- NHBC – Gwobr Seal of Excellence 2018
- Gwobrau Darllenwyr First Time Buyer – Cartref Teuluol Gorau First Time Buyer 2018
- Un o'r llwyddiannau mwyaf hyd yma bu ein cwrs 'Get into Construction', a gyflwynwyd ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog. Rhoddwyd cyfle i 16 o oedolion ifainc lleol sy'n ddi-waith wella'u cyfleoedd cyflogadwyedd.
- Y Prosiect Tyfu'n Dda gyda chleifion o'r feddygfa - gardd newydd â phatio gyda mynediad i gadeiriau olwyn, a pharhau i gefnogi eu cynllun o helpu cleifion i ddysgu sut i blannu a thyfu ac ar yr un pryd

gwneud ffrindiau a helpu nhw i oresgyn salwch.

- Crëwyd sied feiciau i storio beiciau Ysgol Gymraeg Treganna ar Sanatorium Road yn ddiogel, tarmaciwyd llwybr newydd er diogelwch rhieni a gwarcheidwaid wrth iddynt gasglu eu plant a heriwyd y disgyblion trwy brosiect i enwi un o'r strydoedd ar y datblygiad.
- Cefnogwyd Gŵyl Caerau a Threlái, cymerwyd rhan yn y 'Fenter Rhoi ac Elwa', lle gwirfoddolodd pump o'u staff fel dyfarnwyr yng ngŵyl rygbi tag blynyddol Gleision Caerdydd gan godi dros £5 dros Ymchwil Canser Cymru yng Ngŵyl Badau Draig Caerdydd.
- Adnewyddwyd ystafelloedd newid Parc Jiwbil yn Nhreganna.

Captain's Walk - Braunton & Clevedon - Prosiect gan Cartrefi Caerdydd

Cyngor Caerdydd



Datganiad o gefnogaeth

B&C yw un o'r datblygiadau cyntaf a gyflwynwyd trwy Cartrefi Caerdydd (CC), rhaglen adeiladu tai nodedig Cyngor Caerdydd a Wates Residential. Mae CC yn bartneriaeth unigryw yng Nghymru i gyflwyno tai fforddiadwy uchel eu hansawdd sy'n adfywio cymunedau ac yn dod â safleoedd a danddefnyddir yn ôl i ddefnydd. Mae ansawdd y dylunio a chreu lleoedd yn rhan ganolog o greu ac integreiddio'r cymunedau newydd a bywiog o fewn yr ardaloedd sy'n eu hamgylchynu.

- 1500 o gartrefi dros gyfnod o ddeng mlynedd
- 600 o gartrefi i'w rhentu gan gynnwys Perchentaeth â Chymorth.

- 900 o gartrefi i'w gwerthu.
- Pob cartref wedi'i frandio'n Gartrefi Caerdydd
- Daliadaeth niwtral ei hymddangosiad.

Wrth wraidd CC mae cyflwyno Buddiannau Buddsoddi Cymunedol trwy hyfforddiant/gyflogaeth, cyfleoedd cadwyn gyflenwi lleol ac adeiladu capasiti yn y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt (gweler Canlyniadau)

B&C yw'r trydydd cynllun yn y rhaglen i'w gwblhau, gyda chwech o brosiectau ar y safle a thri ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae gwaith datblygu'n mynd rhagddo ar ddau ar bymtheg o brosiectau pellach.

Adeiladu Cymunedau a Lleoedd

Datblygwyd cymysgedd y cynllun B&C mewn ymgynghoriad â Chaerdydd i ddiwallu anghenion tai lleol ac mae'n cynnwys unedau hygyrch yn ychwanegol at gyfran uwch o gartrefi llai i'w rhentu ac i'w gwerthu, i ddenu'r rhai sy'n symud i gartref llai a'r rhai sy'n prynu am y tro cyntaf. Roedd y cynllun yn cynnwys cymysgedd o dai pâr maint teulu a fflatiau gyda ffenestri mawrion a gerddi preifat i'r holl dai.

Dyma gam cyntaf i bobl leol ar yr ysgol tai, gan gyflwyno cymuned gymysg atyniadol y mae pobl eisiau byw ynndi ym mhob cam o'u bywydau.

Creodd B&C gymdogaeth newydd mewn cymuned agos, gan sicrhau y gall pobl leol gael mynediad i gartrefi newydd ac felly aros yn y gymuned.

- Datblygiad a arweinir gan Ddyluniad o Safon
- Y cartrefi newydd cyntaf yn yr ardal ers 20 mlynedd
- Tai a dargedir at bobl leol sy'n prynu am y tro cyntaf

- Tai o safon sy'n cynnig gwerth am arian
- Safonau gofod a manyleb gwell o'i gymharu â thai cyfwerth a werthir ar y farchnad agored
- Dim anogaeth i werthu i fuddsoddwyr
- 73% yn prynu am y tro cyntaf
- 90% o brynwyr o radiws o 4 milltir o Gaerdydd
- 40% yn fforddiadwy (gofyniad cynllunio dwbl)
- 60% i'w gwerthu ar y farchnad agored
- Creu cymdogaeth newydd
- Yn agos i ysgolion a chyfleusterau hamdden
- Buddsoddiad cymunedol sylweddol mewn cyfleoedd addysg a chyflogaeth ac adeiladu gallu

Dylunio ac Adfywio

Mae B&C yn ddatblygiad o 40 o gartrefi cyngor fforddiadwy a 66 o gartrefi i'w gwerthu. Datblygodd Caerdydd eu Safon Ddylunio eu hunain ar gyfer y prosiect gyda dylunio o safon wrth ei wraidd, gyda'r nod o hyrwyddo creu lleoedd a chymuned gynaliadwy newydd:

- Ailddatblygu safle tir llwyd yng nghanol Ystâd Llanrhymni bresennol.
- Dymchwelwyd blociau fflatiau segur a fu'n wynebu strydoedd presennol i hwyluso'r datblygiad
- Adeiladwyd heolydd newydd a rennir i greu golygfeydd stryd newydd yn wynebu'r tir parc gan ymgorffori tirlunio meddal a chaled o safon.
- Cafodd tir parc ei adfywio rhwng y safle a chan amlapio'r perimedr
- Systemau draenio cynaliadwy (SUDs)
- Strydoedd sydd â choed ar eu hyd
- Dyluniad athraidd a chroyw yn hollbwysig

- Mathau o gartrefi a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer y prosiect gan gynnwys fflatiau llawr gwaelod hygrych
- Adolygiadau a beirniadaethau dylunio manwl a chynhwysfawr
- Menter 'Dylunio'r Addewid' Wates i sicrhau y cynhelir ansawdd y dyluniad.
- Adolygiadau Comisiwn Dylunio Cymru
- Egwyddorion 'Diogel trwy Ddyluniad' gan gynnwys gerddi cefngefn ac edrych dros y gofod cyhoeddus agored.
- Gwelliant ynni o 17% uwchben y Rheoliadau Adeiladu presennol
- Dull ffabrig yn gyntaf a ddatblygwyd gyda BRE
- Ymdrin ag agendâu tlodi tanwydd ac amgylcheddol.

Masnachol

Mae CC yn cynrychioli partneriaeth i gyflwyno tai fforddiadwy newydd heb gyllid GTC

Mae'r model yn gweithio trwy:

- Dir a ddarperir gan y cyngor
- Arbenigedd datblygu a ddarperir gan Wates a chynlluniau derbyn cyllid o'r cychwyn cyntaf hyd at gynllunio a dechrau ar y safle
- Wates i ddarparu cartrefi fforddiadwy am y gost
- Wates i gyllido datblygu gwerthiannau ar y farchnad agored
- Wates i gymryd risg wrth werthu cartrefi ar y farchnad agored am elw sydd wedi'i gapio
- Elw cymysg cyffredinol wedi'i gapio
- Mekanwaith cyfartalog ar gyfer cynnydd mewn gwerthiannau

Canlyniadau a chyflawniadau

- Gwerthwyd pob un o'r 66 o gartrefi marchnad agored
- Gwerthwyd 90% i drigolion Caerdydd
- Enghraifft rhagorol o bartneriaeth rhwng y Cleient, Contractwr, Tîm Dylunio a Chadwyn Gyflenwi
- Crëwyd gofodau gwyrdd a SUDs
- Adfywio a Dylunio o Safon wedi'u gwireddu
- Gwelliant 17% mewn perfformiad ynni
- Sgôr CCS o 42
- Digwyddiadau Cadwyn Gyflenwi
- Gwefan CC benodedig a grëwyd i hybu'r prosiect a marchnata eiddo
- Datblygiad Tai Gorau Newydd LABC Cymru
- Rhaglen Building Futures
- Menter School of Hard Knocks
- Menter Ysgol Fusnes Wib
- Cyfleusterau newydd ar gyfer Clwb Paffio Llanrhymini

Ffigurau Buddsoddi Cymunedol CC Ch3 2019:

Cyflogaeth a Hyfforddiant

- 82 o bobl leol wedi elwa
- 53 o brentisiaid
- 5683 o wythnosau hyfforddiant/cyflogaeth
- 25327 o oriau staff

- Gwerth o £278,592

Addysg

- Cefnogwyd 2224 o fyfyrwr
- 236 o oriau staff
- 200+ o ymwelwyr i'r fenter addysg
- Gwerth y buddsoddiad £11,468

Economi Leol

- Gwariant o £14,989,000 gyda MBaCh
- Budd Economaidd £5,088,638?
- Buddsoddiwyd £38,875 mewn MB lleol

Cymuned

- 4847 o oriau staff
- Elusennau lleol etc. £87,799

Cyfanswm Buddsoddiad Cymunedol ac Economaidd £15,406,000

"Mae cynllun Cartrefi Caerdydd yn gwneud cynnydd da gyda 68 o dai cyngor yn cael eu trosglwyddo i denantiaid a llawer mwy wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn hon. Mae Cartrefi Caerdydd yn dod â thai fforddiadwy newydd o safon i'r ddinas ar gyfer y bobl y mae arnynt eu hangen fwyaf ac, yn arwyddocaol, cyfrannu at ein targed o gyflwyno 2,000 o gartrefi cyngor newydd yn y ddinas."

Lynda Thorne, Aelod Cabinet, Tai a Chymunedau

Contractwr â ffocws ar y gymuned

Noddir gan



Mae'r wobwr hon yn cydnabod cyfraniad contractwyr tuag at y gymuned ac economi leol. Bydd y sefydliadau ar y rhestr fer wedi ymwreiddio cyflwyno buddion cymunedol yn eu rhaglenni gwaith.

Anwyl Construction

Anwyl Construction



Datganiad o gefnogaeth

Mae Anwyl Construction yn gontractwr a datblygwr tai cymdeithasol a gofal ychwanegol sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru. Dechreuwyd Grŵp Anwyl yn Y Rhyl, Gogledd Cymru ym 1930 a heddiw mae'n gweithredu o swyddfa a adeiladwyd at y diben yn Ewlo, Sir Y Fflint, gan gyflogi gweithlu cynyddol o 194 ar draws y Grŵp.

Trwy gydol ein hanes a gyda'n pen-blwydd yn 90 oed yn prysur nesáu, rydym wedi cadw athroniaeth adeiladu feddylgar sy'n rhoi pobl yn gyntaf, creu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth cynaliadwy ac ar yr un pryd adeiladu cartrefi a chyfleusterau a fydd yn darparu effaith barhaus a chadarnhaol.

Rydym yn gweithredu o dan 'ethos adeiladu ystyriol', dull o ymgorffori ein hymrwymiad i greu cymunedau bywiog a chynhwysol, gan wella bywydau'r rhai sy'n byw ynddynt trwy gydol y broses adeiladu a thu hwnt i'w chwblhau.

Mae gennym Reolwr Ennyn Diddordeb Cymunedol penodedig ac rydym yn buddsoddi amser, adnoddau ac ymdrech ar draws ein timau prosiect i greu swyddi newydd, prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi

a mynediad i addysg ar gyfer pobl leol, gan ennyn diddordeb cynulleidfaoedd i greu canlyniadau pwrpasol a pharhaus i bawb:

Rydym yn deall pwysigrwydd creu newidiadau cadarnhaol ar gyfer grwpiau cymunedol ac wedi gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi nifer o brosiectau a arweinir gan wirfoddolwyr yn ogystal â chychwyn cynlluniau cymunedol newydd. Ymysg yr enghreifftiau mae cysylltiad hirsefydlog ag Ymddiriedolaeth y Tywysog, sy'n cyflwyno ac yn cyllido cyrsiau, lleoliadau gwaith a phrentisiaethau ar gyfer pobl ddi-waith ar draws Gogledd Cymru. Mae'r gefnogaeth ar gyfer prosiectau unigol yn amrywio o ddarparu cyfleusterau gwasanaethau llety brys i eirioli dros unigolion sydd wedi'u heithrio neu'n unig yn gymdeithasol. Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi 13 o aelodau staff fel hyfforddeion/prentisiaid sy'n cwblhau cyrsiau addysg achrededig, gyda'r nod o gynnig cyfleoedd cyflogaeth hir dymor a chynnydd gyrfaol, ac anogir ein cadwyn gyflenwi i recriwtio prentisiaid o ganlyniad i brosiectau Anwyl gael eu dyfarnu iddynt.

Mae Grŵp Anwyl yn gwneud ymdrech bwrpasol i wneud dewisiadau moesegol am redeg y busnes o ddydd i ddydd, gan lansio partneriaeth newydd yn ddiweddar gyda'r Fenter Gymdeithasol Good Wash Co, cefnogi Tŷ Gobaith/Hope House, hosbis plant lleol.

Mae cefnogi busnes lleol yn flaenoriaeth, mae'r prosiectau adeiladu graddfa fawr rydym yn eu cyflwyno'n cynnig llawer o gyfleoedd twf economaidd ar gyfer busnesau lleol ac rydym yn ceisio uchafu'r nifer o gyflenwyr ac is-gontractwyr lleol a benodir i bob prosiect. Ein nod yw i isafswm o 70% o'r is-gontractwyr ddod o ardal y safle, ac i archebion gael eu gosod gyda chyflenwyr a leolir o fewn radiws o 25 milltir.

Tystlythyrau

"Pan symudais i Greenbank Villas yn gyntaf roeddwn yn ansicr iawn o ble roeddwn i'n mynd mewn bywyd neu'r hyn y gobeithiais ei gyflawni, doeddwn i ddim yn meddwl am y dyfodol. Y peth gorau am yr hyfforddiant

a lleoliad gwaith gydag Anwyl yw gwybod y gallaf wneud beth rwy'n benderfynol o'i wneud a chael profiad 'mewn swydd' hanfodol. Mae'n wych ei fod bellach wedi fy helpu i fachu swydd gydag Anwyl."

- John Thurston, trigolyn lleol a fu'n ddi-waith a oedd wedi dod trwy ddigartrefedd yn ddiweddar, a sicrhodd gyflogaeth gydag Anwyl o ganlyniad i weithdy cefnogaeth mewn perthynas â'n prosiect gerllaw.

"Mae cael cwmni adeiladu ymroddedig y tu ôl i ni'n rhan werthfawr tu hwnt o'n llwyddiant ni a llwyddiant ein pobl ifanc. Mae eu gwaith caled ac angerdd yn helpu ni i newid bywydau pobl ifanc yng Ngogledd

Cymru, mae'n cael effaith enfawr."

- Phil Jones, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru

"Mae'n braf gweld bod y tîm yn ymroddedig yn eu dull o gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y gymuned leol. Mae'r tîm yn rhagweithiol ac yn broffesiynol o ran ei agwedd at gyflogaeth leol a mentrau cymunedol a fydd, yn ei dro, yn creu cartrefi, bywydau a chymdogaethau bywiog i Magenta Living."

- Louise Edwards, Uwch Reolwr Prosiect - Magenta Living

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae'r cyflawniadau a chanlyniadau yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Mae 73% o weithlu'r safleoedd yn byw yn yr ardaloedd o gwmpas y safle.
- Roedd 79.5% o fusnesau a ddefnyddiwyd ar draws 6 phrosiect yn MBaCh o Gymru.
- Mae 34 o brentisiaid sy'n byw yng Nghymru wedi gweithio ar draws ein safleoedd, gyda 6 phellach yn cael eu recriwtio ar un prosiect sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.
- Mae prentisiaid wedi gweithio 908 o wythnosau.
- Mae 54 o bobl wedi cwblhau lleoliad profiad gwaith.
- Cwblhawyd 149 o wythnosau o brofiad gwaith.
- Cefnogwyd 33 o bobl fu'n ddi-waith i ymgymryd â chyflogaeth gynaliadwy, trwy gyflogaeth uniongyrchol gydag Anwyl neu o fewn ein cadwyn gyflenwi.
- Rhoddwyd gwerth £33,590 o gyfraniadau arian parod mewn perthynas â 6 phrosiect a gwblhawyd yn flaenorol.
- Cyfrannwyd cyfwerth â £19,098 o roddion eraill, gan gynnwys nwyddau a llafur mewn da.
- Rhoddwyd cyfanswm o £52,688 mewn nwyddau, llafur a rhoddion arian parod ar draws 6 phrosiect yn unig.
- Codwyd a rhoddwyd £10,602 gan staff Anwyl trwy gyfres o ddigwyddiadau a mentrau noddi.
- Adeiladwyd a datblygwyd 337 o gartrefi yng Ngogledd Cymru.
- Cyflogwyd 117 o aelodau staff amser llawn, maent wedi'u cyflogi o hyd heddiw.
- Ymroddiad i weithio gyda chontractwyr gwastraff sy'n gweithredu polisi tirlenwi dim gwastraff o gwbl i helpu cyflawni ein targed o ailgylchu 99% o wastraff.
- Cyflwynwyd gwerth £46.3m o brosiectau adeiladu.

Creu Menter (Y Contractwr Cymdeithasol o Ddewis)

Creu Menter a Chartrefi Conwy



Datganiad o gefnogaeth

Dechreuodd Creu Menter, is-gwmni Cartrefi Conwy, fasnachu yn 2015 ac mae wedi tyfu'n gyflym fel y Contractwr Cymdeithasol o Ddewis ar gyfer Gogledd Cymru. Ac yntau wedi tyfu o'r angen i Cartrefi Conwy greu ffrydiau incwm masnachol newydd i gefnogi ei agenda twf ac ar yr un pryd cynnig cyfleoedd cyflogaeth i denantiaid di-waith, mae Creu Menter wedi prysur mynd yn Fenter sydd wedi ennill gwobrau llw a adnabyddir yn rhyngwladol gyda throsiant o £9.82 miliwn dim ond y llynedd. Trwy ddod â llawer o'n ffrydiau gwaith hanfodol (gan gynnwys cynnal a chadw offer nwy, clirio eiddo gwag, glanhau trwyadl, gwelliannau amgylcheddol 'yn fewnol' trwy Creu Menter, mae Cartrefi Conwy wedi arbed arian, gwella safon y gwasanaethau a chreu cyfleoedd cyflogaeth niferus ar gyfer ein tenantiaid.

Mae Creu Menter bellach wedi ehangu. Rydym wedi arwain ar nifer o gontractau ar gyfer y sector preifat a chyhoeddus, gan gynnwys Prifysgol Bangor, y Bwrdd Iechyd Lleol a Bwyty Dylan's (i enwi ond rhai). Rydym hefyd wedi agor ein ffatri adeiladu modiwlaidd cyntaf yng Nghaergybi.

Mae Creu Menter yn contractwr adeiladu a chynnal a chadw sydd braidd yn wahanol. Ail-fuddsoddir 100% o'i elw masnachol mewn mentrau cyflogaeth trwy ei academi gyflogaeth, sy'n helpu pobl leol i ddod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli. Mae'r gwasanaeth unigryw yn helpu ein tenantiaid i adeiladu dyfodol gwell dros eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau. (Ceir mwy o fanylion am hyn isod).

Ers i Cartrefi Conwy ddod â'i ffrydiau gwaith yn fewnol trwy Creu Menter, mae lefelau boddhad cwsmeriaid wedi codi'n sylweddol. Mae ein harolygon boddhad cwsmeriaid misol yn rhoi adborth pwysig i ni, ac mae ein cleientiaid yn adrodd cyfraddau boddhad rhwng 96% a 100%. Rydym hefyd wedi cynnal cydymffurfiad archwiliadau diogelwch nwy o 100% gyda chyfraddau mynediad uwch.

Mae Academi Gyflogaeth Creu Menter yn cyrraedd y bobl sydd pellaf i ffwrdd o'r farchnad swyddi efallai nad ydynt erioed wedi'u cyflogi ac â sgiliau a phrofiad cyfyngedig y byddant fel arall yn ei chael hi'n anodd cyrchu cyflogaeth. Mae'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth â thâl penodol ar gyfer tenantiaid Cartrefi Conwy. Gall tenantiaid ymgeisio am swydd 12-18 mis mewn amrywiaeth o rolau gan gynnwys paentio ac addurno, plwmio a gweinyddiaeth swyddfa. Dyluniwyd y broses ymgeisio i annog ymgeiswyr o bob cefndir ac mae'n cynnig cefnogaeth; o gwblhau ffurflenni i gyngor ar gyfweiliadau.

Mae'n cynnwys sesiwn 'cwrdd â'r tîm' a rhoi cynnig ar waith fel bod ymgeiswyr yn cael blas ar y swydd, ac yna cyfweiliad. Pan fyddant yn llwyddiannus maent yn elwa o hyfforddiant mewn swydd, cefnogaeth cadw at gyllideb, rheoli amser, gweithdrefn bob dydd a hyder. Maent yn ennill cymwysterau, yn cael 'bydi' gwaith ac yn derbyn cefnogaeth gan fentor trwy gydol y broses. Ar ôl cwblhau'r contract, maent yn derbyn cefnogaeth i ddod o hyd i swydd hefyd. Mae 95% o'n buddiolwyr wedi symud ymlaen at gyflogaeth bellach.

Mae'r Academi Gyflogaeth yn cynnig gwasanaeth i'r holl bobl sy'n ddi-waith yn lleol. Mae wedi'i lleoli mewn un o gymunedau Cartrefi Conwy ac ar agor bob dydd i bobl alw heibio, defnyddio'r cyfrifiaduron, mynychu caffi swyddi neu sgwrsio â'r tîm.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cyrraedd cymunedau ar draws Conwy gan gynnwys ardaloedd gwledig efallai nad oes ganddynt fynediad digidol na chlydiant rheolaidd. Gwneir hyn trwy sesiynau galw heibio mewn canolfannau cymunedol/Ilyfrgelloedd neu ar ein Bws Swyddi.

Hefyd, mae'r Academi'n rhoi cyfle i bobl ddi-waith wella'u sgiliau trwy'r 'Rhaglen Bydd yn Barod ar gyfer y Byd Gwaith' sy'n helpu pobl i baratoi ar gyfer cyflogaeth. Mae'n cyflwyno'r Pasbort i Adeiladu hefyd, sy'n gwrs a anelir at unrhyw un sydd am gael gyrfa ym myd Adeiladu efallai nad oes ganddynt unrhyw brofiad neu gymwysterau.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli hefyd i roi hwb i hyder wrth ennill profiad mewn rôl berthnasol.

Mae'r Academi'n gweithio gyda chyflogwyr lleol i helpu paru ymgeiswyr â'r swydd iawn. Mae'r tîm yn adeiladu cysylltiadau agos ag ysgolion lleol i ennyn diddordeb rhieni ar unwaith, gan greu budd i'r gymuned leol trwy ysbrydoli mamau/tadau i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl i'w plant fynd i'r ysgol. Yn ddiweddar, mynychodd tair mam o Ysgol Fabanod Mochdre gynllun peilot 'Dychwelyd i'r Gwaith', gwnaethant gwblhau'r Rhaglen Bydd yn Barod ar gyfer y Byd Gwaith, gwirfoddoli a symud ymlaen at gael swyddi'n lleol.

Canlyniadau a chyflawniadau

Yn ystod 2018/19 mae Creu Menter wedi cwblhau:

clirio 497 eiddo gwag

adnewyddu 120 o ystafelloedd ymolchi a cheginau

clirio 68 o gerddi

paentio 177 eiddo

glanhau'n drwyadl 55 o weithiau

newid 235 o ffensys a llwybrau

newid 237 o foeleri

symud gwastraff 349 o weithiau

Yr hyn sy'n gwneud Creu Menter yn arbennig yw ein ffocws ar bobl - creu cyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth. Mae ein hyfforddeion yn gwella'u sgiliau trwy weithio a dysgu ochr yn ochr â chreffftwyr medrus ar gontractau masnachol.

Yn ystod 2018/19:

- Cyflogwyd 28 o denantiaid trwy'r Academi Gyflogaeth

- Aeth 93% o'r rhain ymlaen at gael eu cyflogi
- Defnyddiodd 1274 o bobl y cyfleuster galw heibio
- Ymwelodd 247 o bobl â'r caffi swyddi
- Sicrhodd 58 o bobl swyddi gyda chyflogwyr lleol
- Cwblhaodd 45 o wirfoddolwyr 3299 o oriau
- Enillwyd 50 o gymwysterau

Dyma nifer bach yn unig o'u storïau:

Bu Kennie yn ddi-waith am 5 mlynedd ac nid oedd yn gwybod ble i ddechrau wrth ddychwelyd i gyflogaeth. Fe ddechreuodd ar y rhaglen Bydd yn Barod ar gyfer y Byd Gwaith, a rodd hyder iddo ymgeisio am gyfleoedd cyflogaeth â thâl gyda Creu Menter. Mae Kennie bellach wedi dechrau ar y safle mewn un o'n datblygiadau newydd. Pan ofynnwyd iddo sut mae pethau wedi newid ers iddo ddechrau ar ei swydd newydd, dywedodd Kennie "Mae bywyd gennyf bellach!!"

Syniadau a dulliau newydd

Noddir gan **mi-space**

Mae'r wobwr hon yn cydnabod y cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a darparwyr tai eraill sy'n arloesi o ran datblygu dulliau newydd o gyflwyno gwasanaethau tai, neu brosiectau a mentrau a all ddangos defnyddiau arloesol o dechnoleg, neu brosiectau sydd wedi cynyddu mabwysiadu technoleg, gan leihau anghydraddoldeb neu allgau digidol. Bydd prosiectau ar y rhestr fer yn cynnig dull neu syniad creadigol a all ddangos canlyniadau gwell neu effeithlonrwydd cynyddol.

Rheoli Asedau o Bell - IoT (LoRaWAN / TTN)

Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf



Datganiad o gefnogaeth

Mae Tai Canolbarth Cymru yn peilota prosiect sy'n defnyddio technoleg Porth arloesol i yrru gwybodaeth ddefnyddiol ar dymheredd a lleithder ei gartrefi ar gyfnodau o 30 munud trwy ei Rhwydwaith Ardal Eang Pellter Hir (LoRaWAN) yn uniongyrchol i'w swyddfeydd yn Y Drenewydd.

Mae Porth y Gymdeithas yn gofrestredig ar Rwydwaith Y Pethau (TTN) - yr un cyntaf ym Mhowys.

Dechreuom archwilio i'r dechnoleg arloesol hon yn gyntaf ar ôl dysgu am ei llwyddiant yn Berlin.

Ar hyn o bryd rydym yn peilota'r system gyda synwryddion tymheredd a lleithder wedi'u gosod mewn nifer dewisedig o'n cartrefi ar draws Canolbarth Cymru. Ein nod tymor hir yw bydd y dechnoleg hon yn darparu gwybodaeth am nifer mawr o'n 1,700 o gartrefi'n uniongyrchol i'n swyddfeydd gan gynnwys boeleri, synwryddion mwg, carbon monocsid a gollyngiadau dŵr.

Bydd synhwyro diffygion yn gynnar, fel problemau gyda'r system wresogi neu risg o anwedd neu dân, yn arwain at wasanaeth gwell ar gyfer ein tenantiaid gan y gallwn ymyrryd yn gynharach i atal y broblem rhag gwaethygu. Bydd yn gostwng cost gwaith atgyweirio hefyd trwy ddileu'r angen am ymweld yn rheolaidd â'r eiddo i ddiagnosisio diffygion posib. Bydd ein tenantiaid oedrannus ac agored i niwed yn elwa o dawelwch meddwl wrth wybod bod eu cartref yn cael ei fonitro'n rheolaidd a bod eu synwryddion mwg yn gweithio'n gywir.

Bu i ni osod un o'r Porth LoRaWAN cyntaf erioed yng Nghanolbarth Cymru.

Hyd yma mae ein prosiect peilot wedi galluogi ni i synhwyro:

- O bell bod tenantiaid wedi gadael eiddo
- Problemau gydag anwedd
- Gwresogi aneffeithlon
- O bosib achubwyd dyn oedrannus rhag hypothermia (sbardunodd y tymheredd isel rybuddion y dylai staff wneud ymweliad).

Mae ein prosiect yn cofleidio'r dechnoleg ddiweddaraf i dderbyn data byw o'n cartrefi. Mae arbedion enfawr yn bosib a cheir y potensial i achub bywydau. Mae pob Porth yn cefnogi hyd at 65,000 o synwryddion, gyda chwmpas o 12 milltir. Maent yn rhad (Un Porth £400, Synhwyrydd £45).

Mae miloedd o fathau gwahanol o synwryddion ar y farchnad gan gynnwys carbon monocsid, tymheredd, larymau lleithder a mwg felly mae'r potensial yn anhygoel.

Canlyniadau a chyflawniadau

Yn ystod gaeaf 2018 bu i ni adnabod dyn oedrannus yn byw ar ei ben ei hun yr oedd ei dymheredd yn frawychus o isel. Arweiniodd hyn at ymyrraeth gynnar gan swyddog tai. Roedd y dyn wedi bod yn pryderu am gost gwresogi felly rhoddwyd cyngor iddo ar ddod o hyd i arian ar gyfer costau gwresogi. Roedd ganddo gyflwr meddygol a wellodd pan wresogwyd y tŷ i lefelau arferol.

Fe ddechreuom gyda phrosiect peilot LoRaWAN bach yn 2018. Yn gyflym iawn daeth potensial Rhynggrwyd y Pethau (IoT) ar gyfer rheoli portffolio eiddo o ddydd i ddydd yn amlwg i ni.

- Adnabod y rhai sy'n unig o fewn y gymuned. Gallwn gysylltu pobl â gwasanaethau hanfodol hefyd, hyd yn oed pan fyddant mewn lleoliadau anghysbell heb

gysylltiad â'r rhynggrwyd.

- Adnabod arbedion cost potensial a darparu gwasanaeth gwell gan y gallwn adnabod problemau cyn ac wrth iddynt ddigwydd. Atal problemau bychain rhag mynd yn broblemau mawrion a chostus.

Yr heriau i ni eu goresgyn yw addysg mewn arferion gweithio newydd. Mae hyn yn golygu gadael i'r dechnoleg ffocysu cymhwysiad adnoddau, a pheidio â neilltuo adnoddau'n seiliedig ar farn oddrychol.

Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yw darparu gwasanaeth LoRaWAN llawn ar draws ein hardaloedd i gyd. A fydd yn galluogi mynediad cyhoeddus ar gyfer busnesau lleol hefyd.

Residents at the heart

Newport City Homes



Datganiad o gefnogaeth

Rhoi trigolion wrth wraidd yr hyn a wnânt yw conglaen Gweledigaeth 2020 NCH - strategaeth pum mlynedd i drawsnewid y gymdeithas a'r gefnogaeth y mae'n ei darparu i fwy na 10,000 o drigolion ar draws Casnewydd.

Dechreuodd NCH ar y daith i wella'u cynnig gwasanaeth cwsmeriaid i drigolion yn sylweddol ym mis Mai 2017, yn sgil ymchwil a ddatgelodd:

- Nad oedd safonau gwasanaeth cyfredol NCH wedi'u hadnabod ar draws y gymdeithas ac nad oedd trigolion yn hollol ymwybodol o beth oedd y rhain.
- Dangosodd adborth ar y wefan fod gwefan NCH yn ddyddiedig, yn anniben ac yn anodd ei llywio gan olygu na allai trigolion ddod o hyd i'r hyn yr oedd ei angen arnynt.
- Roedd data boddhad NCH yn ddyddiedig ac yn seiliedig ar arolwg Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd

dwy flynedd yn gynharach

- Bu'n anodd i drigolion ddod i brif swyddfa NCH, yn aml bu'n rhaid mynd ar ddau daith fws neu gerdded pellteroedd sylweddol i fedru siarad wyneb yn wyneb ag aelod staff

Recriwtiwyd trigolion-wirfoddolwyr o oedrannau amrywiol (23 i 76 oed) o bob rhan o Gasnewydd gan gynnwys trigolion â phroblemau symudedd a namau ar y golwg, gan sicrhau y gellir ystyried amrywiaeth o brofiadau ac y byddai cynnig newydd NCH yn darparu gwerth i'r holl drigolion.

Mae'r gwaith hwn wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y berthynas rhwng NCH a'u trigolion.

- Cydweithiodd grŵp trigolion penodedig gyda NCH i ddewis datblygwr gwe newydd a goruchwylio darpariaeth gwefan newydd sbon, gan gynnwys nodwedd sgwrsio dros y we i drigolion gysylltu â'r tîm gwasanaeth cwsmeriaid ar-lein a derbyn ymateb ar unwaith.
- Esblygodd y wefan hefyd i gynnwys porth trigolion ar-lein newydd, gan alluogi hunanwasanaeth a datrys ymholiadau cyflym 24/7 - gan olygu y gall staff dreulio amser yn datrys ymholiadau mwy cymhleth.
- Daeth trigolion ynghyd ag uwch dîm rheoli NCH i ddatblygu set newydd o safonau gwasanaeth cwsmeriaid - gan ymgymryd â gwaith dwys o fapio'r daith gwsmeriaid, archwilio gwasanaethau cyfredol NCH a datblygu dull newydd sbon. Derbyniodd holl aelodau staff NCH hyfforddiant wyneb yn wyneb ar y dull newydd.

Cyflwyno Rob-Bot

Yn gynharach eleni, NCH oedd y gymdeithas tai gyntaf i lansio cynorthwy-ydd wedi'i awtomeiddio, 'Rob', sy'n seiliedig ar dechnoleg bot sgwrsio ac a grëwyd gan

dîm gwasanaethau digidol a phrofiad cwsmeriaid NCH, wrth ymateb yn uniongyrchol i adborth gan drigolion a ofynnodd am fwy o wasanaethau ar-lein.

Mae'r dull hwn wedi'i gydnabod fel arfer gorau'r diwydiant, ac yn ddiweddar rhoddodd y tîm dan sylw gyflwyniad i gynhadledd Tech@Housing 2019 i rannu eu profiad.

@195

Agorodd NCH swyddfa newydd sbon, @195, yng Nghanol Dinas Casnewydd hefyd - sy'n ymroddedig i wasanaethu trigolion ac y gellir ei gyrraedd yn hwylus ar gludiant cyhoeddus.

Mae'r holl wasanaethau 'Pwynt Cyswllt Cyntaf' (PCC) bellach yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol yn swyddfa @195 - gyda chyflwyniad gwasanaethau wyneb yn wyneb trwy @195 yn gwella safonau gwasanaethau y mae NCH yn eu cyflwyno ar draws ei holl sianelau.

Mae'r lleoliad newydd yn hygyrch i drigolion sydd ag anghenion ychwanegol ac yn creu amgylchedd mwy cyfeillgar a chroesawgar i gefnogi trigolion. Mae NCH wedi gwneud datganiad cyhoeddus o'u hymrwymiaidau i ennyn diddordeb trigolion, safonau gwasanaeth ac egwyddorion ar waliau'r swyddfa i bawb eu gweld.

Mae trigolion yn rhan o'r 'DNA'

Mae strategaeth ennyn diddordeb newydd yn sicrhau bod cysylltiadau â thrigolion wedi'u hymwreiddio ar lefel strategol, corfforaethol a gweithredol, fel bod trigolion wedi'u hymwreiddio o fewn 'DNA' cynhenid y sefydliad. Mae Partneriaeth Craffu newydd y trigolion yn dal uwch reolwyr yn atebol am gyflwyno camau gweithredu gwella gwasanaethau a gyda lle parhaol ar y Pwyllgor Archwilio a Risg rhoddir sicrwydd i'r bwrdd bod cynlluniau NCH wedi'u halinio i ddiwallu anghenion ei drigolion.

Canlyniadau a chyflawniadau

Yn sgil cyflwyno'r cynnig gwasanaeth cwsmeriaid newydd, mae amserau aros ar alwadau wedi gostwng yn aruthrol - o 9:21 yng ngwanwyn 2018 i 1:29 erbyn gwanwyn 2019 gyda chyfraddau rhoi'r gorau i alwadau'n gostwng o 11.5% i 1% dros yr un cyfnod.

Gwireddwyd buddion gwerth am arian pendant eraill:

- Mae ffocws ar gael pethau'n iawn y tro cyntaf wedi gweld nifer y galwadau'n gostwng 20%.
- Mae ymweliadau wyneb yn wyneb @195 47.35% yn uwch, gan ddangos rhwyddineb cyrraedd y lleoliad newydd yng nghanol y ddinas
- Mae dull digidol yn gyntaf wedi symud mynediad i wasanaethau trafodaethol ar-lein, mae 30% o drigolion wedi cofrestru ar gyfer gwasanaethau ar-lein a chynhaliwyd 3,136 o sgysiau dros y we.

Ers agor y lleoliad newydd, @195, yng nghanol y ddinas, mae'r adborth gan drigolion wedi bod yn hynod gadarnhaol:

- "Lleoliad perffaith, mae'n hawdd i mi wneud y siopa ar yr un pryd"
- "Lleoliad gwell, haws ei gyrraedd... hwylus parcio'r car"
- "Mae'r swyddfa hon lawer gwell. Llauer llai o gerdded i mi. Dywedais wrthynt yn Nexus ac fe dalon nhw sylw..."
- "Pencadlys cyfoes newydd anhygoel...Mae'r ddinas ei hun yn dal i fyny o hyd"
- "Rwy'n credu bod hyn yn syniad da iawn, dylech chi fod wedi gwneud hwn flynyddoedd yn ôl"

United Welsh ac Alertacall - Gwella rheolaeth ar dai gyda chyswllt cynyddol

United Welsh



Datganiad o gefnogaeth

Yr her:

Roedd cymdeithas tai United Welsh yn ne Cymru'n chwilio am ateb cost-effeithiol i newid systemau gwifredig hen ffasiwn yn eu cynlluniau lloches pobl hŷn. Adlewyrchodd nifer gostyngol y galwadau y tu allan i oriau i ganolfan monitro o bell y symudiad i broffil oedran iau (55+ oed) nad oeddent naill ai eisiau neu ddymuno ymwneud â'r dyfeisiau hyn. At hynny, roedd llawer o denantiaid hefyd yn dewis peidio â derbyn galwadau bore traddodiadol staff ar y safle - a wnaed ar amserau penodol ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig, ac felly heb gynnig llawer o hyblygrwydd.

Ar yr un pryd â cheisio creu effeithlonrwydd, roedd United Welsh hefyd eisiau gwella sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno trwy gyfathrebu'n fwy effeithlon â thenantiaid a hybu byw'n annibynnol trwy alluogi unigolion i reoli eu tenantiaethau'n well.

Ymdrin ag angen:

Ar ôl gwerthuso nifer o opsiynau gwahanol dewisodd United Welsh ddatrysiaid a gynigir gan Alertacall. Mae Alertacall yn credu, trwy gynyddu cysylltiad â phobl mewn ffordd strwythuredig sy'n eu grymuso ac yn rhoi rheolaeth iddynt, y gallwch ddeall eu hanghenion newidiol yn well, gwneud penderfyniadau gwell a gwella'u bywydau. Mae hyn mewn cyferbyniad i lawer o sefydliadau sy'n ceisio defnyddio technoleg yn lle cyswllt dynol, rhywbeth sy'n debygol o gynyddu unigedd cymdeithasol.

Mae Housing Proactive, system rheoli tai'r cwmni, yn cynyddu cysylltiad rhwng darparwyr tai a'u cwsmeriaid sydd ag anghenion dwysach. Cyflwynwyd y gwasanaeth yn gyntaf gan United Welsh ym mis Medi 2017 (y cyntaf i wneud yng Nghymru) i 204 o gartrefi yn y lle cyntaf gan ddilyn cyfnod ymgynghori â thenantiaid a bleidleisiodd bron yn unfrydol dros gyflwyno'r gwasanaeth. Bydd y gwasanaeth yn cael ei

gyflwyno i 200+ o gartrefi pellach ym mis Medi 2019.

Mae'r gwasanaeth yn cyfuno technoleg arloesol a thîm â hyfforddwyd yn gynhwysfawr - mae holl aelodau'r tîm yn derbyn hyfforddiant arbenigol ar gyfathrebu â grwpiau anghenion dwysach gan gynnwys ymwybyddiaeth o oedolion sy'n agored i niwed, iechyd meddwl, dementia a hunanladdiad.

Mae'r tenantiaid yn ymwneud fel mater o drefn ag ystod o ddyfeisiau a ddatblygwyd yn benodol gan Alertacall, gan gynnwys ffonau, hybiau symudol a sgriniau cyffwrdd (gan alluogi cynhwysiad digidol gwell. Mae gan yr holl ddyfeisiau fotwm OKEachDay - technoleg a arloeswyd gan Alertacall - y mae tenantiaid yn ei wasgu i gywain newyddion a gwybodaeth bwysig gan United Welsh mewn perthynas â'u cartref neu denantiaeth.

Mae cyfranogiad tenantiaid â'r dyfeisiau hyn yn cadarnhau yn rhagweithiol bod tenantiaid yn bresennol ac nad oes unrhyw atgyweiriadau neu broblemau pellach y mae angen eu hadrodd. Os bydd pobl yn dewis peidio â defnyddio eu dyfais, mae'r tîm Alertacall yn ffonio nhw - gan sicrhau y ceir dewis o siarad â rhywun bob dydd, a all yn ei dro helpu gostwng unigrwydd. Felly, mae'r gwasanaeth yn rhoi mwy o annibyniaeth i denantiaid trwy roi cyswllt iddynt ar amser sy'n addas ar eu cyfer ac ar y ffurf y maent ei heisiau.

Mae data am ryngweithio gyda'r gwasanaeth wedi'i gofnodi ac yn cael ei ddarparu mewn amser real trwy adrodd yn ddiogel ar-lein i staff United Welsh. Mae'r adroddiadau'n darparu trosolwg o'r cartrefi a ddefnyddir gan denantiaid anghenion dwysach, gan gynnwys tracio deiliaid.

Mae cyswllt bob dydd dros flynyddoedd lawer wedi darparu miliynau o bwyntiau data y mae Alertacall yn seilio ei Ddeallusrwydd Artiffisial ('AI') arnynt. Mae'r AI yn tracio sut mae cwsmeriaid yn rhyngweithio â'r gwasanaeth, a gall synhwyro sut y gallai anghenion tai unigolyn fod yn newid, fel yr angen am fwy o amser staff, mwy o dechnoleg gynorthwyol neu'r angen am lety gwahanol oherwydd dirywiad mewn symudedd neu allu gwybyddol. Mae'r adroddiadau a'r gwasanaeth yn cymryd tasgau sy'n feichus o ran amser i ffwrdd o'r tîm tai ac yn galluogi nhw i ffocysu eu hamser yn well.

Gwerth am arian:

Codir tâl wythnosol bach fesul eiddo ar gyfer Housing Proactive, ac nid oes unrhyw gostau sefydlu, cynnal a chadw neu gyfalaf. Mae Alertacall hefyd yn ymgymryd ag ymchwil boddhad cwsmeriaid am ddim.

Pan godir tâl gwasanaeth mewn tai lloches er mwyn adennill cost y gwasanaeth, mae'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol wedi pennu bod y tâl gwasanaeth yn gymwys i'w dalu o'r budd-dal tai.

Canlyniadau a chyflawniadau

Rhyngweithio cynyddol â thenantiaid (Gorffennaf 2018 - Mehefin 2019):

- 39,182 o wasgiadau botwm i gadarnhau bod popeth yn iawn mewn cartrefi tenantiaid
- 17,379 o alwadau i denantiaid
- 951 o alwadau i Alertacall gan denantiaid

Canlyniadau allweddol:

- Cyswllt bob dydd
- Arbedwyd o leiaf 218* o oriau o amser staff gan i Alertacall gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros alwadau yn y bore, gan roi hyblygrwydd gwell i denantiaid ar y lefelau a mathau o gyswllt a dderbyniwyd (ffigwr yn seiliedig ar isafswm hyd o 20 eiliad ar gyfer pob alwad - yr amser byrraf tybiedig ar gyfer galwad yn y bore)
- Gostwng unigedd cymdeithasol
- Negeseuon
- Cyfathrebu cyflymach a hwylusach wedi'i gyflwyno trwy negeseuon wedi'u hawtomeiddio ar adegau

sy'n addas i'r unigolyn - a'r gallu i anfon negeseuon torfol ar gyfer negeseuon am argyfyngau eiddo

- Botwm llinell boeth 'atgyweiriadau'
- Annibyniaeth gynyddol a gwell perfformiad wrth atgyweirio
- Adrodd i Reolwyr
- Mewnwelediad cynyddol i anghenion newidiol
- Cynllunio adnoddau'n well

"Mae Alertacall ac United Welsh wedi datblygu partneriaeth wych dros y 2 flynedd ddiwethaf. Gallai'r staff a thenantiaid fel ei gilydd weld manteision Housing Proactive yn gyflym. Mae'r adrodd ar-lein yn darparu mewnwelediad rhagorol ac yn gyffredinol mae'r gwasanaeth wedi galluogi staff i ganolbwyntio eu hymdrechion ar gefnogi'r tenantiaid hynny sydd â'r anghenion dwysach ac wrth gyflwyno gwasanaeth rheoli cartrefi mwy effeithlon. Mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd i gwsmeriaid a staff, a byddwn yn ei argymhell yn fawr."

Andrew Burns, Arweinydd Tîm

Cynlluniau talu hyblyg i bawb

Tai Wales & West



Datganiad o gefnogaeth

Mae gan Tai Wales & West ddull newydd ac arloesol o reoli rhent ac ôl-ddyledion trwy gyflwyno cynlluniau talu a bersonolir, wedi'u teilwra'n unigol ar gyfer pob un o'r drigolion i'w helpu rheoli eu cyllid yn fwy effeithiol.

Gan gydnabod yr oedd ôl-ddyledion yn cynyddu'n araf, cyflwynodd Tai Wales & West system ragweithiol, gan newid y ffordd y mae'n cofnodi ac yn rhagfynegi ei daliadau rhent. Mae hyn wedi'i wneud yn haws i Swyddogion Tai ymyrryd yn gyflym pan na glywir wrth gynlluniau talu.

Yr ateb a ddatblygwyd gyda thrigolion a staff yw cynllun taliadau wedi'i deilwra ar gyfer pob trigolyn sy'n manylu'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei dalu, pryd a sut. Mae'r cynllun yn hyblyg dros ben, gan alluogi taliadau ar unrhyw ddydd ac unrhyw amser er mwyn gweddu i amgylchiadau personol pob trigolyn.

Sefydli'r cynlluniau'n seiliedig ar y dull a dyddiadau talu a ffafri'r gan y trigolyn. Er enghraifft, gall trigolyn drefnu Debydau Uniongyrchol lluosog sydd wedi'u teilwra i'w hamgylchiadau. I rai, efallai y bydd yn addas iddynt gael un Debyd Uniongyrchol ar gyfer dechrau'r mis, ac un arall yn nghanol y mis. Mae rhai cynlluniau wedi'u trefnu o gwmpas taliadau Budd-dal Tai, a gall eraill y mae'n well ganddynt dalu gyda chardiau cyffwrdd, ar-lein neu dros y ffôn ar ddyddiau penodol drefnu i hyn gael ei gynnwys yn eu cynlluniau wedi'u personoli.

Mae unrhyw gyfuniad o ddulliau talu'n bosib am symiau y gall y trigolyn eu fforddio. Gall trigolion addasu'r cynllun talu trwy wneud un alwad i'w Swyddog Tai hefyd. Mae'r cynlluniau hyd yn oed yn ystyried oedi i Fudd-dal Tai, Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill a newidiadau mewn cyflog, felly ni chaiff trigolion eu hela am daliad pan wyddwn na fydd yr arian ar gael gan nad oes gan y trigolyn unrhyw reolaeth dros y sefyllfa.

Mae rhagamcanion wythnosol yn dangos pa daliadau a ddisgwyllir a phan fydd trigolyn yn gwyro o'r cynllun fe gaiff ei amlygu i'r Swyddogion Tai, gan alluogi nhw i gysylltu â'r trigolyn a cheisio atal ôl-ddyledion rhag

cronni. Mae hyn yn golygu mai dim ond trigolion y mae angen cymorth arnynt i gadw at y cynllun sy'n derbyn cyswllt a gall staff Tai ganolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen, megis cyngor ar ddyledion neu arian, rheoli cyllideb neu gyflogaeth i gadw at y cynllun.

Gyda dull rhent ac ôl-ddyledion mor arloesol, roedd angen set o offer sydd yr un mor hyblyg. O adeg y cynllun peilot cyntaf ym mis Ionawr 2019, crëwyd system feddalwedd integredig newydd gyda staff rheng flaen i'w helpu rheoli rhent a thenantiaethau.

Gweithiodd y Tim Gwella Busnes o ddadansoddwyr a datblygwyr TG ochr yn ochr â Swyddogion Tai i greu datrysiad meddalwedd wedi'i deilwra i'w hanghenion ni waeth p'un ai yn y swyddfa neu mewn cartref trigolyn. Ar sail yr wybodaeth hon, cysylltodd y tim â'r partneriaid TG, Redkite, i ddylunio system feddalwedd wedi'i theilwra seiliedig ar Microsoft Dynamics 365 ac addasu ap Resco i weithio ar ddyfeisiau symudol a chysoni data ni waeth p'un a ddefnyddir cysylltiadau Wi-Fi ai beidio. O ganlyniad i hyn ceir datrysiad

symudol llawn sy'n gweithio ar lechi, cyfrifiaduron neu ffonau gan alluogi nhw i weld a diwygio cynlluniau ni waeth p'un a oes signal neu gysylltiad Wi-Fi ai beidio.

"Mae wedi gwneud fy nhasg gymaint yn haws. Erbyn hyn mae gan fy nhrigolion i gyd gynlluniau talu ac rwy'n derbyn adroddiad bob wythnos yn dangos pwy sydd wedi cadw at eu taliadau cytunedig. Mae'r adroddiad yn dangos pwy sydd wedi colli taliad hefyd a ble mae angen i mi ffocysu fy amser. Os cafwyd newid mewn amgylchiadau, mae'r system newydd yn caniatáu i mi weld manylion cyfrif trigolyn wrth wasgu botwm a'u diwygio pan fyddaf gyda nhw."

Glesni Hesford-Evans, swyddog tai a leolir yng Nghastell Newydd Emlyn.

Canlyniadau a chyflawniadau

Canlyniadau

- Cynlluniau talu hyblyg a bersonolir ar gyfer rhent ac ôl-ddyledion dros 12,000 o drigolion
- Cynllun adennill ôl-ddyledion a bersonolir, yn seiliedig ar amgylchiadau
- Gostyngiad yn nifer y tenantiaid a drowyd allan am fethu â thalu, o 32 deng mlynedd yn ôl i 12 y llynedd ac 8 hyd yma yn 2019.
- Ar hyn o bryd mae 7 o bob 10 o drigolion yn dilyn eu cynlluniau talu (ffynhonnell diwedd Mehefin 2019 gan ddilyn 5 wythnos o fonitro),
- Lefelau boddhad uchel ymysg trigolion, gan gyflawni 9.4 allan o 10.
- Cefnogaeth gynyddol wrth reoli arian, dyledion a chyllidebau
- Newid mewn ffocws i helpu pobl i reoli eu harian ac aros allan o ddyled - gan gynnal tenantiaethau trwy newid y ffordd o feddwl
- Trigolion a all fforddio a chynnal eu rhent

- Cynnydd 10 y cant yn nifer y tenantiaid sy'n dewis talu trwy Ddebyd Uniongyrchol gyda 5,200 o daliadau Debyd Uniongyrchol bob mis.

Cyflawniadau

Mae'r system newydd wedi:

- Dylunio awtomeiddio cynyddol o gwmpas prosesau craidd Debydau Uniongyrchol, Budd-dal Tai a Chredyd Cynhwysol.
- Rhoi'r gallu i Swyddogion Tai weithio o bell, cofnodi cyfathrebiadau â thrigolion yn y maes a medru cyrchu gwybodaeth am y denantiaeth wrth gyfarfod trigolion.
- Creu offer gwell i helpu swyddogion i wybod pan allai cyfrif rhent fynd yn broblem, yn gyflym ac mewn fformat sy'n hawdd ei ddeall.
- Dylunio system rent all ymdopi'n gyflym â newidiadau i'r system fudd-daliadau.

Gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai

Noddir gan **CENTRAL**
CONSULTANCY AND TRAINING

Mae'r wobwr hon yn cydnabod gwaith cymdeithasau tai, awdurdodau lleol, neu unrhyw sefydliad yn y sector tai, i gynyddu amrywiaeth a chydaddoldeb. Bydd sefydliadau ar y rhestr fer wedi datblygu mesurau cydraddoldeb ac/neu amrywiaeth rhagorol, a byddant wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus.

All out for Scrutiny

Linc Cymru



Datganiad o gefnogaeth

Canlyniadau Cadarnhaol ar gyfer grwpiau penodol a fu wedi'u heithrio neu eu tangynrychioli'n flaenorol, neu sydd angen cefnogaeth ychwanegol

Yn 2018 bu i ni adolygu ein dull craffu.

Y materion dan sylw

- Roedd y grŵp Craffu blaenorol yn cynnwys 7 o bobl ond wedi mynd ar gyfeiliorn braidd
- Roedd y model a fu'n seiliedig ar hyfforddiant, cyflwyniadau, profi, datblygu argymhellion a chyflwyno'r rhain yn mynd yn lletchwith
- Bu'n broses hir a ofynnodd am sgiliau cynhwysfawr ac ymrwymiad ein tenantiaid.

Er iddi weithio, bu'n 'anghynhwysol' ac roedd yr amser yn dda am newid.

Fe gytunom i agor y broses i fyny, denu'r rhai nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan, cynnwys ysgogiad ariannol, mynd â chraffu i amgylchedd newydd a

galluogi iddo ddigwydd ymhen llai na 2 ddiwrnod. Fe gytunom hefyd i ddefnyddio dull seiliedig ar risg a gyda'n gilydd fe wnaethom ymchwil i'r ffordd orau o hwyluso'r broses. Roedd ein dull newydd yn ymwneud â

- chynnwys tenantiaid wrth osod y sylfaen ar gyfer craffu yn y dyfodol
- dull wedi'i deilwra i alluogi 'unrhyw' denant i gymryd rhan
- comisiynu TPAS i'n cefnogi i ddatblygu craffu newydd ar ffurf sesiynau dwys.
- cydweithio ar draws timau i sicrhau ymrwymiad eang staff
- ymchwilio i dechnegau sy'n ennyn diddordeb

Daethom ynghyd â thenantiaid i rannu syniadau ac fe ymwelom ag arddangosfeydd rhyngweithiol i weld sut mae eraill yn ennyn diddordeb y cyhoedd. Fe gytunom fod creu amgylchedd hwyliog, difyr a hygyrch i bawb yn allweddol i alluogi ein tenantiaid i ffynnu. Bu i ni

- egluro y byddai cefnogaeth ar gael ar gyfer y rhai yr oedd arnynt ei hangen
- creu ffilm wedi'i hanimeiddio fer yn seiliedig ar aelodau tim go iawn
- defnyddio lluniau a ffilmiau a phropiau, ac actio sefyllfaoedd i esbonio gwybodaeth ysgrifenedig
- gwahodd y rhai yr ydym yn cwrdd â nhw o ddydd i ddydd, y rhai sydd ag anghenion gwahanol a'r rhai sy'n byw mewn sefyllfaoedd gwahanol
- defnyddio ein data a mewnwleidiad i dargedu'n effeithiol
- chwarae gemau a chwisiau a defnyddio cerddoriaeth i greu awyrgylch cyffrous
- gwobrwyo pobl am eu hamser

- hurio lleoliadau prydferth
- ymgorffori llawer o waith grŵp ac unigol gan alluogi i graffu go iawn ddigwydd

Bu i'r targedu weithio a newidiodd ddeinamig y sesiynau. Yn ogystal ag edrych yn wahanol iawn yn weledol, fe ddaeth ein tenantiaid o gymunedau gwahanol iawn, roedd gan rai eraill anghenion cefnogaeth yr oeddent hwy eu hunain wedi'u hadnabod, roedd rhai yn fwy academaidd a rhai eraill ddim. Dyma'r tenantiaid yr oeddem yn falch o fod wedi'u cyrraedd.

DYFYNIADAU:

"dyma ein tenantiaid ni - maen nhw'n dod mewn pob math a maint" Swyddogion Tai

Rwy'n credu y bydd yn wych i Mr A ddod...nid un o'r rhai arferol mohono ac rwy'n credu efallai y bydd yn anodd iddo - mae'n mynd i roi cynnig arni!

Rwy'n defnyddio'r holl (wybodaeth hon o'r sesiwn) yn ein hadolygiad. Rheolwr Diogelwch Cymunedol

Roedd yn braf gweld Mrs B yn y sesiwn. (rhannodd hi fod ganddi anabledd dysgu) Roedd ganddi ei holl nodiadau o'r sesiwn flaenorol - popeth wedi'i ffeilio, popeth yn barod. Cymerodd hi ran yn llawn ac fe dreuliodd hi'r noson gynt yn paratoi ar gyfer y sesiwn yr oedd hi'n dod iddi y diwrnod nesaf!

Roedd yn wych sut yr helpodd Mrs C Mr D. Roedd hi'n deall sut beth oedd ei chael hi'n anodd ysgrifennu'n dda. Tenant

Y peth gwych oedd i ni i gyd gyfnewid rhifau ffôn. Rydw i eisiau cefnogi'r fenyw honno... Dw i wedi'i rhoi hi mewn cyswllt â Thenant....

Aelod Bwrdd - Gwnaeth eich cyflwyniad argraff fawr arnaf - mae'n greadigol ac wedi'i gyflwyno mor dda, a dydy hynny ddim yn hawdd o flaen grŵp o bobl nad ydych yn eu hadnabod.

Canlyniadau a chyflawniadau

- Mae gennym lasbrint 'craffu' yr ydym yn barod iawn i'w rannu
- mae presenoldeb bob amser yn dda - 13-20 ym mhob sesiwn
- mae'r grwpiau newydd a gynrychiolir yn cynnwys pobl sydd ag anghenion cefnogaeth, lefelau llythrennedd isel, problemau cymdeithasol/caethineb, iaith neu leoliad daearyddol ac anabledau dysgu
- mae'r sesiynau'n fyrrach a'r pynciau'n ehangach
- ceir cymryd rhan yn null caffi
- mwy o adnoddau - (£5,000)
- cytunwyd ar dros 30 o argymhellion ac fe'u craffwyd trwy Borth y Bwrdd
- cofnodwyd mwy o adborth
- caiff gwybodaeth ei bwydo'n ôl i denantiaid a'i bwydo i mewn i gynlluniau gwella
- mae tenantiaid yn cael cefnogaeth 1:1 pan fydd ei hangen
- gweithredir ar ganlyniadau ac fe'u disgrifir yn y cynllun gweithredu
- cafwyd mewnwelediad - e.e.: mynegodd 3 thenant iddynt wynebu caledi wrth symud i mewn i'w heiddo. Mae hyn wedi peri newid i'r ffordd yr ydym yn hybu'r gronfa galedi i alluogi dechrau gwell.
- mae 2 denant a fu'n byw heb hanfodion bywyd fel gwely er gwaetha'r ffaith eu bod yn dwlu ar eu cartrefi bellach wedi derbyn y cymorth yr oedd arnynt ei angen. Mae gwell cefnogaeth wrth symud i mewn bellach yn cael ei datblygu
- mae tenantiaid wedi gwneud ffrindiau newydd a dychwelyd i graffu meysydd gwasanaeth eraill neu gymryd rhan mewn ffyrdd eraill
- cynhelir adolygu a dysgu h.y.: rydym wedi lleihau'r ffocws ar bori trwy wybodaeth ac ystadegau a chyflwyno dulliau mwy difyr a chyfranogol trwy gemau, cwisiau, chwarae rôl, ffilmiau etc. Rydym yn cynnwys mwy o wybodaeth ar ffurf lluniau a gwybodaeth darllen hawdd fel mater o drefn
- mabwysiadwyd dull craffu seiliedig ar risg.
- caiff gwybodaeth allweddol ei thorri i lawr, dangosir fideos byrion (h.y. ffilm ACEs, ymgyrch Byw Heb Ofn etc)

Adeiladu cymunedau mwy diogel

Mae'r wobwr hon yn cydnabod prosiectau sy'n gweithio i adeiladu cymunedau mwy diogel, trwy ymdrin â phroblemau penodol a chefnogi pobl sydd wedi profi'r problemau hynny. Gall prosiectau fod wedi eu cychwyn gan unrhyw sefydliad, ond mae'n rhaid iddynt gynnwys elfen sydd wedi'i harwain gan y maes tai. Mae partneriaethau rhwng awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a phartneriaethau/gwasanaethau perthnasol nad ydynt yn rhan o'r sector yn gymwys hefyd. Mae prosiectau ar y rhestr fer wedi medru dangos canlyniadau go iawn o ganlyniad uniongyrchol i'r camau a gymerwyd.

Tai Tarian a'r Heddlu 'Better Together'

Tai Tarian



Datganiad o gefnogaeth

Tai Tarian yw un o'r landlordiaid cymdeithasol mwyaf yng Nghymru ac mae'n gyfrifol am dros 9,000 o gartrefi ar draws Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae Tai Tarian yn ymroddedig i ddarparu cartrefi o safon ac amrywiaeth o wasanaethau i helpu pobl i reoli eu cartrefi. Fel cwmni tai cymunedol cydfuddiannol, y nod yw gweithio'n barhaus i ddeall anghenion tenantiaid ac aelodau i gyflwyno gwasanaethau'n seiliedig ar beth sy'n bwysig.

Mae cysylltiad anorfod rhwng y weledigaeth 'Gwneud Gwahaniaeth' a'r genhadaeth dros gartrefi gwych a chymunedau gwych. O fewn y fframwaith hwn, nod y prosiect newydd a ddyluniwyd ar y cyd, 'Better Together', yw mynd i'r afael ar y cyd â rhai o'r materion sy'n effeithio ar gymunedau heddiw er mwyn gwella diogelwch a diogeledd trigolion a chreu ymdeimlad o falchder a pherthyn o fewn cymunedau.

Roedd Tai Tarian yn gallu dangos i'r Heddlu faint y mae staff, tenantiaid a phartneriaid eisoes wedi elwa o fuddsoddi mewn cyd-ddylunio gwasanaethau a mentrau eraill.

Tystlythyr gan Bonnie Navarra, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Cynorthwyol: Mae'r dull newydd hwn a ddatblygwyd gan Tai Tarian a Heddlu De Cymru wedi mynd â gwaith partneriaeth at y lefel nesaf, gan greu buddion gwell ar gyfer ein cymunedau, cymdeithasau tai a'r Heddlu. Er enghraifft, trwy ddod â heddweision allan o orsafoedd ac i mewn i hybiau aml-asiantaeth, a sefydlir mewn eiddo gwag neu adeiladau cymunedol, gallwn weithio'n 'Well Gyda'n Gilydd' o ddifri. Bydd yr holl opsiynau yn y pecyn cymorth yn cynyddu'r adnodd sydd gennym i adnabod materion a galluogi ni i ymateb yn fwy effeithiol. Gallai GDPR fod yn rhwystr i waith aml-asiantaeth ond mae llwyddiant cynnar y gwaith hwn yn dystiolaeth o hyfywedd y fenter hon.

Wrth gychwyn ar y gwaith o gyd-ddylunio 'Better Together' daeth dros 90 o staff rheng flaen ac uwch ynghyd o'r ddau sefydliad mewn gweithdy ar 19 Medi 2018. Er y ceir llawer o orgyffwrdd yn y gwaith a gyflawnir gan y sefydliadau, cytunwyd mai'r ffordd orau o gyflawni'r nod yw cydweithio'n agosach, adeiladu diwylliant o gyd-gefnogaeth a chyd-ddealltwriaeth. Ond ni ellir gwneud hynny trwy gyfarwyddiadau o'r frig i lawr; roedd angen arbenigedd ac ymroddiad pawb er mwyn iddo ddigwydd.

Gan weithio gyda gwybodaeth a brwdfrydedd y staff ar lawr gwlad, cytunwyd i ddylunio ystod o fentrau a fydd yn helpu sefydlu diwylliant gwirioneddol gydweithredol a chyflwyno gwasanaeth i fod yn falch ohono. Dyma ddechrau'r fenter hir dymor ar gyfer:

- perthnasoedd mwy cryf
- dealltwriaeth well o rolau
- gwybodaeth gynyddol am arfer da
- capasiti cynyddol i weithio ar y cyd
- wyth cynllun gweithredu drafft

Ar ôl y sesiwn staff rheng flaen cynhaliwyd cyfarfod staff uwch ar 20 Medi 2018, y mai ei nodau allweddol oedd:

- cwblhau nifer o gynlluniau gweithredu â blaenoriaeth
- cytuno ar berchnogaeth, staffio ac adnoddau
- pennu'r dull gwerthuso cychwynnol
- gwneud gwell defnydd o arbenigedd a phrofiad staff
- gwneud yr hyn a wnawn - yn well

Adolygodd uwch swyddog y sesiwn yr 8 syniad a gyflwynwyd gan staff ac fe'i grwpwyd i 3 chlwstwr:

- Cerdded o gwmpas (patrolau ar y cyd o ddrws i ddrws)
- Swyddfa galw heibio (pencadlys gweithio ar y cyd cymunedol)
- Rhannu yw Gofalu (rhannu gwybodaeth a hyfforddiant ar y cyd)

Gyda'i gilydd mae'r ddau sefydliad yn peilota elfennau gwahanol y pecyn cymorth.

Mae 'Better Together' gyda'r Heddlu'n ffitio set fframwaith Tai Tarian o egwyddorion gwerth am arian o ran buddsoddi mewn cymunedau a gwelliannau gwasanaeth yn ogystal â dilyn egwyddorion gwybod a gwneud beth sy'n bwysig ar gyfer cwsmeriaid a staff sy'n ymrwymedig ac wedi'u grymuso.

Canlyniadau a chyflawniadau

Canlyniadau:

Cerdded o gwmpas:

Crëwyd cymunedau mwy diogel trwy adeiladu perthnasoedd o ffydd a chyd-fuddiant

Swyddfa galw heibio:

Cynnydd mewn hyder cyhoeddus; tenantiaethau gwella a llai o ddigartrefedd

Rhannu yw Gofalu:

Amserau ymateb gwell gyda gwybodaeth gymunedol a gallu datrys problemau gwell

Cyflawniadau:

- Mae Tai Tarian a'r Heddlu wedi adeiladu perthnasoedd agosach trwy gerdded o gwmpas y gymuned a thaclo delwyr cyffuriau 'cyffurffiniau' sy'n defnyddio cartrefi tenantiaid agored i niwed - 'cogio'.
- Rhoddwyd mynediad ar gyfer staff i gyfeiriadur yr Heddlu a dechreuwyd adnabod 'mannau poeth' o

ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Nododd Tai Tarian eiddo gwag mewn bloc o fflatiau lle ceir llawer o drafferth (Bush Row) i'w ddefnyddio fel swyddfa galw heibio.
- Yn ystod Operation Cristo (ymgyrch troseddau cyffuriau'r Heddlu) darparodd Tai Tarian gudd-wybodaeth trwy alwadau ffôn bob dydd.
- Amlygwyd y gwaith partneriaeth ar y rhaglen deledu Gymraeg Ein Byd am farwolaethau oherwydd cyffuriau yng Nghastell-nedd Port Talbot.

"Mae'r bartneriaeth yn helpu gwella canfyddiadau negyddol pobl am yr ardal" (Un o drigolion Bush Row).

"Rydym bob amser wedi cydweithio'n agos â phartneriaid fel Tai Tarian, ond mae'r dull newydd hwn wedi gwella'r cysylltiadau hynny yn wirioneddol ac wedi galluogi i'r holl asiantaethau gael eu hysbysu a'u cyfarparu'n well i ymateb i bryderon, drwgdybiaethau a chudd-wybodaeth." (Prif Arolygydd Matthew Lewis, Arweinydd Operation Cristo).

Tackling County Lines

United Welsh



Datganiad o gefnogaeth

Mae United Welsh yn gymdeithas tai yn Ne Cymru sy'n ymfalchïo mewn adeiladu cartrefi, creu cymunedau a thrawsnewid bywydau. Rhan ganolog hyn oll yw gwneud gwahaniaeth a sicrhau bod y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau'n cael eu diogelu.

Gan hynny, pan ddaeth yn amlwg bod problem Cyffurffiniau a chogio'n effeithio ar rai o'u cartrefi, bu i United Welsh brysur sefydlu ffordd o ddelio â'r broblem sydd bellach yn cael ei mabwysiadu gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill yn Ne Cymru.

Cyffurffiniau yw grwpiau neu gangiau sy'n defnyddio pobl ifanc neu oedolion agored i niwed i gludo a gwerthu cyffuriau o fwrdeistref i fwrdeistref ac ar draws ffiniau sirol. Mae hyn bron bob tro yn ymwneud â thrais, bygwth a chynnig arian neu gyffuriau. Yn aml mae'n ymwneud â chogio hefyd, sef pan fydd delwyr cyffuriau'n cymryd cartref drosodd i'w defnyddio fel canolbwynt delio cyffuriau.

Roedd gan Swyddog Cymdogaeth Canol Caerdydd United Welsh ddrwgdybiaethau bod ymddygiad o'r fath yn digwydd mewn rhai o'n cartrefi, gan beri bygythiad o niwed i rai o'n tenantiaid. Cynhaliwyd cyfres o ymchwiliadau gan ddefnyddio systemau CCTV a chudd-wybodaeth yr Heddlu ynghyd â gwybodaeth gan denantiaid.

Yr hyn a barodd bryder i United Welsh oedd y ffordd y gallai tenantiaethau gael eu herwgipto o ganlyniad i ddylanwadu ar bobl a bygwth trais

eithafol. Adnabuwyd yn gyflym lle roedd rhywfaint o'r dylanwadu'n dechrau a gellid gweld patrwm o'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu targedu mewn lleoedd fel meddygfeydd lleol, grwpiau hunangymorth a hyd yn oed ceginau cawl.

Yr hyn a ddaeth yn amlwg yn gyflym iawn hefyd, oherwydd mebyd Cyffurffiniau, oedd diffyg arferion gwaith i newid ymddygiad a herio ar wahân i ffonio'r Heddlu, ond yr hyn y bu gwir angen amdano oedd dull aml-asiantaeth i dacro'r broblem.

Sefydlodd United Welsh system rheoli tai ddwys yn yr ardal o Gaerdydd y tybiwyd yr oedd wedi'i heffeithio fwyaf. Mabwysiadwyd arfer gweithio o adrodd yn gyntaf i Heddlu De Cymru, datblygwyd perthnasoedd rhagweithiol a arweiniodd at ymweliad ar y cyd i wirio lles yr unigolion y tybiwyd eu bod mewn perygl oherwydd Cyffurffiniau a chogio.

Canolbwyntiodd yr ymweliadau hyn ar ddod o hyd i wybodaeth a gwneud addasiadau i eiddo, yn enwedig mewn ardaloedd cymunedol, i'w wneud yn anos i Gyffurffiniau weithredu o'r cyfeiriadau hyn.

Ond yr hyn yr oedd gwir angen amdano oedd dull o rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau gwahanol y gallent oll benderfynu beth i'w wneud er budd pennaf y sawl sy'n cael eu targedu gan y gangiau cyffuriau.

Tybiwyd mai'r ffurflen diogelu oedolyn rhyng-asiantaeth VA1 safonol oedd y ffordd orau ymlaen gyda'r holl asiantaethau'n defnyddio'r dull adrodd hwn. Wedyn gallai hyn gael ei drafod mewn cyfarfodydd rhagweithiol bob pythefnos a fynychir gan United Welsh, asiantaethau cefnogi penodol a'r Heddlu. Yn ogystal â thaclo cyflawnwyr y drosedd, deliodd y cyfarfodydd hyn â chefnogi'r dioddefwyr a dod o hyd i ffyrdd o'u helpu dianc rhag y perygl.

Ystyrir bod addysgu cymunedau am Gyffurffiniau'n agwedd bwysig arall ar y dull gan fod grymuso dioddefwyr a'r gymuned ehangach a siarad â nhw am yr hyn a allai fod yn digwydd wedi arwain at fwy o adroddiadau am ymddygiad drwgdybus ac ar ben hynny dealltwriaeth well o sut mae'r gangiau hyn yn gweithio.

O ganlyniad i'r gwaith, gofynnwyd i United Welsh ddatblygu pecyn cymorth a hyfforddiant i'w rhannu gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC) eraill er mwyn iddo fod yn haws i'r asiantaethau lluosog dan sylw weithio ar y cyd i dacro'r broblem a diogelu'r rhai a allai fod mewn perygl oherwydd Cyffurffiniau a chogio.

Canlyniadau a chyflawniadau

Ni fydd taclo Cyffurffiniau byth yn dasg hawdd ac mae natur y drosedd yn golygu y bydd angen i bob cymdeithas tai fod yn fythol wyliadwrus.

Er hynny, mae'r partneriaethau gwaith cryfion a dull aml-asiantaeth sydd wedi'u cychwyn a'u mabwysiadu gan United Welsh yn golygu bod yr holl bartneriaid mewn sefyllfa well i daclo'r broblem, a chafwyd rhai deilliannau clir iawn.

O ganlyniad i gydweithio agosach mae Heddlu De Cymru wedi gweithredu ail uned blismona ragweithiol yn yr ardal i ymateb i'r broblem.

Mae'r dull wedi ei fabwysiadu hefyd gan gymdeithasau tai eraill sy'n dangos teilyngdod clir edrych ar y mater

o sawl safbwynt; o safbwynt y drosedd sy'n cael ei chyflawni, y gefnogaeth a diogelu y mae eu hangen ar y rhai mwyaf agored i niwed sydd wedi cael eu herlid ac addysgu cymunedau i'w grymuso i adrodd a chydabod amgylcheddau niweidiol.

Yn y cyfamser, o'r 16 o gartrefi United Welsh y nodwyd yn gadarnhaol eu bod mewn perygl, dim ond un sy'n weddill ac mae'r dioddefwyr wedi cael eu symud i ffwrdd o'r ardal os nad oes unrhyw opsiwn arall ar gael, a hefyd rhoddwyd dros 50 mlynedd o ddedfrydau carchar.



Gweithio gyda sectorau eraill

Noddir gan



Mae'r wobwr hon yn cydnabod y prosiectau sydd angen ymrwymiad sefydliadau o'r tu allan i faes tai. Ymhlith yr enghreifftiau mae partneriaethau gyda sectorau megis iechyd, addysg a chyllid personol, ond fe ystyrir unrhyw brosiect sydd angen ymrwymiad â sefydliad y tu allan i faes tai.

Lliniaru effaith Credyd Cynhwysol

Adra (Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) gynt)



Datganiad o gefnogaeth

Cefndir

Credyd Cynhwysol (CC). Y ddau air a gododd deimlad o arswyd arnom wrth i ni glywed y byddai'r diwygiad lles mawr hwn yn mynd yn fyw yng Ngwynedd ym mis Rhagfyr 2018. Nid oedd unrhyw amheuaeth yn ein meddyliau bod angen i ni liniaru effaith y diwygiadau niweidiol hyn ar ein cwsmeriaid a'n cwmni. Nid oedd unrhyw amheuaeth ychwaith na allem wneud hwn ar ein pennau ein hunain.

Felly, creodd CCG bartneriaeth o'r enw Grŵp Tasg a Gorffen Diwygio Lles Gwynedd.

Roedd y partneriaid yn cynnwys Cyngor Gwynedd, yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) leol, Cyngor ar Bopeth, y bwrdd iechyd lleol a dwy gymdeithas tai arall.

Amcanion

Amcanion y grŵp oedd:

- gweithio ar y cyd i gefnogi pawb yr effeithiwyd arnynt gan y diwygiadau, yn y sectorau tai cymdeithasol a phreifat yng Ngwynedd, i bontio i CC

- datblygu cynllun gweithredu ar y cyd, i'w roi ar waith dros gyfnod o 18 mis.

Allbynnau allweddol a gyflwynwyd:

- mae'r ymgyrchoedd penodol a gyflwynwyd yn cynnwys ymgyrch credydau pensiwn.
- gweithredwyd arfer gorau o ardaloedd CC eraill gan sicrhau taith gwsmeriaid iefn
- sefydlu is-grŵp cyfathrebu a arweinir gan CCG

Canlyniadau

- Canolbwyntiodd yr holl bartneriaid tuag at yr un nod o negyddu effaith CC ar drigolion Gwynedd.
- Gwnaed Llywodraeth Cymru a Thai Cymunedol Cymru'n ymwybodol yn echblyg o effaith CC yng Ngwynedd.
- Defnyddiodd yr AS lleol ein gwaith fel astudiaeth achos i ddylanwadu ar Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn ag effeithiau CC
- Arbedwyd arian trwy gyflwyno ymgyrchoedd marchnata a digwyddiadau ar y cyd, ac un llwybr cyfeirio cwsmeriaid.
- Defnyddiwyd digwyddiadau proffil uchel i hybu cyfleoedd gwaith a chynhwysiad digidol ac ariannol.
- Cyrhaeddwyd cynulleidfaoedd newydd trwy rannu negeseuon cyson ar sianelau cyfathrebu pob partner. Roedd gan gylchlythyr Cyngor Gwynedd ar ei ben ei hun gylchrediad o 60k o gartrefi.

Cyflawni ein hamcanion

- Arweiniodd rhannu data o fewn y grŵp at hawliadau CC cyflymach ac adnabuwyd y gefnogaeth iawn ar yr amser iawn
- Gwnaed trefniadau newydd i leoli staff CCG mewn canolfannau swyddi, a mewn sefyllfa well i gydweithio â staff y cyngor. Golygodd hyn y cafodd hawliadau eu prosesu'n gyflymach.
- Sefydlwyd trefniadau newydd ar gyfer cyfeiriadau gan swyddogion iechyd a gweithwyr cymdeithasol.

- Prosesau cyfeirio o ran cyfeirio trigolion y mae angen cefnogaeth arnynt yn uniongyrchol i fanciau bwyd Gwynedd
- Hysbyswyd budd-ddeiliaid allweddol fel cynghorwyr lleol, AS ac AM am waith y grŵp a'r gefnogaeth sydd ar gael i'w hetholwyr.
- Cafwyd sylw gwerthfawr ar sianelau darlledu newyddion y BBC yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o effaith diwygio lles yn genedlaethol.
- Sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol yn gweithredu'n gyfrifol trwy osod cynnydd isel mewn rhent i negyddu effaith CC. Sefydlodd CCG gytundeb gyda CAB Gwynedd i gefnogi trigolion gyda chyllidebu. 300+ o atgyfeiriadau, talwyd £175K mewn budd-daliadau ychwanegol a dilëwyd gwerth £305k o ddyledion hyd yma.
- Darparwyd cefnogaeth gan raglen OPUS Cyngor Gwynedd a'n Strategaeth Gymunedol i gael trigolion i ddychwelyd i'r gwaith. Darparodd cynllun ar y cyd gan y cymdeithasau tai, Y Wardeiniaid Ynni,

gefnogaeth i ostwng biliau ynni

- Helpodd tenantiaid i baratoi ar gyfer CC trwy waith cynhwysiad digidol ac ariannol, fel agor cyfrifon banc a sefydlu cyfeiriadau e-bost
- Targedwyd cyflogwyr mawr, ysgolion a chlinigau gyda deunyddiau marchnata syml ac effeithiol a gynhyrwyd gennym. Defnyddiwyd y rhain gan yr holl bartneriaid i gyfleu'r negeseuon i'r rhai a allai fod wedi'u heffeithio
- Cynhaliwyd digwyddiadau hyfforddi ar y cyd er mwyn i aelodau staff allweddol gefnogi hawlwyr.

Tystlythyr

"Mae'r gwaith ar y cyd yng Ngwynedd a wnaed gan y sefydliadau hyn wedi gwneud argraff fawr arnaf. Er bod CC yn parhau i gael effaith andwyol ar lawer o bobl, mae agwedd ac ymrwymiad rhagweithiol y sefydliadau hyn i liniaru'r effaith ar drigolion Gwynedd yn galonogol."

Liz Saville Roberts, AS Dwyfor Meirionnydd

Canlyniadau a chyflawniadau

- Mae 2750 o drigolion Gwynedd wedi pontio'n llwyddiannus i CC.
- Lliniaru effaith ariannol CC ar CCG. Mae 12% o'n tenantiaid yn hawlio CC, ac mae ein hól-ddyledion wedi gostwng fel % o'r cyfanswm rhent a gesglir:

2018/19 2017/18

Cyfanswm rhent a gesglir £30m

Cyfanswm rhent a gesglir £28.6m

Ôl-ddyledion £614k Ôl-ddyledion £602k

Fel % 2.05% Fel % 2.11%

Mae hyn mewn cyferbyniad â phenawdau a thueddiadau cenedlaethol a adroddir gan

gymdeithasau tai eraill yn y Deyrnas Unedig, y maent wedi gweld eu dyledion yn codi. Ein nod yw creu tenantiaethau cynaliadwy ac rydym wedi llwyddo i gyflwyno hyn trwy weithio mewn partneriaeth.

- Tystlythyr trigolyn: "Pan ges i fy symud i CC, roedd Kate, y swyddog rhenti gyda CCG yn help anhygoel ac mae hi'n parhau i fod wrth law unrhyw bryd y mae angen cymorth neu gyngor arnaf. Cynigiwyd cwrs TG i mi trwy'r Ganolfan Byd Gwaith leol hefyd. Mae CC wedi bod yn llawer gwell i mi, rwy'n ei chael hi'n haws rheoli fy arian ac rwyf wedi sefydlu debyd uniongyrchol i dalu fy rhent."

Mr McCosh, tenant CCG yn Nolgellau

- Cyflwyniad llawn y cynllun gweithredu ar y cyd.

Hen Dŷ'r Ysgolfeistr, Llanrwst

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn



Datganiad o gefnogaeth

Daeth y bartneriaeth rhwng datblygiad Hen Dŷ'r Ysgolfeistr yn Llanrwst â chyfuniad anarferol o arbenigwyr tai, gwasanaethau hamdden, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau pobl hŷn, cadwraeth a threftadaeth, dylunio ac adeiladu technegol ynghyd â chynghorwyr tref a chymuned, cynrychiolwyr cymunedol ac arbenigwyr iechyd a llesiant. A hwythau'n cynrychioli meysydd arbenigedd gwahanol, rhannodd pawb yr un weledigaeth o greu datblygiad unigryw sy'n glynu wrth yr ethos o rymuso pobl o bob oedran i fyw yn dda.

Ar gyfer y prosiect hwn roedd angen gwaith partneriaeth cydweithredol agos i sicrhau bod y cyfleuster yn gweddu i anghenion yr ardal, cadw naws ddiledryw yr adeilad rhestredig gwreiddiol o'r 17eg ganrif a chydweddu â'r cyfleusterau eraill gerllaw (gan gynnwys meddygfa, swyddfeydd iechyd a'r cyfleuster gofal ychwanegol presennol). Bu reidrwydd i gydbwysu gofynion amrywiol anarferol y rhai sy'n defnyddio'r adeilad ar ôl ei gwblhau gan gynnwys y rhai ar draws y sir sy'n defnyddio'r gampfa a chyfleusterau cymunedol â rhai'r bobl sy'n byw yn y fflatiau gofal ychwanegol.

Trwy gydol y broses gyfan, o ddylunio i gyflwyno, roedd perthynas waith dda iawn yn amlwg gyda phob aelod o'r tîm partneriaeth amrywiol yn parchu'r rôl hanfodol a rannwyd gan bawb wrth gyflawni'r cyfleuster y mae angen mawr amdano.

Dyma rywfaint o'r adborth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

Yn ystod y tri mis cyntaf ar ôl agor 'Hwb Yr Hen Ysgol', roedd y cyfleuster hamdden iechyd a llesiant gwledig wedi...

- Denu 87 o aelodau newydd.
- Gweld 4,000 o ymweliadau â'r Hwb, gan gymryd rhan mewn amryw weithgareddau.
- Gweld dros 1,400 o ymweliadau ag un o'r deuddeg o ddsbarthiadau ffitrwydd a arweinir gan hyfforddwr a thri dosbarth ffitrwydd rhyngweithiol a gynhelir bob wythnos.
- Cynhelir tri dosbarth cyfeiriadau meddyg teulu prysur bob wythnos yn ogystal â phedair sesiwn ymgynghori â meddyg teulu bob wythnos, gyda sesiwn gampfa adfer calon ac ysgyfaint a dosbarth atal cwmpo yn y Stiwdio Gweithgareddau.
- Mae'r clwb cyfeillgarwch yn cwrdd unwaith y mis, hefyd cynhelir grŵp canu, dosbarthiadau dawns bob nos Lun ac mae'r grŵp U3A (Prifysgol y Drydedd Oes) yn cynnal grŵp dawns bob yn ail wythnos ar fore dydd Mawrth.

Meddai Aelod Cabinet Conwy, Y Cynghorydd Louise Emery, "Mae Hwb Yr Hen Ysgol a'r fflatiau gofal ychwanegol yn y cyfleuster newydd hyfryd hwn yn hybu ac yn uchafu llesiant, sy'n adlewyrchu ein nod o ddarparu'r amgylchedd iawn er mwyn i drigolion Conwy fod yn ddiogel, iach ac yn annibynnol."

Wrth agor yr Hyb Iechyd a Llesiant newydd yn swyddogol, meddai Julie Morgan, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: "Dyma enghraifft wych o'r math o gyfleusterau integredig all gael ei gyflwyno pan ddaw pobl a sefydliadau ynghyd gyda gweledigaeth a rennir ac ymrwymiad i gefnogi cymunedau yng Nghymru."

Symudodd Steven Potts, sy'n gwadriplegig, gyda'i wraig Karen i'r fflat newydd ar y llawr gwaelod yn y datblygiad, ac fe ddywedodd:

"Wrth ddod i fyw mewn un o'r fflatiau yn y rhandy newydd o eiddo a rentir yn breifat, roeddem yn ochelgar i ddechrau. Nid oeddem wedi clywed am gynlluniau tai Gofal Ychwanegol cyn hynny ac nid oeddem yn deall sut maent yn cefnogi pobl i fyw yn annibynnol. Roeddem ar fin cael ein gwneud yn ddigartref o ganlyniad i'n landlord ddod â'r denantiaeth i ben, felly ni allai'r cyfle fod wedi dod i'r amlwg ar amser gwell.

"A ninnau wedi byw yma ers saith mis bellach, mae ein hamheuron cychwynnol wedi'u chwalu'n llwyr. Mae safon y gofal a'r cyfleusterau heb eu hail. Yn gryno, yn ogystal â bod yn lle prydferth i fyw, a byw yn dda, mae'n hafan ddiogel a chroesawgar i'r rhai sydd angen hynny hefyd."

Mae Hen Dŷ'r Ysgolfeistr yn Llanrwst yn enghraifft o'r gorau oll mewn gwaith datblygu partneriaeth sy'n gwella bywydau am genedlaethau i ddod.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Hen Dŷ'r Ysgolfeistr yn Llanrwst yn ddatblygiad partneriaeth arloesol eofn rhwng Tai Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r datblygiad yn cyflwyno cyfleuster unigryw sy'n trawsnewid adeilad rhestredig gradd dau o'r 17eg ganrif i hwb iechyd a llesiant cyfoes gyda champfa a chyfleusterau ystafell gyfarfod cymunedol o'r enw 'Hwb Yr Hen Ysgol', ar yr un pryd mae'n darparu pedair fflat hunangynhwysol mewn rhandy i'r cynllun gofal ychwanegol presennol drws nesaf i'r adeilad.

Mae llwyddiant y datblygiad yn deyrnged i agwedd 'gwneud ein gorau glas' pawb dan sylw at weithio

i oresgyn heriau unigryw darparu campfa a lle cyfarfod o fewn yr un adeilad hanesyddol â phedair fflat gofal ychwanegol newydd, a'r canlyniad yw enghraifft ddisglair sy'n ysbrydoli pobl o bob oedran o ardaloedd gwledig ar draws y sir yn ogystal â'r rhai sy'n byw o fewn y cynllun, i fyw bywydau hapus ac iach.

Mae'r datblygiad yn gwthio ffiniau tai cymdeithasol, gwaith partneriaeth a gwaith ar y cyd yn wirioneddol er mwyn trawsnewid bywydau.

Mae 'Hwb yr Hen Ysgol' a'r fflatiau gofal ychwanegol fel ei gilydd yn cynrychioli penderfyniad ac angerdd pawb dan sylw i ddod o hyd i atebion creadigol newydd sy'n helpu grymuso pobl i fyw yn dda.

Tackling ASB together - A Police & RSL partnership

Grŵp ASB Landlordiaid Gwent



Datganiad o gefnogaeth

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) yn problem ddifrifol a all ddifwyno cymunedau os na chaiff ei reoli. Amcangyfrifodd Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr fod 37% o oedolion a atebodd yr arolwg wedi profi neu fod yn dyst i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol y llynedd, y gyfran uchaf ers i'r cwestiwn gael ei ofyn am y tro cyntaf yn 2011-12.

Ymglymerir â thaclo ASB yn llwyddiannus trwy orfodaeth, atal ac ymyrryd orau trwy bartneriaethau. Mae Grŵp ASB Landlordiaid Gwent yn cwrdd yn rheolaidd i gyfnwio syniadau, trafod tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac adnabod arfer gorau wrth reoli ASB gysylltiedig â'n tenantiaethau. Fel grŵp rydym yn cydweithio â sefydliadau fel y Llysoedd Sifil, Heddlu Gwent, y Gwasanaeth Prawf a darparwyr cefnogaeth i amlygu unrhyw anawsterau rydym yn eu hwynebu ac i hybu ein gwaith.

Nid yw'n gyfrinach y cafwyd toriadau sylweddol i Blismona Cymdogaeth ac Ymateb ar draws y wlad. Ers y toriadau hyn mae'r grŵp wedi nodi datgysylltiad rhwng yr Heddlu a landlordiaid. Mae'r ddau bartner wedi bod yn gweithio'n ddifflin ar eu blaenoriaethau eu hunain ond daeth bwlch clir i'r amlwg yn y cyfnod rhwng diwedd y swyddogaeth tai a'r swyddogaeth blismona'n cymryd drosodd.

Un o fuddion niferus ymyrryd ac atal ASB yn effeithiol yw'r gostyngiad nodedig all gael ei weld yn y galw am wasanaethau. Mae hyn yn wir am y galw ar wasanaethau'r Heddlu a thimau landlordiaid a rheoli tenantiaethau. Mewn cyfnod o bwysau ar adnoddau a chyllid, nid yn unig y mae ymyrraeth gost-effeithiol yn arbed arian, mae hefyd yn rhyddhau adnoddau'r Heddlu a landlordiaid i ddelio â blaenoriaethau eraill.

Gwelodd grŵp landlordiaid Gwent fod eu cyfarfodydd yn aml yn arwain at drafodaethau am y bylchau sy'n weddill yn sgil y gostyngiad mewn adnoddau'r Heddlu. Yn yr un modd, roedd swyddogion ymateb Heddlu Gwent yn ymwybodol iddynt ddibynnu ar y timau Plismona Cymdogaethau sydd bellach wedi'u lleihau i goladu gwybodaeth a chudd-wybodaeth am ASB gysylltiedig â thenantiaid a chysylltu ag asiantaethau partner i ddatblygu mentrau datrys problemau. Roedd bwlch amlwg yn sgil y newidiadau i Blismona Cymdogaethau a nodwyd nad oedd Heddweision Ymateb yn ymwybodol o lawer o'r pwerau sifil ac opsiynau cefnogi a gorfodi sy'n agored i landlordiaid.

Sut cafodd y problem ei datrys: Cydweithiodd landlordiaid Gwent yn agos â'r Heddlu i ddatblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a gyflwynwyd i Heddweision. Cynyddodd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth Heddweision o waith landlordiaid cymdeithasol, gan sicrhau dealltwriaeth o'r pwerau

a datrysiadau sydd ar gael i ni. Trwy ddealltwriaeth drwyadl o rôl y landlord y gobaith oedd cryfhau partneriaethau sy'n bodoli eisoes a gwneud peth cynnydd tuag at lenwi'r bwlch a adawyd gan gwtogiadau mewn cyllid.

Dros gyfnod o ugain wythnos cyflwynodd staff landlordiaid i 840 o Swyddogion Heddlu Gwent (90% Ymateb/10% Cymdogaeth). At hynny, hyfforddwyd 127 o Swyddogion Cefnogaeth Gymunedol Gwent dros dair sesiwn bellach.

Bu'r hyfforddiant yn cynnwys sesiwn ryngweithiol a arweiniwyd gan swyddogion landlordiaid partner. Cyflwynwyd adran chwalu mythau a fu'n ymdrin â

rhai camsyniadau cyffredin am sut mae landlordiaid cymdeithasol yn dyrannu ac yn rheoli eu stoc a'r pwerau sydd ar gael i ni wrth daclo cymdogion sy'n niwsans ac ASB.

Mae heddweision wedi dweud wrthym i'r hyfforddiant roi eglurhad iddynt ynglŷn â sut mae landlordiaid cymdeithasol yn gweithredu a rhoddwyd syniadau hefyd am sut y gallem daclo achosion trafferthus gyda'n gilydd. Mae swyddogion eisoes wedi bod mewn cysylltiad â landlordiaid lleol ar sail yr achos unigol ac wedi cyfeirio at bethau y maent wedi'u dysgu yn ystod y rhaglen hyfforddi.

Canlyniadau a chyflawniadau

Wrth i'r ugain wythnos symud ymlaen, adroddodd yr Heddlu y cafwyd cynnydd mewn cyfeiriadau a chudd-wybodaeth mewn perthynas â thenantiaid a dealltwriaeth well o lawer o bwerau cydfuddiannol. Golygodd hyn i Swyddogion gadw cofnodion gwell wrth iddynt ddod i sylweddoli y byddai hyn yn cael ei rannu â landlordiaid.

Rydym wedi llwyddo i ddiogelu dioddefwyr ASB a gwella ansawdd bywyd yn ein cymunedau trwy weithredu ymyraethau ar y cyd, fel Contractau Ymddygiad Derbyniol, Contractau Ymddygiad Teulu ac ymweliadau ar y cyd gyda'r Heddlu, yn gyflym. Yn ogystal â'n helpu ni i helpu dioddefwyr ASB, mae'r fath contractau hefyd yn galluogi ni i weithio ar y cyd gyda'r tenantiaid trafferthus i helpu rheoli eu hymddygiadau eu hunain fel y gallant gynnal eu tenantiaethau eu hunain. Mae'n golygu hefyd y gallwn adnabod unrhyw anghenion cefnogaeth nas diwallir a all fod yn achosi'r ASB yn y lle cyntaf. Yn y pen draw, trwy ladd y problemau hyn yn yr egin gallwn helpu gostwng ymyraethau cyfreithiol ffurfiol a all arwain at droi tenant allan.

Yn ychwanegol at rannu gwybodaeth mae'r Heddlu wedi llwyddo i hybu'r defnydd o offer ymarferol i landlordiaid fel yr 'Ap Sŵn' ar gyfer recordio ac adrodd am gymdogion sy'n achosi niwsans. Mae heddweision eisoes yn argymhell defnyddio'r ap hwn i denantiaid sy'n cael eu heffeithio er mwyn iddynt recordio tystiolaeth a'i chyflwyno'n uniongyrchol i'w landlord. Mae hyn yn lleihau'r baich ar yr Heddlu a phan gaiff ei chwarae i'r tenantiaid a gyhuddir o achosi'r niwsans sŵn, gall annog nhw i newid eu hymddygiad.

Meddai'r Arolygydd Anthony Patey o Heddlu Gwent "Ar nodyn personol, rwy'n ddiolchgar tu hwnt am ymroddiad a phroffesiynoldeb yr holl staff a fu'n ymwneud â'r fenter. Bu'r fenter yn aruthrol o lwyddiannus wrth bontio datgysylltiad rhwng yr Heddlu ac asiantaethau Tai Cymunedol, a gwelwyd gwelliant mewn rhannu gwybodaeth a chyd-ddealltwriaeth. Roedd cyfuno materion logistaidd cyflwyno am ugain wythnos gyda 'swydd bob dydd' feichus yn her fawr, y camodd yr holl staff i fyny iddi'n frwd."

Fit & Fed Merthyr Tydfil

Cymdeithas Tai Merthyr Tudful



Datganiad o gefnogaeth

Mae Fit and Fed yn brosiect deinamig sy'n taelo materion chwant bwyd, unigedd cymdeithasol a diffyg gweithgarwch corfforol a wynebir gan bobl ifanc yn ystod y gwyliau ysgol.

Mae partneriaid y prosiect yn cynnwys y gwasanaeth ieuencid lleol, clybiau bechgyn a merched lleol, Heddlu De Cymru, Gemau Stryd, yr awdurdod lleol a FareShare Cymru i enwi ond rhai.

Crëwyd cysylltiadau cryfion â Bwrdd Iechyd Morgannwg Cwm Taf gan sicrhau cydweithredu ar nodau'r Cynllun Llesiant lleol. Mae CTMT wedi arwain ar weithgareddau codi arian, yn ychwanegol at gydlynw, gwerthuso a monitro'r prosiect. Trwy'r monitro hwn, mae'r prosiect wedi dangos gwerth am arian. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf dangosodd y prosiect elw gwerth cymdeithasol o £183 am bob £1 a fuddsoddwyd yn y prosiect.

Mae Llesiant y bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan wedi gwella'n sylweddol yn ystod pob cyfnod gwyliau. Mae'r prosiect wedi gwella sgiliau pobl ifanc a darparu hyfforddiant achrededig sydd wedi gwella eu lefelau hyder, hunan-barch a dyheadau ar gyfer y dyfodol.

"Mae CTMT wedi mynd ati'n frwd i ddatblygu'r rhaglen Fit and Fed er mwyn ymdrin â chwant bwyd pobl ifanc yn ystod y gwyliau. Mae cyfranogiad parhaus CTMT yn gwella'r cynnig cyflwyno i bobl ifanc ac yn ehangu'r ystod o weithgareddau a chyfluoedd sydd ar gael i bobl ifanc." Nigel Shephard, Uwch Swyddog Ieuencid a Chymunedol CBSMT.

"Bu'n bleser i weithio mewn partneriaeth â CTMT. Mae eu gweithgareddau blaengar a'r addysg a chymwysterau o ganlyniad iddynt a ddyfarnwyd i bobl ifanc trwy'r rhaglen Fit and Fed yn golygu y cafwyd newid sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n mynychu ardaloedd penodol yn y Gurnos.

Trwy roi'r si ar led mae'r prosiect wedi ehangu ei niferoedd ac wedi llwyddo i ddenu nifer o bobl ifanc

o gefndiroedd amrywiol, na fyddai gan rai ohonynt unrhyw le arall i fynd gyda'r hwyr heblaw am y ffaith bod Fit and Fed yn cael ei redeg yn y prosiect ieuencid 3G.

Hefyd, mae wedi darparu lleoliad unigryw i asiantaethau allanol fel HDC fedru dod i ymgysylltu â phobl ifanc, nid yn unig o ran addysg ond hefyd er mwyn iddynt ddod i wybod am eu rhwydweithiau cefnogi lleol." PC4650 Louise Tew, Rheolwr Patroliol Cymdogaethau Heddlu De Cymru.

Gwnaed y sylwadau a ganlyn gan blant a ddaeth i'r cynllun

Pam rydym yn dwlu ar Fit and Fed:

- Dod â grwpiau cyfeillgarwch yn agosach at ei gilydd,
- Teimla merched eu bod wedi'u grymuso
- Dod ynghyd o gwmpas y bwrdd
- Yn gwneud chi'n fwy actif
- Bwyd am ddim a phethau i'w gwneud am ddim
- Wedi dysgu fi sut i goginio a dysgu ryseitiau
- Treulio mwy o amser gyda'ch ffrindiau
- Teithiau
- Gweithio fel tîm
- Dysgu parch
- Bod yn fwy hyderus
- Paffio, rygbi, pêl-droed, rownders

"Pobl ifanc o'r Prosiect ieuencid 3G" .

"Mae cyfranogiad ac arweinyddiaeth CTMT wedi gwella'r fethodoleg hon yn sylweddol o ganlyniad i'w hymgyrhaeddiad di-ail i mewn i gymunedau lleol lluosog ar draws yr awdurdod lleol. Uchafodd cydweithio lleol yn effeithiol gyfranogiad y gymuned, gan rymuso grwpiau ieuencid a chymunedol lleol i ymdrin â heriau lleol trwy ddarpariaeth amser gwyliau a ddyluniwyd yn dda. O ganlyniad i gydweithio effeithiol, mae CTMT wedi ffurfio rhwydwaith cryf o sefydliadau sydd â'r un feddylfryd." Aaron Northmore, Rheolwr Campau Stepen Drws a Diogelwch Cymunedol, Gemau Stryd Cymru.

"Mae CTMT wedi gweithio mewn partneriaeth â FareShare Cymru; elusen ailddosbarthu bwyd sy'n cyrchu bwyd dros ben gan gyflenwyr yn y diwydiant bwyd ac yn ailddosbarthu hyn i sefydliadau trydydd sector ar draws De-ddwyrain Cymru. Yn ystod y gwyliau haf mae CTMT wedi defnyddio bwyd gan FareShare Cymru i wneud pecynnau bwyd penwythnos ar gyfer plant sy'n dod i'w rhaglen haf. Yn ogystal â sicrhau y cafodd y plant eu bwydo wrth gymryd rhan yn y cynllun, fe sicrhodd hefyd nad oeddent yn wynebu chwant bwyd dros y penwythnos." Kate Padfield, Rheolwr Prosiect Cynorthwyol, FareShare Cymru.

Canlyniadau a chyflawniadau

Canlyniadau:

- Gwelliant sylweddol mewn sgorau lles y rhai sydd wedi cymryd rhan rhwng dechrau a diwedd pob cyfnod gwyliau.
- Newid mewn agweddau tuag at fwyd gyda chynnydd mewn bwyta ffrwythau a llysiau ymysg cyfranogwyr ac addasu bwydlenni clybiau ieuencid i gynig dewisiadau bwyd mwy iach.
- Gostyngiad mewn unigedd cymdeithasol pobl ifanc yn ystod y gwyliau gyda digonedd o hwyl am ddim iddynt gymryd rhan ynddo gyda ffrindiau a chymheiriaid.
- Cyd-gynhyrchu - mae pobl ifanc yn cymryd rhan gyda chynllunio a chyflwyno'r prosiect.
- Mae gwirfoddolwyr ifainc yn gwella'u sgiliau - hyd yma mae 14 wedi ennill eu cymhwyster hylendid bwyd ac maent oll yn helpu i gyflwyno'r prosiect ar draws y fwrdeistref.

- Mae gan y prosiect werth cymdeithasol cyfunedig o £2,282,083 ar gyfer ymarfer corff rheolaidd a chymedrol a gwirfoddoli rheolaidd.

Cyflawniadau

Hyd yma:

- Mae 830 o blant a phobl ifanc gwahanol wedi ymwneud â'r prosiect 2,615 o weithiau.
- Rhedwyd 185 o sesiynau.
- Darparwyd 2548 o brydau.
- Darparwyd 5033 o fyrbrydau iach.
- Cyflwynwyd 185 o oriau o gampau a gweithgareddau corfforol.
- Dosbarthwyd 318 o becynnau bwyd, gan helpu 53 o deuluoedd a thaclo chwant bwyd dros y penwythnos.
- Mae 40% o'r cyfranogwyr a gwblhaodd ffurflenni'n derbyn prydau ysgol am ddim.

Partneriaeth Welcome To Our Woods

Cymdeithas Tai'r Rhondda a Welcome To Our Woods



Datganiad o gefnogaeth

Enghraifft wych o'n hymrwymiad i weithio gyda sectorau eraill a phartneriaeth yr ydym yn falch ohoni yw'r Bartneriaeth Welcome To Our Woods (WTOW). Trwy rannu gweledigaeth a gwerthoedd Cymdeithasau Tai'r Rhondda rydym yn cydweithio i sicrhau bod adnoddau naturiol lleol a choetiroedd yn fwy defnyddiol, hygyrch a pherthnasol i'n cymunedau.

Yn hanesyddol mae ardaloedd yng Nghymoedd y Rhondda wedi gweld perchnogaeth ar adnoddau

naturiol yn cael ei chymryd o ddwylo'r gymuned leol gan gorfforaethau mawrion. Felly ceisiodd y prosiect partneriaeth hwn ennyn diddordeb pobl yn eu hamgylchedd naturiol eto, gan annog balchder, diddordeb a pherchnogaeth ar y dirwedd naturiol a'r coetiroedd lleol. Yn yr hinsawdd economaidd gyfredol ac wrth ymateb i Gredyd Cynhwysol, effaith caledi, diffyg cyfleoedd a lefelau cyflogaeth isel yn Rhondda Cynon Taf, roeddem yn gwybod bod angen i ni ymateb trwy ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i reoli tenantiaethau.

Nod ein sefydliad yw darparu cartrefi o safon, adfywio cymunedau a gwella bywydau, ac rydym yn cydnabod ein gallu a chyfrifoldeb fel sefydliad angor i weithredu fel catalydd dros adfywio diriaethol a chymdeithasol. Rydym yn chwarae rôl weithredol wrth gefnogi'r economi leol, medru cymunedau cynaliadwy a dymunol wrth hybu iechyd a llesiant da. Yr unig ffordd y gallwn gyflawni hyn yw trwy gydweithio â sefydliadau, ac rydym yn ceisio datblygu partneriaethau strategol effeithiol sy'n cyflwyno gwerth cymdeithasol ac economaidd cynyddol.

Mae ein partneriaeth WTOW yn cynnwys pobl leol, busnesau sector preifat, asiantaethau statudol a'r llywodraeth, sefydliadau'r sector gwirfoddol, grwpiau cymunedol lleol ac unigolion eraill sy'n rhoi o'u hamser a sgiliau, ac yn 2018 dyfarnodd Cynnal Cymru'r 'Wobr Cymuned Gynaliadwy' i ni.

Mae ein partneriaeth yn datblygu ffyrdd o gysylltu pobl a lleoedd, a rheoli adnoddau lleol yn gynaliadwy gyda phobl leol er mwyn iechyd, llesiant, hamdden, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn 2018 bu i ni gomisiynu system trydan dŵr 29kWh (Cynllun Nant Saebren, Treherbert) sy'n defnyddio adnoddau naturiol i gynhyrchu incwm dros y gymuned leol.

Rydym wedi ymrwymo i'r bartneriaeth hon mewn llawer o ffyrdd y maent oll yn gwneud yr ardaloedd y mae gennym gartrefi ynddynt yn fwy dengar ac yn galluogi tenantiaid ac aelodau'r gymuned i fod yn falch o ble maent yn byw a dewis aros yn o.

Rydym yn rhan o fwrdd rheoli WTOW ac yn rhoi o'n hamser ac arbenigedd i reoli a chyflwyno'r prosiect ac eirioli dros a chefnogi'r agenda werdd. Rydym yn cefnogi ein tenantiaid ac yn cyfeirio nhw ymlaen at weithgareddau'r prosiect ac ar yr un pryd yn chwarae rôl o fewn y digwyddiadau sy'n cael eu trefnu.

Mae gan y prosiect lawer o nodau ac mae'n gwella iechyd a llesiant ein tenantiaid trwy fynediad i ofodau gwyrdd a gweithgareddau corfforol o ansawdd da, adeiladu sgiliau newydd, gwirfoddoli a dod o hyd i gyflogaeth.

Mae'r bartneriaeth hefyd yn rhedeg gweithgareddau presgripsiwn cymdeithasol wythnosol fel grwpiau cerdded, cystadlaethau rygbi, chwilio am blanhigion bwytadwy, crefft coedwig a sesiynau sgiliau tân gwersyll.

Rydym yn gweithredu gofod tyfu bwyd ar ffurf rhandir cymunedol a chaffi Talu wrth Deimlo cysylltiedig.

Rydym hefyd yn rheoli dros 45ha o goetir llydanddail yn y Rhondda at ddibenion hamdden ac i feithrin bioamrywiaeth leol well. Cynhyrchir gwastraff pren yn ystod gweithgareddau rheoli coetir ac mae pobl leol yn defnyddio'r adnodd hwn i ddysgu crefft coed a gwneud cynnyrch cynaliadwy sy'n llesol i'r amgylchedd i'w gwerthu yn ein 'hen' adeilad llyfrgell a adnewyddwyd yn ddiweddar.

Mae'r bartneriaeth arloesol hon wedi cynhyrchu cyllid gwerth £1.2m gan y Gronfa Loteri Fawr, ynghyd â £90k gan y Co-Operative. Mae hyn oll yn galluogi ni i ddarparu llwyfan drawiadol sy'n canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion i oresgyn materion cymdeithasol, fel lefelau sgiliau isel, iechyd gwael a diffyg cyfleoedd cyflogaeth.

Canlyniadau a chyflawniadau

- Bob wythnos mae dros 100 o bobl yn cyrchu'r gweithgareddau presgripsiwn cymdeithasol iechyd a llesiant.
- Ers mis Mai 2017 mae dros 1000 wedi ymwneud â'r prosiect WTOW a chymryd rhan wrth gynllunio sut rydym yn defnyddio'r dirwedd leol gyda'n gilydd er budd pawb yn y dyfodol.
- Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyflogaeth sesiynol i 8 o bobl.
- Rydym wedi gweithio ar wella manau cymunedol fel gerddi cymunedol cynllun lloches CTRh.
- Bob mis mae 40+ o wirfoddolwyr unigol yn rhoi o'u hamser i ni ar gyrchoedd codi sbwriel trefnedig, sesiynau garddio cymunedol a gwaith rheoli coetiroedd.
- Mae dros 50 o bobl sy'n anweithgar yn economaidd wedi elwa o gyrsiau hyfforddi cymunedol am ddim, fel cymwysterau cymorth cyntaf yn y gwaith, hylendid bwyd, CSCS ac rydym hyd yn oed wedi hyfforddi rhai gwirfoddolwyr lleol allweddol i weithredu llifiau cadwyn, y maent bellach yn helpu rheoli'r coetiroedd lleol.
- Mae CTRh yn lesio tir i'r bartneriaeth WTOW a leolir mewn prif leoliad ar stryd fawr lle mae aelodau'r gymuned yn gwerthu nwyddau pren a gynhyrchwyd yn lleol ac yn cynllunio Marchnad Nadolig Gymunedol.
- Rydym wedi ail-agor dau adeilad cymunedol gynt (y Gymhorthfa Gelf a'r Hen Lyfrgell), y mae'r ddau ohonynt yn ganolfannau gweithgareddau cymunedol, ac yn rhedeg sgiliau pren a sesiynau celf a chrefft, hyfforddiant, cyngor a sesiynau cefnogaeth galw heibio etc.

Prosiect WISDOM

Trivallis



Datganiad o gefnogaeth

Mewn arolwg diweddar o 3,849 o garcharorion a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder:

- Datganodd 37% y byddent angen cymorth wrth ddod o hyd i rywle i fyw ar ôl eu rhyddhau.
- Roedd carcharorion yr oeddent wedi derbyn dedfrydau carchar neu brawf neu orchmynion cymunedol yn flaenorol yn fwy tebygol o adrodd bod angen cymorth arnynt wrth ddod o hyd i lety yn sgil eu rhyddhau o'r carchar na'r rhai nad oeddent wedi cael eu dedfrydu o'r blaen. Roedd yn fwy tebygol hefyd iddynt fod yn ddiartref cyn mynd i'r carchar.
- Credodd 60% fod cael rhywle i fyw yn bwysig wrth atal nhw rhag aildroseddu yn y dyfodol.

Ymadawyr carchar yw un o'r prif resymau yn RhCT dros leoliad mewn llety gwely a brecwast yn 2017/18 hefyd.

Mae gan y prosiect Rheoli Troseddwy'r Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru (WISDOM), a ddatblygwyd wrth ymateb i Strategaeth Gostwng Aildroseddu Cymru 2014-2016, ddull 'tai yn gyntaf'. Mae'n rhoi cyfle i ad-droseddwy'r ag anghenion cymhleth sy'n peri risg uchel o niwed difrifol sicrhau llety parhaol annibynnol ac yn anelu at ddiogelu'r cyhoedd a'n cymunedau'n well.

Mae WISDOM yn gweddu i Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPP) trwy adnabod ac asesu ad-droseddwy'r difrifol a'u rheoli o ddydd i ddydd.

Mae'r rhai a gefnogir trwy WISDOM yn cynnwys:

- Troseddwy'r treisgar
- Cyflawnwyr cam-drin yn y cartref
- Unigolion sy'n ymwneud â throeddu cyfundrefnol difrifol
- Grwpiau peryglus risg uchel â blaenoriaeth

Dyma'r tro cyntaf i'r prosiect hwn gael ei arloesi yng Nghymru. Mae WISDOM yn bartneriaeth gyda

Trivallis, Heddlu De Cymru (HDC), y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Gofal a Chefnogaeth Gwalia.

Ymysg nodweddion allweddol WISDOM ceir unedau rheoli troseddwy'r a gydleolir i reoli risg yn well a gwasanaethau fforensig, seicolegol ac iechyd i ddarparu ymyraethau troseddwy'r, goruchwyliaeth glinigol a hyfforddiant.

Sut mae WISDOM yn gweithio

Mae'n rhaid bod gan y rhai a gyfeirir at WISDOM angen am dai, maent yn cael eu dewis trwy banel aml-asiantaeth (MASP) ac mae Trivallis yn adnabod cartref addas yn seiliedig ar y cleient a chanlyniad unrhyw asesiad risg.

Yn sgil derbyn y cyfeiriad, ymwelir â'r cleient yn y carchar gan eu gweithiwr allweddol (Gwalia) a swyddog tai penodedig (Trivallis).

Mae ein dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn golygu y bydd cefnogaeth yn amrywio'n seiliedig ar anghenion unigol a'i fod yn hyblyg er mwyn ystyried dymuniadau pob cleient.

Wrth lofnodi cytundeb Trwydded a chytuno ar ddyddiad dechrau pan fyddant yn symud, gwneir cynlluniau i sicrhau pecyn dodrefn sydd i'w osod wrth iddynt gyrraedd eu cartref newydd. Trefnir yr holl wasanaethau i sicrhau eu bod yn pontio'n llyfn i'w cartref newydd.

Fel isafswm mae angen cyswllt wyneb yn wyneb yn ystod yr wythnosau cyntaf ar ôl symud i'r eiddo, wedi'i ategu gan fynd i sesiynau GRAMO (Paratoi a Symud Ymlaen). Mae hyn yn cynnig dau ddiwrnod o hyfforddiant un i un ar gyfer y rhai sy'n paratoi i rentu a chychwyn ar denantiaeth.

Mae cleientiaid yn cael cyfle hefyd i gwblhau unedau Agored Cymru sy'n arwain at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol, gan gynnwys cyllidebu, ymwybyddiaeth alcohol a bod yn denant da.

Cynigir Cytundeb Trwydded Eithriedig yn y 3 mis cyntaf a chynhelir cyfarfodydd gweithredol misol gyda'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â'r gefnogaeth i drafod cyfranogiad y cleient. Ar ôl 6 mis, os yw'r client yn ymwneud â'r gefnogaeth ac nad oes unrhyw broblemau o bob safbwynt h.y. y cleient a'r landlord, bydd unigolion yn llofnodi cytundeb Tenantiaeth Fyrddaliadol Sicr, wedi'i dilyn gan Denantiaeth Sicr ar ôl 9 mis.

Rydym yn gwybod bod pawb yn wahanol a thrwy becynnau wedi'u teilwra o ymyraethau cefnogaeth a mecanweithiau atal i reoli risg a mwyafu nifer yr unigolion a gaiff eu hintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned.

Oherwydd llwyddiant y prosiect peilot hwn, rydym wedi sicrhau cyllid pellach i alluogi ni i gynyddu'r niferoedd ar y prosiect er mwyn parhau i gefnogi troseddwy'r risg uchel a chleientiaid sydd ag anghenion cymhleth i helpu diogelu cymunedau'n well.

Canlyniadau a chyflawniadau

Ers 04.17, cefnogwyd wyth o gleientiaid.

Cymerodd 80% ran yn llwyddiannus ac nid ydynt wedi aildroseddu.

Gadawodd un yn ôl ei ddewis. Dychwelodd un i'r carchar ond golygodd y gwaith partneriaeth y cafodd y drosedd ei hadnabod yn gyflym fel y gallai'r gwasanaeth prawf a HDC ei hatal rhag gwaethygu a chadw'r gymuned yn ddiogel.

Mae tri cleient wedi sicrhau cyflogaeth amser llawn. Mae gan dri ohonynt denantiaeth sicr ac mae gan dri arall denantiaethau sicr hir dymor.

Cleient: "Dwi wedi treulio'r saith mlynedd ddiwethaf yn y carchar a dwi ddim eisiau mynd nôl. Dwi byth wedi cael fy nghartref fy hun neu'r lefel hon o gefnogaeth; hebddi ni fyddai gennyf glem beth i

wneud."

Cleient: "Bydda i ddim yn gwneud yr un camgymeriadau. Mae 3 merch fach 'da fi a bydda i ddim yn gwastraffu mwy o amser. Rwy'n 28 oed, dyma'r tro cyntaf i mi gael fy lle fy hun. Rwy'n cael cefnogaeth nid yn unig gyda fy fflat ond gyda fy merched a fy ngorbryder."

Swyddog Ymyraethau Tai WISDOM: "Mae'r gefnogaeth wedi'i theilwra i'r person, mae'n anhygoel gweld nhw'n troi eu bywydau o gwmpas. Mae un cleient wedi ailsefydlu ei berthynas gyda'i blant. Mae ei weithiwr cymdeithasol wrth ei fodd ac mae'n gweld ei fab bob gwyliau ysgol, mae ar fin llofnodi tenantiaeth sicr hir dymor hefyd. Heb WISDOM fe ddywedodd y byddai yn ôl yn y carchar."

Wellbeing 4U

United Welsh



Datganiad o gefnogaeth

Ceir tystiolaeth gynhwysfawr o'r gyfatebiaeth rhwng iechyd a thai Mae mynediad i'r math iawn o gefnogaeth i helpu pobl i fyw yn hapus ac mewn iechyd da yn ein cymunedau'n bwysig iawn i gymdeithas tai United Welsh yn Ne Cymru.

Mae Wellbeing 4U yn wasanaeth llesiant cymunedol a gyflwynir gan Thrive, y tîm sy'n rheoli llety arbenigol a gwasanaethau cysylltiedig dros y Gymdeithas.

Fe'i comisiynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac wedi newid bywydau cleifion a darparu llinell gymorth i weithwyr iechyd proffesiynol ers lansio yn 2016.

Mae Wellbeing 4U yn wasanaeth presgripsiynau cymdeithasol sy'n cefnogi pobl i fod yn gyfrifol dros eu

hiechyd eu hunain trwy eu rhoi wrth wraidd eu gofal, gan hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb personol.

Yn aml, mae cleifion yn dewis mynd i'w meddyg teulu pan fyddant yn bodd i mewn pryderon gan nad ydynt yn aml yn gwybod ble i fynd am gymorth.

Fodd bynnag, mae tuag 20% o bobl yn ymgynghori â'u gweithiwr iechyd proffesiynol ynglŷn â'r hyn sydd yn bennaf yn broblem gymdeithasol, ac amcangyfrifir bod 70% o ddeilliannau iechyd yn seiliedig ar benderfyniadau cymdeithasol ac economaidd gan gynnwys tai, cyflogaeth, cyllid, deiet ac ymarfer corff, rhwydweithiau teuluol a chymdeithasol.

Mae Wellbeing 4U yn annog cleifion i feddwl am eu hiechyd mewn ffordd wahanol.

Mae'r tîm wedi'i leoli ar draws 35 o feddygfeydd a derbyniwyd cyfeiriadau eisoes ar gyfer 3764 o gleifion, gan arwain at 1421 o ymgynghoriadau wyneb yn wyneb dros y flwyddyn ddiwethaf yn unig.

Daw cyfeiriadau gan feddygon teulu, staff meddygfeydd, cleifion a sefydliadau cymunedol eraill.

Cefnogir pobl gydag amrywiaeth o broblemau y maent oll yn dylanwadu ar eu llesiant gan gynnwys digartrefedd, budd-daliadau, gorbryder, iselder, unigedd, camddefnyddio sylweddau, ysmegu, rheoli straen, adeiladu hyder, colli pwysau a mwy.

Mae Wellbeing 4U yn defnyddio dull seiliedig ar gryfderau sy'n cynnwys cyfweiliadau symbylol, anogaeth, addysg a chyfeiriadau cymunedol; cefnogi cleifion i adnabod, cyflawni a chynnal eu nodau ar gyfer newidiadau cadarnhaol sy'n parhau.

Trwy ymdrin ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymarferol cleifion o ddydd i ddydd i wella llesiant

yn gyffredinol, mae ein gwasanaeth yn gostwng pwysau ar feddygon teulu a gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol eraill.

Yn gyffredinol rydym yn gweithio mewn ardaloedd uchaf i fyny ar y mynegai amddifadedd lluosog lle ceir darpariaeth tai cymdeithasol uwch. O ystyried natur rhai materion fel budd-daliadau, mae'r Cydlynwyr Llesiant mewn sefyllfa ddelfrydol i gynnig cyngor neu gyfeirio pobl at asiantaethau perthnasol gan gynnwys United Welsh.

Mae gweithio mewn partneriaethau cyd-fuddiannol effeithiol wrth wraidd cyflwyno ein gwasanaeth. Mae hyn yn ein helpu gwella'r profiad defnyddwyr, tyfu asedau cymunedol ac adnabod bylchau yn narpariaeth y gwasanaeth, gan ddarparu gwerth am arian.

Rydym wedi gwneud y sector yn gynaliadwy trwy bartneriaethau gyda mwy na 50 o grwpiau trydydd sector a chymunedol.

Rydym yn hybu defnyddio asedau cymunedol sydd eisoes yn bodoli i gryfhau cymunedau cydlynol, ond yn adnabod ac yn llenwi bylchau yn y ddarpariaeth hefyd lle bo'n bosib. Trwy rannu adnoddau a hybu

diwylliant gwaith ar y cyd yn y trydydd sector, gellir diwallu anghenion pobl am gost isel.

At hynny, mae llawer o'n gwaith fel cyrsiau bwyta'n iach a lliniaru poen yn ffocysu ar addysg a chynyddu cydnerthedd, sy'n cefnogi'r agenda atal ac yn cynyddu gwelliannau iechyd tymor hwy i greu arbedion cost tymor hwy.

Mae'r prosiect wedi derbyn adborth anhygoel gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr iechyd:

"Ni welais fod unrhyw ddiben mewn parhau i fyw ar ôl i fy mab farw. Petawn i heb ddod i Wellbeing 4U byddwn yn dal i grio trwy'r amser a themlo nad oes unrhyw ddiben mewn bywyd. Yn awr mae gennyf reswm dros fyw." - Rhywun sy'n mynychu grŵp cefnogaeth brofedigaeth Wellbeing 4U

"Mae'r partneriaid meddyg teulu'n wefr i gyd gyda'r canlyniadau hyd yma ac mae ganddynt ffrydiau gwaith sydd ar gael i'r tîm a fydd yn helpu gwneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd bywyd y cleifion hynny yn ward mwyaf difreintiedig Caerdydd, yn economaidd ac yn gymdeithasol" - Rheolwr Meddygfa, Meddygfa Grange

Canlyniadau a chyflawniadau

Ers i United Welsh lansio'r gwasanaeth Wellbeing 4U a gomisiynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, rydym wedi:

- Derbyn 3764 o gyfeiriadau gan y sector iechyd a'r trydydd sector
- Gweld 3246 o bobl i ddarparu cefnogaeth un i un
- Cyfeirio 3757 o bobl i gefnogaeth iechyd a llesiant bellach
- Darparu cyngor mewn mwy na 500 o ddiwyddiadau ennyn diddordeb y gymuned
- Cymerodd 275 o bobl ran yn Healthful Network, ein fforwm addysg a chefnogaeth

Mewn arolwg diweddar a atebwyd gan 43 o gleifion, dywedodd 95% fod y gwasanaeth yn ddefnyddiol, byddai 95% yn argymhell y gwasanaeth ac mae 91% wedi gweld cynnydd yn eu llesiant yn ôl ein graddfeydd gwerthuso.

I ddechrau bu i ni ddefnyddio Graddfa Llesiant Warwick a Chaeredin i werthuso, ond er mwyn bod yn fwy cadarn rydym bellach yn gwerthuso cynnydd trwy Gyfweliadau Symbylol, MECC ac egwyddorion seiliedig ar gryfderau a gefnogir gan feddalwedd presgripsiwn cymdeithasol Elemental i resymoli cyfeiriadau, tracio eu heffaith a chydgrynhoi adroddiadau ar ganlyniadau.

Rydym wedi arbed £372,620 i'r sector iechyd mewn apwyntiadau diangen â meddygon teulu a gwerth 12,020 o apwyntiadau o amser diangen meddygon teulu.

Mae Wellbeing 4U yn enghraifft ddisglair o ddau sector sy'n cydweithio i arbed arian, amser ac adnoddau ac yn bwysicaf oll, gwneud gwahaniaeth i lesiant ein cymunedau er mwyn i bobl fyw bywydau mwy iach a hapus.

YMCA Aspire

YMCA Caerdydd



Mae Aspire yn brosiect cyflogadwyedd unigryw a leolir yn hostel YMCA Caerdydd i bobl ddigartref sy'n cefnogi dyheadau cyflogaeth ein preswylwyr. Mae gan y rhai a dderbynnir ar Aspire gyflwr iechyd meddwl, maent wedi bod yn ddi-waith ers 5 dros mlynedd ar gyfartaledd, maent yn hawlio budd-daliadau (ESA fel arfer), maent yn ddigartref ac wedi'u diffinio fel grŵp sydd 'anoddaf ei gyrraedd'. Nid yw cynlluniau cyflogaeth a sianelau recriwtio arferol wedi profi'n effeithiol ar gyfer y grŵp hwn; Mae Aspire yn ceisio ymdrin â hyn ac yn cefnogi cyfranogwyr tuag at gyflogaeth mewn ffordd gefnogol a hawdd ei rheoli. Bu cydweithrediad nad yw'n ymwneud â thair'n hollbwysig i lwyddiant y prosiect; mae'r cysylltiad rhwng ein hostel a busnesau wedi creu rhagolwg mwy cadarnhaol ar gyfer pobl ddigartref ac wedyn, darparwr y lleoliad gwaith.

Gyda'i gilydd mae busnesau o sectorau amrywiol yn gweithio ar y cyd; mae busnesau trydydd sector a phreifat fel ei gilydd wedi helpu preswylwyr YMCA Caerdydd gyda'u dyheadau. Mae Aspire wedi cysylltu disgyblaethau cefnogaeth lluosog YMCA Caerdydd, darparwyr hyfforddiant lleol, busnesau, elusennau iechyd meddwl a'r AGP. Mae'r trefniad cydlynol hwn yn golygu bod preswylwyr wedi derbyn arbenigedd y mae ei angen yn fawr ar eu stepen drws. Rydym yn grymuso cyfranogwyr yn y prosiect i symud ymlaen ac yn bennaf bu hyn yn bosib o ganlyniad i fusnesau sy'n fodlon cwrdd â chronfa ddoniau guddiedig o ddarpar gyflogaethion o ddechrau eu taith hyd at ddiwedd y lleoliad gwaith. Mae un enghraifft o'r fath yn gysylltiedig â Whitbread PLC "Penderfynon ni gydweithio ag Aspire gan y bu'n gyfle i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith, ac fe ddarparodd gyfle i ni recriwtio o sector o'r cyhoedd y byddem efallai wedi'i hepgor fel arall. Gwelsom fod y rhaglen yn

hyblyg iawn ac yn ymateb i'n dulliau gweithio. Mae un ohonynt wedi cwblhau 6 mis o wasanaeth gyda ni ac mae'n ffynnu yn ei rôl! Cefnogwyd y broses hon i gyd gan staff Aspire a bu'n hawdd ei rheoli. Byddem yn annog busnesau eraill i wneud yr un peth, mae'n galluogi newid cadarnhaol yn y ffordd yr ydym yn recriwtio ac yn cadw ein tim." Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar breswylwyr blaenorol a phresennol YMCA Caerdydd ac mae llawer wedi crybwyll iddo ddangos ei fod yn bosib symud ymlaen o lety dros dro gyda chyfleoedd go iawn a llesiant gwell. Meddai un cyfranogwr, "Mae Aspire wedi rhoi cefnogaeth aruthrol i mi; ces i gymwysterau a cherdyn CSCS ynghyd â phrofiad gwaith. O fewn cwpl o wythnosau bu i mi sicrhau cyflogaeth amser llawn. Rhoddodd ymdeimlad o ddiben mewn bywyd i mi; Rwy'n teimlo'n werthfawr ac yn rhan o gymdeithas bob dydd eto."

Fel cymdeithas tai, rydym wedi bod yn rhan annatod o ddiwallu anghenion iechyd meddwl a chyflogadwyedd ein defnyddwyr gwasanaeth. Crëwyd pob cam o Aspire ochr yn ochr â thim cefnogi sydd eisoes yn sefydledig. O'r cychwyn cyntaf, gall cyfranogwr ddewis o ystod o sesiynau cyflogadwyedd ac ymwybyddiaeth iechyd meddwl, y maent oll yn cael ei gynnal nid nepell o'r hostel. Mae'r ffaith bod staff a phreswylwyr yn adnabod ei gilydd wedi creu cyfradd cymryd rhan a chwblhau wych ar yr hyfforddiant cyn-lleoliad 4 wythnos cychwynnol a'r lleoliadau gwaith dewisedig. Fel dull aml-asiantaeth cyfannol, mae wedi helpu llawer o bobl ddigartref i wella'u cyflogadwyedd ymhellach ynghyd â'u hymwybyddiaeth iechyd meddwl, a chael swyddi amser llawn.

Cyllidwyd Aspire yn y lle cyntaf trwy grant 18 mis o £75K i gyflogi cydlynedd. O ran darparu gwerth am arian rydym wedi gweld y byddai rhywun a gefnogir gan YMCA ac Aspire ar gyfartaledd yn costio:

£4,888 - Cyfraniadau Budd-dal Tai

£6084 - Aros mewn hostel

£699 - Cyngor a Chefnogaeth Ddigartrefedd

£2,197 - Gwasanaeth Iechyd Meddwl

£2,724 - Cais am Gartref/Digartrefedd

£16,592 - Cyfanswm cost y flwyddyn

Trwy rymuso preswylwyr gydag iechyd meddwl a chyflogadwyedd gwell rydym yn isafu drws cylchdroadol digartrefedd, gan ostwng y gost i wasanaethau statudol felly. Gyda 18 o gyfranogwyr wedi'u cartrefu a'u cyflogi, byddai'r swm a arbedir ychydig o dan £220,000.

Canlyniadau a chyflawniadau

Canlyniadau Gorffennaf 2016 - Awst 2019

Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

Mae 75% yn dioddef o gyflwr iechyd meddwl wedi'i ddiagnosio ac yn defnyddio gwasanaethau

Parodrwydd am y Gwaith

Roedd 75% o'r holl gyfeiriadau'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (y grŵp anoddaf ei gyrraedd yn ôl AGP)

Nifer y blynyddoedd yn ddi-waith ar y cyd yw 784 mlynedd Y cyfanswm amser yn ddi-waith fesul cyfeiriad yw dros 5 mlynedd

Mae 82% wedi mynychu cyfweiliadau swydd yn flaenorol ond nid yw 51% yn hyderus mewn sefyllfa cyfweiliad ar hyn o bryd

Mae gan y mwyafrif syniad o ba swydd sy'n peri diddordeb iddynt (81%), er hynny nid oes gan 37% unrhyw brofiad o'r yrfa honno.

Nid oes gan 68% ddillad neu ffurf ar adnabyddiaeth sy'n addas ar gyfer cyfweiliad

Canlyniadau

Gwnaed 152 o gyfeiriadau i Aspire

Mae 132 (87%) wedi ymwneud â phroses gyfeirio Aspire ar ôl cael eu cyfeirio

Nododd 94% fod Aspire wedi gwella'u llesiant yn gyffredinol

Dywedodd 88% eu bod wedi dysgu sgiliau newydd

Dywedodd 88% eu bod yn teimlo'n barotach ar gyfer y gweithle

Teimlodd 94% eu bod yn agosach at gyflogaeth gyda sgiliau cyfweiliad gwell

Mae 90 o gyfranogwyr wedi cwblhau lleoliad gwaith (68% o'r rhai dan sylw)

Mae 18 o gyfranogwyr wedi sicrhau cyflogaeth â thâl o ganlyniad i gwblhau'r cwrs a gwneud argraff yn ystod y lleoliad gwaith.

Mae 19 o fusnesau wedi cytuno i gynnig profiad gwaith i gyfranogwyr Aspire - gan greu 46 o rolau i ddewis ohonynt pan fydd unigolion yn barod am leoliad gwaith.

Grymuso a chynnwys cymunedau

Noddir gan

MEARS

Mae'r wobwr hon yn cydnabod dulliau llwyddiannus o gynnwys, grymuso a chefnogi tenantiaid a thrigolion i siapiau gwasanaethau, gyrru gwelliannau a chyflwyno newidiadau pwrpasol mewn sefydliad neu gyda'r gymuned.

Siop Griffiths

Grŵp Cynefin



Mae Grŵp Cynefin wedi cefnogi ei bartner, Siop Griffiths Cyf, i ddatblygu ei brosiect. Mae Siop Griffiths yn adeilad eiconig hanesyddol yng nghanol Penygroes, sydd â phoblogaeth o 1,700. Mae'r pentref wedi gweld llawer o siopau'n cau, yn ogystal â'r banc, dros flynyddoedd diweddar. Ymysg y rhain oedd yr hen haearnwerthwr, Siop Griffiths, y bu iddo gau yn 2010. Yn 2014 cysylltodd aelodau o'r gymuned â sefydliad gwirfoddol lleol i ofyn iddynt a allent wneud rhywbeth i achub yr adeilad. Cyflawnwyd ymgynghoriad cymunedol cychwynnol ar astudiaeth ddichonolrwydd ar gyfer yr adeilad, gan ychwanegu at ymgynghoriad â'r gymuned gyfan yn 2011. Allan o'r rhain daeth syniad i gael caffi, llety ymwelwyr a chanolfan ddigidol i bobl ifanc yn ogystal â chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, a gweithgareddau cymdeithasol.

Wythnos cyn i ganlyniad yr ymgynghoriad gael ei ddadorchuddio, cynigiodd y perchennog yr adeilad am bris rhatach, ond gyda chyfyngiad amser. Aeth y cyfarfod i lansio'r adroddiad yn lansiad apêl hefyd, sydd wedi codi £53,000 i brynu'r adeilad.

Ers hynny cynhaliwyd ymgynghoriad cymunedol arall, gan gynnwys yr ysgolion lleol, i benderfynu pa weithgareddau y dylid eu cynnal yn yr adeilad. Ar yr un pryd, ffurfiwyd Cymdeithas Buddiant Cymunedol, Siop Griffiths Cyf, i brynu a chadw'r adeilad gyda chlo ar asedau. Mae nifer y bobl ar y Bwrdd wedi tyfu o 6 i 13,

y maent oll yn byw o fewn milltir i Siop Griffiths. Ar hyn o bryd mae 6 o fenywod a 7 o ddynion ar y Bwrdd.

Mae Grŵp Cynefin wedi rhoi cyngor a chefnogaeth yn ystod y cyfnod codi arian, yn enwedig pan fethodd rhai o gynigion Siop Griffiths, a gyda grantiau sydd â graddfeydd amser gwahanol. At ei gilydd mae Siop Griffiths wedi codi £750,000 mewn cyfalaf a £90,000 mewn refeniw, gyda deuddeg o grantiau'n amrywio o £410,000 i £2,000.

Dros dair blynedd mae Grŵp Cynefin wedi helpu aelodau'r Bwrdd i ddatblygu sgiliau:

- cynllunio prosiectau
- codi arian
- rheoli datblygiad yr adeilad
- polisiau a gweithdrefnau

Mae Grŵp Cynefin hefyd wedi darparu cefnogaeth wrth i Siop Griffiths Cyf gyflogi ei weithiwr cyntaf (gweler isod).

Mae Siop Griffiths Cyf wedi gosod pwyslais mawr ar hysbysu'r gymuned am gynnydd ac mae'n ceisio adborth trwy'r amser i wella'r prosiect. Ceir adroddiadau rheolaidd yn y papur bro, y cyfryngau lleol (gweler <https://www.dailypost.co.uk/business/business-news/villages-historic-shop-bought-community-15885614> a <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/46437761> fel enghreifftiau), a thrwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol - ceir diweddariadau rheolaidd ar y dudalen facebook wreiddiol ([facebook.com/dn2020](https://www.facebook.com/dn2020)), a'r dudalen ar gyfer y caffi newydd (Yr Orsaf). Mae'r ddwy dudalen yn cynnwys sylwadau'r gymuned ar waith a gyflawnwyd gan Siop Griffiths Cyf.

Bydd Grŵp Cynefin bellach yn canolbwyntio ar gryfhau gallu'r gymuned i reoli'r prosiect pan gaiff ei agor yn llawn, ac yn gweithio gyda'r Bwrdd i sicrhau bod y busnesau'n cynhyrchu digon o incwm er mwyn i rhaglenni a gweithgareddau hyfforddi gweithwyr gael eu cyllido'n llawn o incwm a enillir, a bydd yn helpu Siop Griffiths i ddatblygu strategaeth gyllido ar gyfer y Ganolfan Ddigidol.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae'r cyflawniadau hyd yma yn cynnwys:

Achub adeilad eiconig hanesyddol

Codi dros £840,000 i'r gweithgareddau ailddatblygu (wedi'u cyllido'n llawn erbyn Gorffennaf 2019)

Agor caffi o dan drwydded (Yr Orsaf), sydd wedi creu 2 swydd amser llawn a thair swydd ran-amser (Chwefror 2019)

Cyflogi Swyddog Datblygu a Marchnata (Awst 2019)

Agor ystafell gymunedol i gynnal gweithgareddau (Medi 2019)

Agor canolfan ddigidol ar gyfer pobl ifanc (Hydref 2019)

Agor llety ymwelwyr (Ionawr 2020)

Mae'r canlynol yn cael eu datblygu hefyd:

Sefydlu cynllun prentisiaethau (yn amodol ar gais ar y cyd i Sefydliad Rank a'r Loteri - penderfyniad erbyn diwedd y flwyddyn)

Sefydlu busnes diddordebau awyr agored (yn amodol ar gais i Arfor - penderfyniad erbyn Tachwedd 2019).

Grub Hub

Cymdeithas Tai'r Rhondda



Datganiad o gefnogaeth

Mae Cymdeithas Tai'r Rhondda wedi'i lleoli o fewn ardal o amddifadedd uchel, gyda phroblemau sylweddol gysylltiedig â thlodi, iechyd gwael, lefelau sgiliau isel a chyflogaeth isel. Mae hyn wedi'i waethygu gan fesurau caledi a chyflwyno Credyd Cynhwysol, gan gynyddu pwysigrwydd prosiect bwyd cost isel a hygyrch.

Yn 2017 adnabuodd dau denant a fu'n gwirfoddoli angen am gefnogi'r rhai sydd mewn tlodi bwyd ac yn profi anhawster gyda diwygiadau lles felly gyda'n cefnogaeth ni crëwyd y prosiect Grub Hub. Grub Hub yw ein cynllun ailgylchu bwyd cymunedol, mae ar gael i bawb sy'n ei chael hi'n anodd fforddio bwyd, bwyd anifeiliaid anwes, nwyddau iechydaeth ac eitemau cartref hanfodol ac yn darparu cymorth ar sail wythnosol. Trwy ymdrin â thlodi bwyd ac effaith diwygio lles, rydym yn cefnogi'r rhai sy'n wynebu anhawster ac ar ben hynny mae'n cynnig y cam cychwynnol hanfodol o bwysig o gysylltu â ni ac yn cefnogi rheoli tenantiaethau'n well.

Rheolir Grub Hub gan ein tenant-wirfoddolwyr ymroddedig sy'n casglu bwyd dros ben o Farm Foods, Co-Op, Lidl a Greggs ac yn rhoi pecynnau bwyd wythnosol at ei gilydd. Mae'r gefnogaeth hanfodol reolaidd hon yn cynnig cymorth i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf ac yn atal gwastraff rhag cael ei dirlenwi. Nid oes unrhyw gost ariannol ar wahân i gostau cludo isel iawn (treuliau fesul milltir ar gyfer cludiadau), mae darparu pecynnau i denantiaid ac aelodau'r gymuned yn golygu y lleddfir y baich caledi ariannol ac y gall derbynyddion wario eu hincwm prin ar eitemau hanfodol eraill felly mae'n cynnig gwerth anhygoel am arian.

Trwy ymdrin â'r flaenoriaeth hon rydym hefyd wedi creu effaith amgylcheddol gymunedol gadarn sydd hefyd wedi creu wyth cyfle gwirfoddoli ar gyfer tenantiaid sydd wedi rhoi rhywbeth yn ôl i'w cymunedau o ddifri ac erbyn hyn wedi gwneud ffrindiau agos iawn a mynd i deimlo'n rhan o rywbeth arbennig sy'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i helpu pobl eraill.

Ymhen ychydig yn llai na dwy flynedd, mae'r prosiect Grub Hub wedi creu newid pwrpasol trwy gefnogi cannoedd o denantiaid sydd mewn tlodi bwyd yn y gymuned ehangach.

Dywedodd derbynyddion y prosiect:

"Pan stopiwyd fy mudd-daliadau I GYD am 11 wythnos, roedd yn anodd cario 'mlaen. Roedd ceisio cael bwyd dros fy hun a fy anifeiliaid anwes yn amhosib. Dwi wir ddim yn gwybod beth fyddwn wedi'i wneud heb Grub Hub!"

"Yn ariannol mae'n mynd yn anos talu'r holl filiau angenrheidiol a phrynu bwyd, hyd yn oed pan fyddwch chi'n gweithio. Maen nhw wedi bod yn help aruthrol ac erbyn hyn rwyf wedi derbyn cefnogaeth ychwanegol mewn ffyrdd eraill, ac nid oes gennyf

ôl-ddyledion rhent. Yn anffodus, mae llawer o leoedd yn rhoi pecynnau bwyd dim ond i bobl ddi-waith, ond mae llawer o bobl gyflogedig fel fi mewn angen hefyd.”

Rydym yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o ddiben a chyflawniad a ddaw gyda'r mathau amrywiol o wirfoddoli ac mae'r fenter hon yn enghraifft ddisglair o'r hyn all gael ei gyflawni trwy weithio ar y cyd i ddiogelu ein hamgylchedd a chefnogi cymunedau lleol. Mae un astudiaeth achos yn ymwneud â dyn ifanc o'r enw Logan:

Bu Logan gyda landlord cymdeithasol arall ac fe ymgeisiodd i Homefinder o ganlyniad i ASB a bwlio.

Mae'n dioddef gydag iselder, gorbryder, awtistiaeth ac OCD. Fe symudodd i mewn i un o'n cartrefi ym mis Awst 2017 a bu'n unig ac wedi'i encilio o ganlyniad i'w iechyd meddwl, ond fe ymgysylltodd â ni trwy'r rhaglen hon, gan ddechrau gwirfoddoli a chwrdd â ffrindiau newydd.

Ers iddo fynd yn denant-wirfoddolwr gwelwyd gwelliant mawr yn ei hyder a sgiliau cymdeithasol o ganlyniad uniongyrchol i gymryd rhan yn y prosiect hwn. Mae'n aelod allweddol o'r tîm ac yn wirioneddol frwd dros yr hyn y gall y cynnig cefnogaeth ei olygu. Mae wedi cwblhau cymwysterau hylendid bwyd a chwblhau lleoliad gwaith llwyddiannus mewn bwyty.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Grub Hub wedi darparu dros 1500 o becynnau bwyd i fwy na 900 o bobl

Dargyfeiriwyd tua 400,000 o dunelli o fwyd o gael ei wastraffu mewn safleoedd tirlenwi, gan gael effaith amgylcheddol gadarn

Rydym yn helpu i leddfu'r pwysau ar fanciau bwyd sydd eisoes â gormod o bwysau arnynt

Cynigiwyd cyfleoedd gwirfoddoli i 8 o denantiaid

Hyfforddwyd yr holl wirfoddolwyr mewn lechyd a Hylendid Bwyd, hyfforddiant Alergenau a thrin a thrafod â llaw

Datblygwyd partneriaethau â 4 cyflenwr bwyd lleol a chanolfan gymunedol leol - Canolfan Pentre, yr ydym yn rhoi'r bwyd dros ben iddynt ar gyfer digwyddiadau cymunedol

Ni sy'n cludo'r pecynnau bwyd Grub Hub felly nid oes stigma'n gysylltiedig â chasglu'r nwyddau.

I wella'r prosiect a sicrhau bod amrywiaeth o hanfodion cwpwrdd cegin bob amser ar gael, rydym yn codi arian i brynu eitemau ychwanegol. Mae tenant-wirfoddolwyr yn rhedeg 'Tuck Truck' wythnosol i staff, gan gynnig danteithion poblogaidd ar droli ar bob llawr o'n swyddfa.

Mae'r arian o werthu'r rhain yn prynu nwyddau iechydaeth menywod, cewynnau babanod, bwyd anifeiliaid anwes ac unrhyw eitemau eraill y gallai fod eu hangen ar y derbynnyddion. Mae'r tenant-wirfoddolwyr hefyd yn helpu ni i wneud brechwast bob dydd Gwener gan ddefnyddio'r eitemau popty dros ben o Lidl - gan wneud tost i roi hwb i'r cronfeydd.

Arloesedd cyfathrebu

Noddir gan **Linc**

Boed yn cyflwyno ymgyrch er budd cymdeithasol; yn delio gydag argyfwng neu ddim ond codi ymwybyddiaeth, mae cyfathrebu ardderchog yn hanfodol i bob cymdeithas tai. Mae'r wobwr newydd hon yn cydnabod timau tai (nid timau cyfathrebu penodol yn unig) sydd wedi dangos cyfathrebu eithriadol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Filling a void

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili



Datganiad o gefnogaeth

Mae cartrefi sy'n anodd i'w gosod yn creu heriau sylweddol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol. Yn ogystal â heriau ariannol colli rhent, ceir risg hefyd y bydd eiddo'n aros yn wag dros yr hir dymor a all ddenu ymddygiad gwrthgymdeithasol ac arwain at adfeiliad sylweddol, etc.

Yn hanesyddol bu gweithredoedd marchnata'r fath eiddo gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n gyfyngedig iawn, gyda rhestr sylfaenol yn unig o 'gartrefi sy'n barod i'w rhentu' yn cael ei chynhyrchu bob wythnos, wedi'u gyrru trwy e-bost i nifer o asiantaethau a'u huwchlwytho i wefan y cyngor. Ar wahân i'r rhestr hon, gwnaed ychydig iawn i farchnata'r cartrefi hyn yn weithredol.

Er mwyn ymdrin â'i nifer cynyddol o gartrefi gwag dros yr hir dymor, sefydlodd y cyngor weithgor a fu'n cynnwys staff timau Cyfathrebu a Thai Sector Cyhoeddus y cyngor i adolygu ei ddull o farchnata cartrefi sy'n anodd i'w gosod.

Cyflwynodd y gweithgor nifer o ddulliau marchnata, gan gynnwys arwyddion 'ar osod' syml, sy'n debyg i'r

rhai a ddefnyddir gan asiantau tai. Profodd y dull syml a chost isel hwn i fod yn arbennig o effeithiol ar gyfer cynlluniau tai lloches.

Lansiwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol 'Canfod Cartref ar Ddydd Gwener' gydag eiddo penodol yn cael ei amlygu bob wythnos ar dudalennau tai Facebook a Twitter penodol y cyngor. Yn ogystal â helpu cyrraedd demograffig iau, fe gynyddai ymwybyddiaeth darpar denantiaid o gartrefi sydd ar gael mewn ardaloedd eraill efallai nad oeddent wedi eu dewis ar eu ffurflen gais tai. Targedodd y Tim Cyfathrebu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol cymunedol hefyd, gan ofyn iddynt rannu eiddo i'w rentu sydd ar gael yn eu hardaloedd nhw; profodd hyn i fod yn effeithiol dros ben mewn rhai ardaloedd.

Defnyddiwyd hysbysebu y telir amdano mewn llawlyfrau staff y GIG hefyd er mwyn targedu cynulleidfa newydd o bobl nad oeddent wedi ystyried tai cymdeithasol yn flaenorol; gan daclo stigma tai cymdeithasol ar yr un pryd â helpu i ddod o hyd i denantiaid newydd. Dewiswyd y GIG gan fod eu staff yn aml yn adleoli i ardaloedd eraill ac mae un ardal sydd â nifer uchel o gartrefi anodd eu gosod wedi'i lleoli o fewn cyrraedd nifer o ysbytai.

Yn yr ardal hon lle bu nifer arbennig o uchel o gartrefi gwag, defnyddiwyd 'diwrnodau tŷ agored' i roi cyfle i ddarpar denantiaid weld y cartrefi sydd ar gael a siarad â staff tai.

O ganlyniad i'r marchnata a dargedir a ddefnyddiwyd yn yr ardal benodol hon, Rowan Place yn Rhymni, gosodwyd yr holl gartrefi gwag.

Er gwaethaf rhai llwyddiannau o ganlyniad i'r dulliau marchnata amrywiol a roddwyd ar waith, sylweddolodd y gweithgor fod angen iddo fynd hyd yn oed ymhellach i gyrraedd marchnad newydd o bobl sy'n chwilio am gartrefi. Mewn cam blaengar ar gyfer awdurdod lleol, dewisodd y grŵp werthwr eiddo lleol a dechreuodd farchnata ei gartrefi anodd eu gosod trwy Rightmove.

Trwy ddefnyddio Rightmove, mae'r cyngor yn cyrraedd demograffig hollol wahanol i'r rhai y byddent yn ymgeisio am dai cymdeithasol fel arfer. Yn aml ceir llawer o gamsyniadau o gwmpas tai cymdeithasol, e.e. dim ond derbynyddion budd-daliadau sy'n gymwys,

gan atal llawer o bobl rhag ymgeisio i'r gofrestr tai. Mae Rightmove wedi helpu cyrraedd demograffig llawer ehangach ac, yn ogystal â helpu'r cyngor i lenwi ei gartrefi gwag, mae wedi helpu chwalu'r mythau o gwmpas tai cymdeithasol.

Canlyniadau a chyflawniadau

Pan ddechreuodd y cyngor adolygu ei ddull o farchnata cartrefi anodd eu gosod, roedd ganddo restr a gynhyrchir yn awtomatig o tuag 20 o gartrefi'n rheolaidd. Ar hyn o bryd nid oes gan y cyngor unrhyw eiddo sy'n anodd i'w osod.

Ers i'r cyngor ddechrau defnyddio Rightmove mae wedi gweld cyfradd lwyddiant o 211%. Gosodwyd nifer uwch o gartrefi na'r rhai a hysbysebwyd o ganlyniad i un hysbyseb arwain at osod nifer o gartrefi.

Cydnabyddir bod cynnal tenantiaethau yr un mor bwysig â gosod cartrefi gwag. Hyd yma mae 89% o'r tenantiaethau a neilltuwyd trwy Rightmove wedi eu

cynnal.

Mae defnyddio Rightmove hefyd wedi dangos gwerth rhagorol am arian, gyda chyfanswm o £43,590 o arbedion hyd yma wrth gymharu costau hysbysebu a cholledion rhent blaenorol.

Yn ychwanegol at ostwng colledion rhent, mae llenwi cartrefi fu'n wag dros yr hir dymor hefyd yn gostwng costau ychwanegol a geir o ganlyniad i adfeiliad.

Yn bwysicach na hynny, trwy lenwi eiddo gwag mae'r cyngor yn helpu creu cymunedau cynaliadwy y gall pobl deimlo'n falch o fyw ynddynt.

Cymdeithas Tai Taf

Cymdeithas Tai Taf



Datganiad o gefnogaeth

Mae 2019 wedi gweld newidiadau mawr ar gyfer Taf; yn y gwasanaethau rydym yn eu cyflwyno a'r ffordd rydym yn eu darparu. Fel sefydliad rydym wedi symud tuag at gyflwyno dull a gyfeirir gan seicoleg ar draws pob adran trwy ddeall, os ceir cartref diogel, y daw popeth arall gydag ef.

Amlygodd yr adborth gan y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau y bu meysydd gwasanaeth cwsmeriaid yr oedd angen eu gwella. Arweiniodd hyn at adolygiad a gwblhawyd gan y Panel Craffu Tenantiaid a roddodd newidiadau ar waith sydd wedi cael effaith gadarnhaol anfesuradwy ar Denantiaid, Defnyddwyr Gwasanaeth a chyflogeion fel ei gilydd.

Roeddem yn uchelgeisiol o ganlyniad i ailstrwythuro ein Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid (TGC) a chynyddu nifer gweithredwyr y Tîm Atgyweiriadau (TA) o fewn cyfnod o 6 mis i wella cyflwyniad y gwasanaethau y gofynnodd Tenantiaid ar eu cyfer. Bu i ni bennu targedau uchel a chyflawni'r canlyniadau a ganlyn:

- Mae'r amser cyfartalog ar alwad wedi gostwng i 7 eiliad.
- Roedd boddhad ar y gwasanaeth atgyweiriadau yn 2019 yn 90%
- Dyblodd gosodiadau cegin i 80
- Cododd nifer y gosodiadau ystafell ymolchi o 20 i 100.

Mae ein tîm bach o 5 yn deall bod rhwystredigaethau pobl yn aml yn deillio o ddarlun ehangach ac maent yn ymroddedig i sicrhau bod gan bawb rywun arall i siarad â nhw. Mae ailstrwythuro'r TGC wedi sicrhau bod y rhai sy'n ffonio'n mynd trwy broses flaenoriaethu sydd wedi gostwng amserau aros galwadau ynghyd â datblygu 'siop un alwad' ar gyfer tenantiaid. Yn awr gall y sawl sy'n ffonio gael trafodaeth gydag arbenigwyr a all naill ai ddatrys eu problemau, trefnu apwyntiadau sy'n addas ar eu cyfer neu roi nhw mewn cyswllt â'r person iawn.

Gan sylweddoli bod 94% o'r holl alwadau a atebir gan TGC yn ymwneud â chynnal a chadw, adnabuwyd angen am ddarparu cefnogaeth well yn fewnol. Trwy ddatblygu tîm amserlennu, gall staff rheng flaen roi diweddariadau byw ar bob apwyntiad, gan ostwng nifer y galwadau a dderbynnir yn uniongyrchol

gan y TGC a sicrhau bod ein staff rheng flaen mor effeithlon â phosib ac y gallant ganolbwyntio ar gadw ein Tenantiaid yn ddiogel. Mae 'sgyrsiau blwch offer' rheolaidd yn rhoi diweddariadau i staff ar faterion cyfredol gan gynnwys trais yn y cartref, cogio, radialeiddio ac unigedd cymdeithasol er mwyn sicrhau y cedwir ein tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi. Os yw aelod o'r TA yn amau bod unrhyw un o'r materion hyn yn bodoli gallant gysylltu â'r amserlenwyr ar unwaith a fydd yn cysylltu â'r tîm priodol.

Trwy'r adolygiad, ynglŷn â'u nodwyd hefyd bod Tenantiaid yn hoffi gwybod pwy oedd yn dod i mewn i'w heiddo a'u bod yn ffafrio Staff Taf dros gontractwyr. Trwy ehangu ein tîm TA rydym wedi llwyddo i leihau'r ddibyniaeth ar gontractwyr a chynyddu'r gwasanaethau y gallwn eu cyflwyno'n fewnol. O ganlyniad uniongyrchol i hyn mae amserau aros tenantiaid wedi byrhau.

Gan gydnabod y bydd llawer o denantiaid yn aros

hyd nes eu bod yn ffonio, rydym wedi cyflwyno dulliau ennyn diddordeb newydd hefyd. Cynhyrchwyd cyfres o fideos 'Sut i:' i alluogi tenantiaid i helpu eu hunain ac mae'r Tîm hefyd wedi mynd i ddiwrnodau gweithgareddau cymunedol i roi arddangosiadau cynnal a chadw cartref.

I Danny, mae bod yn Beiriannydd Nwy yn fwy na swydd yn unig; "Tyfais i fyny mewn un o gartrefi Taf ac fel plentyn roeddwn i'n arfer holi'r peirianwyr a ddaeth i'n tŷ ynglŷn â'u crefftau a'r hyn a wnaethant i gael eu swydd...Mae gweithio ym maes tai'n teimlo fel ffawd - y peirianwyr hynny a ddaeth i fy nghartref pan oeddwn i'n blentyn oedd y rhai a fy ysbrydolodd ac rwy'n gobeithio y gallaf i ysbrydoli pobl eraill."

Mae pob aelod o'r staff Gwasanaeth Cwsmeriaid a'r TA yn rhoi angerdd i mewn i bob tasg. Gan hynny maent yn garedig, yn amyneddgar a byddant yn mynd cam ymhellach i sicrhau bod pawb yn derbyn y math o wasanaeth sydd ei angen arnynt.

Canlyniadau a chyflawniadau

Rydym wedi gostwng yr amser cyfartalog ar alwad i 7 eiliad ac wedi isafu ailgyfeirio pob person sy'n ffonio.

Bu i ni gynyddu boddhad ar wasanaeth cwsmeriaid i 94% a boddhad ar atgyweiriadau i 99%.

Rydym wedi llwyddo i ddatblygu rhaglen waith gynlluniedig a fydd yn ei dro yn gostwng costau'r sefydliad. Rydym wedi llwyddo i osod mwy o geginau ac ystafelloedd ymolchi nag erioed o'r blaen a rhoi dewis gwell i Denantiaid.

Mae ein tîm wedi llwyddo i dreulio mwy o amser yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt ac eleni rydym wedi trwsio to tŷ chwarae'r ysgol leol am ddim ar ôl iddi gael ei ddfirodi mewn

tywydd gwael, gosod cegin am ddim ar gyfer elusen leol ynghyd â thasgau eraill.

Mae ein staff yn hapus ac mae ein Tenantiaid yn hapus.

Rydym wedi derbyn maint syfrdanol o adborth, gan gynnwys:

"Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn hawdd mynd atynt. Barod i helpu ac yn hyblyg"

"Mae Taf mor ffodus i gael dyn mor ofalgar fel rhan o'u tîm, fe ragorodd ar bob disgwyliad."

"Nodyn bach i ddweud pa mor dda yr oedd Hamish pan ddaeth i drwsio fy nrws blaen, gwnaeth e bob ymdrech i gwblhau'r dasg ar yr un dydd ... Mae'n ddyn hyfyd ac yn gaffaeliad i chi."

Cefnogi cenedlaethau'r dyfodol

Noddir gan



Mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae er mwyn sicrhau bod Cymru'n lle gwych i fyw'n dda nawr ac yn y dyfodol. Mae'r wobwr hon yn cydnabod cyfraniad prosiectau blaengar sy'n ceisio cyflawni canlyniadau y bydd cenedlaethau i ddod yn elwa ohonynt.

Mannau Gwyrdd Yn Tyfu

Cymdeithas Tai Linc Cymru



Datganiad o gefnogaeth

Mae 'Mannau Gwyrdd Yn Tyfu' yn brosiect a ddatblygwyd gan Gymdeithas Tai Linc Cymru (Linc) ac a ariannwyd mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r prosiect wedi'i ymwreiddio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda ffocws ar ehangu mynediad i fannau gwyrdd er mwyn cynyddu lles. Mae'r prosiect yn anelu at ehangu mynediad mewn dwy ffordd. Un, trwy gefnogi cymunedau gyda chynghor, cyllid, cysylltiadau, brwdfrydedd a chaniatâd i gael gafael ar dir o'u cwmpas a'i ddefnyddio i gynyddu eu llesiant. Mae hyn wedi arwain at gerddi cymunedol, prosiectau bioamrywiaeth a thrwyddedu lleoedd parcio segur er mwyn i denantiaid ddatblygu gardd a lle chwarae ar gyfer trigolion lleol. Dau, trwy gydweithio â thimau datblygu a gweithredol i gynllunio mannau gwyrdd newydd o safon uchel i greu datblygiadau newydd a hwyluso newid sefydliadol. Un newid o'r fath yw cyflwyno torri gwair yn esmwyth i'n contractau tiroedd er budd bioamrywiaeth a chynyddu llesiant. Gan gydnabod y potensial i gymdeithasau tai fwyafu budd cenedlaethau'r dyfodol trwy'r fath waith, daw'r prosiect i ben gyda chynhadledd sy'n galw ar arbenigedd ein partneriaid.

Un enghraifft o'r fath waith cymunedol yw'r ardd gymunedol a bywyd gwyllt a ddatblygwyd gan denantiaid Orb Drive yn Llyswry, Casnewydd. Cysylltodd cymunedau â Mannau Gwyrdd Yn Tyfu i'w helpu ail-lansio diddordeb mewn llain lysiau fach a arweiniodd yn ei dro at gyfres o weithgareddau a ddyluniwyd gan wirfoddolwyr, gan gynnwys plannu dôl blodau gwyllt a gwaith addysg gyda sefydliadau fel Living Levels a Buglife. Yn ddiweddar rhoddodd y prosiect gefnogaeth i'r gwirfoddolwyr cymunedol i ennill Gwobr Gymunedol y Faner Werdd.

"Dyma'r flwyddyn gyntaf i ni roi gwobr i unrhyw safle yng Nghasnewydd ac mae'r Sefydliad bellach yn un o ddim ond dau safle cymunedol yng Nghasnewydd sydd â'r Wobr nodedig hon, felly mae'n cryn dipyn o gamp."

Lucy Prisk, Cadwch Gymru'n Daclus

"Mae'n gyffrous i fedru dod ynghyd gyda fy nghymdeithas a'r gymuned leol i wneud rhywbeth gwahanol. Mae'n hyfryd bod allan yn yr awyr agored mewn gofod gwyrdd ac yn wych i gael cynnyrch o'n llain lysiau ar y diwedd hefyd."

Caroline, un o drigolion Llyswry a gwirfoddolwr yn yr ardd gymunedol

Mae'r prosiect yn gydweithredol tu hwnt ac wedi cydweithio â dros 25 o bartneriaid gan alluogi grwpiau i gynllunio dros y tymor hwy gan ddefnyddio cysylltiadau ac arbenigedd y sefydliadau hyn.

"Mae Mannau Gwyrdd Yn Tyfu wedi cyfrannu at gynllun llesiant Casnewydd. Fel aelod gweithredol o'r rhwydwaith Gwyrdd a Diogel mae'r prosiect wedi gweithio ar y cyd â phartneriaid i helpu cyrraedd ein nodau a rennir o wella llesiant a bioamrywiaeth yn y gymuned."

Holly Butterworth, Rhwydwaith Gwyrdd a Diogel Casnewydd

Un ffocws gwaith y tim gweithredol yw addysg am newid yn yr hinsawdd. Mae ein swyddog prosiect wedi bod yn hwyluso ffurfio consortiwm o gymdeithasau tai Cymru i ddysgu Ymwybyddiaeth Carbon i'w gilydd,

dysgu rhwng cymheiriaid am nodweddion real newid yn yr hinsawdd a sut i gymryd camau cadarnhaol penodol i'r rôl wrth ymateb i hyn. Mae hyn eisoes wedi rhoi hwb i Linc roi dad-garboneiddio ar yr agenda i symbylu gwneud penderfyniadau.

"Mae Mannau Gwyrdd Yn Tyfu wedi cydweithio â ni i ddyfnhau eu dealltwriaeth o arwyddocâd y prosiect o ran newid yn yr hinsawdd. Bydd y math hwn o weithredu lleol yn adeiladu cydnerthedd cymunedol wrth ymateb i newidiadau byd-eang sylweddol."

Rhodri Hugh Thomas, Cynnal Cymru-Sustain Wales

Rydym wedi datblygu perthynas waith gref gyda'n cyllidwr allweddol yr ydym yn gobeithio parhau â hi yn y dyfodol.

"Mae wedi bod yn bleser gweld sut fydd y prosiect yn galluogi i genedlaethau'r dyfodol fod mewn cyswllt â'n cymunedau a'n hamgylchedd. Mae wedi newid ffordd o feddwl a chreu lleoedd mwy bywiog lle mae pobl yn iachach ac yn hapusach. Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru ddweud diolch yn fawr, rydym yn freintiedig tu hwnt i fod yn rhan o'r 'Prosiect Mannau Gwyrdd Yn Tyfu.'"

Miki Miyata-Lee, Cyfoeth Naturiol Cymru

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae'r prosiect wedi rhagori ar ei holl ganlyniadau cynlluniedig fel:

- Cyd-drefnu a galluogi 32 o ddigwyddiadau ennyn diddordeb, cynllunio neu blannu a arweinir gan y gymuned ledled De Cymru, gan annog pobl leol i gymryd rhan
- Mwyafu amgylcheddau bioamrywiaeth a naturiol trwy newid manyleb yr amserlenni plannu ar ddatblygiadau newydd
- Gan gydweithio â thros 25 o bartneriaid gwyrdd ac amgylcheddol gwahanol (gan gynnwys ysgolion, Living Levels, Sustrans, Cadwch Gymru'n Daclus, Buglife, Bumblebee Conservation Trust, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Gwent, Rhoi Cartref i Natur, Cyngor Dinas Casnewydd, Eglwys Sant Martin Caerffili, Bee friendly Newport a Chyfoeth Naturiol Cymru)

Ymysg y deilliannau a chyflawniadau allweddol ychwanegol mae:

- Aelod sefydlu'r 'Fforwm Greening your Housing Association'
- Adolygu polisi a chontract cynnal a chadw tiroedd Linc i wella bioamrywiaeth
- Gweithio gyda Chynnal Cymru i geisio creu consortiwm CT yng Nghymru i gyflwyno Ymwybyddiaeth Carbon yn eu sefydliadau.
- Sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol gyda rheolwyr tai
- Cydweithio'n agos â Phrif Weithredwr Linc ar ddull Ymwybyddiaeth Carbon Linc a chynllun busnes newydd Linc

Bydd y prosiect hefyd yn rhannu dysgu ac arfer gorau gan sefydliadau partner a Chymdeithasau Tai eraill ar draws Cymru mewn cynhadledd yng Nghasnewydd ar 2 Rhagfyr 2019.

Cyfuno - Ennyn diddordeb gan ddefnyddio diwylliant a threftadaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot

Tai Tarian



Datganiad o gefnogaeth

Yn 2017 Tai Tarian oedd yr unig Gymdeithas Tai i wneud cais llwyddiannus am gyllid Cyfuno o adran Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y cyllid i greu swydd cydlynedd sy'n datblygu ac yn gwella cysylltiadau a pherthnasoedd sydd eisoes yn bodoli gan ddefnyddio celf a diwylliant i ennyn diddordeb mewn dysgu a chreu llwybrau i gyflogaeth

Rhan annatod o'r gwaith hwn yw perthynas gyffrous a ddatblygwyd rhwng Tai Tarian ac Ysgol Bae Baglan, ysgol pob oed (3-16 oed) sydd â thros 1500 o ddisgyblion. Mae'r berthynas hon wedi canolbwyntio ar gyd-leoliad unigryw disgyblion o gefndiroedd heriol a thenantiaid Tai Tarian, yn benodol yn ardaloedd Sandfields/Aberafan, Llansawel ac ardal Melin yng Nghastell-nedd. Mae'r cydweithiwr yn gweithio gyda Tai Tarian, Ysgol Bae Baglan a phartneriaid i greu diwrnodau ymgysylltu gan ddefnyddio'r celfyddydau i ennyn agwedd gadarnhaol at ddysgu, ymchwilio i allgymorth i rieni ar ffurf cyfleoedd dysgu oedolion i wella llythrennedd, rhifedd ac, yn fwyaf pwysig, sgiliau gwybodaeth ariannol a chyflogadwyedd. Defnyddir diwylliant a'r celfyddydau fel 'bach'. Mae'r dull ennyn diddordeb hwn yn ymwreiddio craidd o sgiliau rhifedd a llythrennedd. Mae Tai Tarian yn cydweithio'n agos â phartneriaid gan gynnwys yr actor Michael Sheen, National Theatre Wales, a Ffilm Cymru

Mae rhaglen Tai Tarian yn ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan roi cefnogaeth benodol i Gymru Lewyrchus, Cymru o Gymunedau Cydlynus

a Chymru â Diwylliant Bywiog. Mae'n ymwreiddio'r pum dull o weithio a fynegir gan y ddeddf. Mae'n rhaglen hir dymor sy'n cynnwys plant ac wyrion tenantiaid yn fwriadol. Mae wedi'i integreiddio, gan anelu at ddefnyddio ei statws fel sefydliad angor o fewn y gymuned i agor drysau er mwyn i sefydliadau eraill ennyn diddordeb y gymuned a chyflawni eu nodau llesiant. Mae cyfranogiad yn rhan annatod o bopeth y mae'r rhaglen yn ei gyflawni. Mae Tai Tarian yn cydweithio â phartneriaid sy'n bell o'r byd tai - National Theatre Wales, Ffilm Cymru ac Amgueddfa Cymru - i gyflawni canlyniadau real a pharhaol ar gyfer ei denantiaid a'u plant.

Engbreiffiau o gyflawni'r Nodau Llesiant

Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru â diwylliant bywiog, Cymru lewyrchus, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru gydnerth

Gan gydweithio â disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, manteisiodd Tai Tarian ar waith celf 'Seasons Greetings' Banksy ym Mhort Talbot. Aethpwyd â disgyblion i'r gwaith celf a hwyluswyd trafodaeth o gwmpas yr effaith y mae'r gwaith celf wedi'i chael ar y dref, ymdeimlad o le a dyfodol y gwaith celf.

Ar sail hyn, cynhaliwyd gweithdai entrepreneuriaidd dros nifer o wythnosau, cymerodd disgyblion ddelwedd ddigidol o'r gwaith celf gan ei maintoli a'i siapio, ei throsglwyddo i ffabrig a chan greu cesys ffôn, cesys sbectol, a physiau. Cyfrifodd y disgyblion bris y deunydd, y bris unedol, amser fesul eitem a phris werthu. Gwerthwyd yr eitemau gyda'r elw yn mynd i'r ysgol

Cymru iachach, Cymru gydnerth, Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus

Sefydlwyd y dosbarthiadau arbed arian i rieni a phlant mewn partneriaeth â Dechrau'n Deg a'r awdurdod lleol. Dechreuodd y gweithdai hyn gyda sesiynau dawn a cherddoriaeth wedi'u hwyluso. Roedd yn amlwg yr arweiniodd y defnydd o ddawns a cherddoriaeth at awyrgylch a ganiataodd ymdeimlad o lesiant, gan alluogi cyfranogwyr i fod yn agored i dactio pynciau anodd cyllid personol a dyled. Roedd gwelliant sylweddol mewn agweddau at ddysgu ynghyd â chynnydd amlwg mewn llesiant yn sgil y gweithdai cerddoriaeth a dawn. Mae hyder wedi cynyddu ac mae'r grŵp yn dymuno parhau y tu hwnt i gyfnod y prosiect Cyfuno.

Canlyniadau a chyflawniadau

Er bod yr ystadegau o gwmpas y dangosyddion yn bwysig, mae'r gwelliant mewn hyder, llesiant, medru ymgymryd â thasg a'i dilyn trwodd i'r diwedd yn llwyddiannus wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar gam hollbwysig mewn bywydau unigolion a theuluoedd.

Mae defnyddio celf a threftadaeth wedi profi i fod yn sianel eithriadol ar gyfer ennyn diddordeb y rhai sy'n ddifreintiedig ac mae hynny'n arbennig o foddhaol o ystyried y prinder cynigion diwylliannol yn lleol (er bod y cynnig gan y gymuned yn ffynnu). Mae Tai Tarian wedi llwyddo i ennyn diddordeb cyfranogwyr ar destun gwybodaeth ariannol mewn ffordd na fyddai wedi bod yn bosib heb bartneriaid a pharodrwydd sector diwylliannol Cymru i gyfrannu o'u gwirfodd.

Hyd yma mae'r prosiect wedi:

Cefnogi 45 o deuluoedd gyda Dysgu Blynyddoedd Cynnar a Dysgu Fel Teulu mewn cyflogadwyedd a gwybodaeth ariannol.

Sicrhau gwirfoddoli rheolaidd ar gyfer 30 o unigolion fel llwybr i'r gwaith

Helpu 35 i wella'u sgiliau digidol

Helpu 69 o fyfyrwyr i ddangos gwelliant mesuradwy yn eu hagwedd at ddysgu ffurfiol ac, o bosib, cyrhaeddiad trwy ymwneud â diwylliant.

Rhoi strategaethau rheoli gwell i 58 o bobl o ran eu llesiant meddyliol, a gwelwyd gwelliant yn eu hiechyd corfforol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth.

Y sector rhentu preifat

Noddir gan **resource**
making it happen

Mae'r wobwr hon ar agor i unrhyw sefydliad sy'n gweithredu yn y sector rhentu preifat yng Nghymru ac i unrhyw asiantaeth gosod tai neu landlord sector preifat. Fe'i targedir at asiantau gosod tai neu landlordiaid sy'n anelu at ragoriaeth ym meysydd gwasanaethau cwsmeriaid ac arloesedd. Mae'r ceisiadau ar y rhestr fer wedi llwyddo i ddangos bod eu sefydliad yn gwneud pethau'n wahanol gan eu gwahaniaethu rhag y gystadleuaeth a bod arloesedd yn un o'u hanfodion at lwyddiant.

Asiantaeth Osod Serenliving

Pobl



Datganiad o gefnogaeth

Crëwyd asiantaeth osod Serenliving i fod yn asiant sy'n gymdeithasol gyfrifol a all gydbwysu anghenion tenantiaid a landlordiaid yn y sector rhentu preifat. Maent yn ymroddedig i godi safonau yn y sector rhentu preifat trwy gynnig gwasanaeth asiantaeth osod arfer gorau gyda phrif ffocws ar ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol.

Fel rhan o'r grŵp Pobl mae ganddynt wybodaeth, arbenigedd ac adnodd nad yw ar gael yn hwylus yn y sector rhentu preifat. Gall Serenliving wneud gwir wahaniaeth a helpu tenantiaid pan fydd arnynt ei angen, gan ddatblygu lefelau ardderchog o wasanaethau cwsmeriaid. Er enghraifft, roedd tenant diweddar a fu'n dioddef cam-drin yn y cartref yn gallu derbyn cefnogaeth gan Serenliving, a drefnodd i'r cloeon gael eu newid a CCTV gael ei osod gan sicrhau bod y tenant yn ddiogel.

Mae Serenliving yn hynod falch y cyfeirir atynt fel asiant yr ymddiriedir ynddynt sy'n cynnig gwasanaeth

rheoli eiddo ansawdd uchel i landlordiaid a thenantiaid. Fel asiantaeth osod nid er elw mae'n golygu y gallant ffocysu o ddifri ar yr hyn sy'n bwysig i'w landlordiaid a thenantiaid, ac ar yr un pryd helpu cefnogi'r gymuned leol. A hwythau'n rhan o'r Ymddiriedolaeth Pobl, aiff holl elw yr asiantaeth osod tuag at helpu pobl a chymunedau lleol. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, dyrannodd yr Ymddiriedolaeth hyd at £170,000 i wella ansawdd bywyd pobl a chymunedau yn yr ardaloedd maent yn gweithio ynddynt. Mae hyn yn bosib oherwydd i landlordiaid ddewis gweithio gyda'r asiantaeth osod. Yn ddiweddar gwnaethant helpu Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan gyda rhaglen ailsefydlu o'r enw 'The Woodshed' ar gyfer pobl sy'n dioddef gyda phroblemau iechyd meddwl. 'The Woodshed' yw un o nifer mawr o brosiectau y mae'r Ymddiriedolaeth Pobl wedi'u cefnogi.

Eleni mae Serenliving wedi dathlu eu pen-blwydd yn 10 mlynedd hefyd gyda rhai tenantiaid a landlordiaid yn mwynhau manteision eu gwasanaeth ers y dechrau, gan amlygu lefelau boddhad cwsmeriaid. Mae Mr Richards wedi byw mewn eiddo gyda Serenliving ers mis Awst 2008. Pan symudodd i mewn i'r fflat, roedd yn bwysig iddo gael cartref gydag asiant y gallai ymddiried ynddo a fyddai'n ei gefnogi pan aiff pethau o chwith a hynny heb orfod talu ffioedd uchel. Mae hyn wedi'i helpu gyda'i iechyd ac wedi galluogi iddo fyw ei fywyd heb ofid.

Mae Serenliving hefyd wedi datblygu cynllun gwarantu rhent gan iddynt sylweddoli bod y sector rhentu preifat yn mynd yn gynyddol bwysig o ran yr angen am ddarparu mwy o gartrefi yng Nghymru a bod angen anogaeth a chefnogaeth ychwanegol ar Landlordiaid weithiau i rentu eu heiddo allan. Atebodd y cynllun gwarantu rhent mewnol i un o bryderon mwyaf landlordiaid hefyd, sef derbyn rhent ar amser, a gwelwyd ei fod yn helpu landlordiaid i ymlacio'n fwy o ran rhentu eu heiddo allan.

Mae Mrs Payne wedi defnyddio'r asiantaeth osod ers 2017 ac wedi gweld eu bod yn wirioneddol yn cymryd y straen a phryder allan o rentu. Mae Mrs Payne wedi manteisio ar y warant rent fewnol sy'n golygu ei bod yn derbyn ei rhent yn brydlon bob mis, gan roi tawelwch meddwl iddi ynghyd â'r gallu i sicrhau bod y taliadau morgais yn cael eu gwneud ar amser.

Dywedodd Michelle, un o denantiaid Serenliving "Gwnaeth y ffordd yr ymdriniodd Serenliving â fy nghais wir argraff arnaf. O'ch herwydd gellid rheoli sefyllfa ofidus iawn, fe wnaethoch weithredu'n broffesiynol iawn ar bob adeg tra'n parhau'n gyfeillgar iawn ac yn hawdd mynd atoch. Ni fyddwn yn petruso am eiliad wrth argymhell Serenliving".

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Serenliving bellach wedi tyfu eu hasiantaeth yn llwyddiannus ac yn rheoli dros 700 o denantiaethau ar draws De-ddwyrain Cymru yn llwyddiannus. Maent yn cynnig amrywiaeth o gartrefi fforddiadwy ansawdd uchel i'w rhentu ac yn darparu gwasanaethau rheoli eiddo gan gynnwys cyngor a chefnogaeth, gan gydweithio ag ystod o sefydliadau, gan gynnwys partneriaid awdurdod lleol. A hwythau'n ymroddedig i godi safonau yn y diwydiant mae'r cartrefi a reolir trwy Serenliving i gyd o safon uchel, gan sicrhau diogelwch a chysur eu cwsmeriaid i gyd.

Gydag amrywiaeth fawr o opsiynau tai, gall Serenliving gynnig cartrefi i bawb, credyd cynhwysol, rhenti fforddiadwy a gosod proffesiynol.

Mae Serenliving yn falch o fod yn sefydliad nid er elw sy'n cefnogi'r Ymddiriedolaeth Pobl. Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestrdedig yng ngrŵp Pobl sy'n gwella ansawdd bywyd a chymunedau'n weithredol yn yr ardaloedd lle maent yn gweithio.

Hyd yma eleni mae'r ymddiriedolaeth wedi neilltuo dros £156,000 i 29 o achosion anhygoel gan gynnwys gwasanaethau a fwyafir ar gyfer cyn-filwyr sy'n ddi-gartref neu mewn perygl o fynd yn ddi-gartref i'w cefnogi i symud i lety o'u dewis.

Mae Serenliving yn falch y cyfeirir atynt fel asiantaeth leol yr ymddiriedir ynddi sydd o fudd i'r gymuned ac maent yn ymroddedig i ddarparu'r gwasanaeth cwsmeriaid gorau posib.

Creu lleoedd cadarnhaol

Noddir gan **Taylor Wimpey**

Mae'r wobwr hon yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol amrywiaeth o gyrff, sefydliadau a grwpiau lleol wrth adnewyddu ac adfywio cymunedau a chymdogaethau lleol. Mae'n cydnabod hefyd bod gwelliannau diriaethol yn mynd llaw yn llaw â datblygiadau cymdeithasol ac economaidd i wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl.

Tre Cwm

Cartrefi Conwy



Datganiad o gefnogaeth

Mewn lleoliad ar gyrion Llandudno, Gogledd Cymru, mae Tre Cwm yn ystâd 'trosglwyddiad stoc' o bron 400 o gartrefi a drosglwyddwyd o'r awdurdod lleol i Cartrefi Conwy yn 2008.

Bu i'r ystâd drefol ei naws hon a adeiladwyd yn hanesyddol dros nifer o gamau, ddiodef o ddiffyg rheolaeth ar gynllunio a thanfuddsoddi systemig a gyfrannodd at safle'r ardal o fewn 10% uchaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD, 2011). Roedd yr ardal wedi diodef o lefelau diweithdra uchel, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsiant eiddo uchel, gan gael ei dynodi'n ardal Cymunedau'n Gyntaf yn 2002.

Yn 2015 dechreuodd Cartrefi Conwy ddatblygu rhaglen uchelgeisiol i adfywio ac adnewyddu'r ystâd, gan ymgorffori anghenion y gymuned o fewn agenda'r dirwedd ehangach. Y canlyniad oedd ymddangosiad a newidiwyd yn sylweddol, mynediad a pharcio gwell, gofod gwyrdd lle bu concrit ac, gan gydweddu'n uniongyrchol â dyheadau'r gymuned - pwyslais penodol ar ddarpariaeth chwarae sy'n gweddu i amgylchedd lle byddai pobl eisiau magu

teulu. Anelodd y prosiect at wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl, gan newid canfyddiadau am yr ardal, creu hunaniaeth lleol, ymdeimlad o le a chymuned i ymfalchïo ynddo.

Ar ôl i'n cartrefi i gyd gyrraedd SATC yn 2012, gwelodd yr ystâd fuddsoddiad pellach o £1.2M trwy gynllun rendro allanol i wella ansawdd ac esthetig eiddo cyn buddsoddiad o £1.4M yn y gwaith tirlunio a ddechreuwyd yn 2017.

Mae'r prosiect adfywio ei hun wedi alinio'n agos â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac fe ddechreuodd gyda chyfres o dros 20 o ymgynghoriadau i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r materion sy'n effeithio ar bobl lleol, gan ffurfio briff dylunio cywir yn y pen draw a fyddai'n galluogi'r gymuned lleol i gyfeirio, siapio a chyflwyno'r gwaith trwy gyfres o dros 40 o brosiectau unigol. Defnyddiodd yr ymgynghoriadau dechnegau arloesol i ddatblygu darlun clir o sut mae trigolion yn gweld eu cymdogaeth, gyda 79% o drigolion yn rhoi ymateb negyddol. Bu'r ymgynghoriadau'n hollbwysig wrth bennu gwaelodlin i seilio gwelliannau dylunio arnynt cyn dychwelyd i'r gymuned i'w cymeradwyo, a gwnaethant roi ffocws clir i'r adfywio: Cyfleoedd chwarae gwell i blant, esthetig a gweithrediad gwell; ac amgylchedd diogel, cyfeillgar a glanach.

Dros y ddwy flynedd ddilynol, dyfeisiwyd syniadau i ddatblygu, cynllunio a gweithredu cynllun tirlunio effeithiol i wella amgylchedd diriaethol Ystâd Tre Cwm mewn ffordd gadarnhaol a fyddai'n sicrhau bod tenantiaid a thrigolion yn teimlo eu bod yn rhan o adfywio eu cymdogaeth ac yn cael eu gwerthfawrogi ynddo. Ymgorfforwyd cyfleoedd ennyn diddordeb, hyfforddiant ac addysg pryd bynnag y bu'n bosib, er mwyn creu gofodau gwyrdd dengar a gweithredol er budd a llesiant y gymuned.

Ers hynny mae'r ystâd wedi gweld newidiadau sylweddol wrth i 3000 o brysgwydd, 50 o goed lled-aeddfed ac 8000 o fylbiau blodau'r gwanwyn gael eu plannu gyda'r bwriad o annog bywyd gwyllt a

chadarnhau ymdeimlad o dymoroldeb ar ystâd sydd fel arall â naws drefol iawn.

Bu cyfranogiad y gymuned yn allweddol i hyn trwy ddiwyddiadau plannu bylbiau, cystadlaethau dylunio, gweithdy graffiti a chychoedd codi sbwriel, y maent oll wedi galluogi deialog parhaus â thrigolion trwy gydol y prosiect.

Gwelodd cyfarwydddeb gymunedol glir ddatblygiad tri gofod chwarae arloesol ac wedi'u teilwra, gan greu etifeddiaeth barhaus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Trwy gydweithio'n agos â Thim Datblygu Chwarae Conwy yn y camau ymgynghori a dylunio, crëwyd lleoedd sy'n gyfoethog o ran gwerth chwarae ond yn hawdd eu cynnal a chadw, gan gefnogi dull cynaliadwy o ddatblygu plant trwy chwarae.

Mae'r gofodau hyn hefyd yn helpu lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy wella bioamrywiaeth o ganlyniad i blannu coed a phrysgwydd a lleihau'r risg o lifogydd lleol trwy gronni dŵr glaw mewn pyllau coed a gwelyau plannu a ddyluniwyd yn benodol, gan gyfrannu at ostyngiad o 719m² yn yr arwynebedd anhydraid ar draws yr ystâd.

Trwy weithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau a chyllidwyr allanol fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Fferm Wynt Gwynt y Môr, Ysgol John Bright, Culture Action Llandudno, Cyngor Tref Llandudno, Heddlu Gogledd Cymru ac yn y blaen, mae'r gwaith adfywio wedi cyfrannu ymhellach at yr ardal leol trwy welliannau i fynedfa Ysbyty Llandudno, gwarchodfa natur leol Mynydd y Cwm a'r siop leol (hyb hanfodol yn y gymuned). Ceir prosiect celf lleol sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth leol hefyd a wnaed yn bosib trwy gyllid gan Sefydliad Paul Hamlyn a fydd yn darparu sgiliau celf a digidol i drigolion lleol dros gyfnod o ddwy flynedd, gyda gosodiad celf gyhoeddus ar wal 140 metr ei hyd ar ffin yr ystâd fel uchafbwynt.

I sicrhau bod y buddion cymdeithasol ac economaidd yn cael eu profi gan y gymuned ehangach, cyflwynwyd y contract £1.4M dros 18 mis. Gweithiodd 84 o bobl ar y prosiect, 98% ohonynt o Ogledd Cymru, dau drigolyn a huriwyd o gymuned tre Cwm gydag 20 o dreialon gwaith i denantiaid di-waith ac amrywiaeth o fuddion cymunedol ychwanegol.

Canlyniadau a chyflawniadau

Yn ddi-os mae'r cynllun adfywio wedi cael effaith sylweddol, yn bennaf trwy'r ymddangosiad gweledol a 'theimlad' y gymdogaeth. Mae trigolion wedi sylwi sut mae'r ardal yn teimlo'n brafach, yn fwy diogel ac yn daclusach, ac mae canfyddiadau'r rhai nad ydynt yn drigolion wedi newid hefyd. Dyma, efallai, y canlyniad pwysicach gan fod canfyddiad yn gysylltiedig â hyder ac mae angen i bob cymuned ffyniannus gael hyder ynddi'i hun.

O ganlyniad i'r prosiect mae'r hyder yma wedi ymddangos trwy gynnydd yn nifer y trigolion sy'n defnyddio Canolfan Gymunedol Tŷ Llewelyn gerllaw ar gyfer cyrsiau hyfforddi, clwb swyddi a digwyddiadau cymdeithasol. Ffurfiwyd Grŵp Gweithredu Tre Cwm

hefyd, o drigolion sydd â buddiant a rennir yn eu cymuned.

Cydnabuwyd hyn yn ddiweddar wrth i wobwr nodedig y Faner Werdd gael ei dyfarnu i'r ystâd am ragoriaeth amgylcheddol a chyfranogiad cymunedol, un o ddwy ystâd dai'n unig yng Nghymru i dderbyn y fath glod.

Gyda chymaint o bwyslais ar chwarae trwy gydol y gwaith adfywio, mae Tim Datblygu Chwarae Conwy wedi cynnal arolygon ar ôl cwblhau i bennu sut mae plant lleol yn teimlo am y gwelliannau. Bu'r canlyniadau'n drawiadol ac mae'r Tim Datblygu Chwarae bellach yn defnyddio'r gofodau chwarae hyn fel enghreifftiau o arfer gorau gyda sefydliadau eraill.

Glan Morfa

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn



Datganiad o gefnogaeth

Mae 'Glan Morfa - Westbourne Avenue' yn brosiect tir llwyd £2.3m yn Y Rhyl, Sir Ddinbych, a gwblhawyd gan Cymdeithas Tai Clwyd Alyn fesul cam ym misoedd Ionawr a Mehefin 2019. Mae'n darparu 16 o gartrefi fforddiadwy mewn lleoliad glan dŵr syfrdanol gyda phedwar cartref teuluol 3 ystafell wely a deuddeg o fflatiau 1 a 2 ystafell wely pellach sy'n edrych dros lyn trefol.

Mae'r datblygiad, a leolir o fewn parth adfywio dynodedig, yn darparu porth tirnod i gyrion gorllewinol y dref, gan helpu i'w trawsnewid i le gwych i fyw - i'r fath raddau i beri i un o'r trigolion newydd sylwi: "Rydym yn hapus iawn fan hyn - mae fel ein bod wedi ennill y loteri ac yn byw ar Rodfa'r Miliynyddion y Riviera!"

Ac yntau o fewn rhai canllathau o'r traeth a pharc manwerthu newydd ar gyfer y safle ei hun, ac wedi'i amgylchynu â thai teras yr oes Fictoraidd a busnesau bach lleol, bu'r safle ei hun, sy'n agor ar y llyn, yn wag am nifer o flynyddoedd ac yn hyllbeth i drigolion lleol a'r nifer cynyddol o fusnesau ac ymwelwyr sy'n cael eu denu i'r ardal.

Mae'r cartrefi newydd wedi eu dylunio'n brydfarth at safon esthetig uchel - gan annog ymdeimlad go iawn o falchder - rhywbeth sy'n rhan annatod o weledigaeth Cymdeithas Tai Clwyd Alyn ar gyfer yr ardal. Mae'r cartrefi hefyd wedi'u dylunio at safon aur 'Diogel trwy Ddyluniad', gan alluogi trigolion i deimlo'n ddiogel ac yn sefydlog yn eu cartrefi, ac maent yn elwa o osodiadau system chwistrellu a ddyluniwyd yng Nghymru.

Gweithredwyd Polisi Gosod Lleol i gynyddu sefydlogrwydd a darparu cymuned gynaliadwy, gan

osod i bobl sy'n byw neu'n cael eu cyflogi'n lleol fel blaenoriaeth i ostwng y gyfradd trosiant tenantiaethau a chyflawni cydbwysedd o aelwydydd, gan sicrhau ymdeimlad cryfach o gysylltiad, perthyn ac ymroddiad i'w cartref a'u hardal leol, gan rymuso trigolion i gynnal rhwydweithiau cymdeithasol newydd a phresennol a chymryd rhan yn eu gweithgareddau, cyfleusterau a grwpiau cymunedol lleol.

Meddai Yvonne Cole, sy'n Swyddog Tai: "Rydym wedi cael adborth arbennig gan y trigolion sy'n dwlu ar eu cartrefi. Mae'r lleoliad, ynghyd â dyluniad y cartrefi i fanteisio i'r eithaf ar y lleoliad, wedi bod yn gymorth mawr wrth greu ymdeimlad o gymuned, hunan-gred a balchder gyda phobl yn codi llaw o'u balconïau wrth i gymdogion fynd heibio. Mae'n ddatblygiad hyfryd ac yn wir yn fy ngwneud yn wirioneddol falch o weithio i Cymdeithas Tai Clwyd Alyn hefyd.

Dechreuodd cwmni lleol o'r Rhyl, N.W.P.S.

Construction Ltd, ar y gwaith ym mis Mawrth 2018, gan ddefnyddio pren cynaliadwy lleol o Gymru a chwblhawyd y cynllun mewn dau gam, yn gynharach na'r disgwyl, ym misoedd Ionawr a Mehefin 2019.

Mae dyluniad dengar y fflatiau wedi'i ysbrydoli gan y lleoliad glan dŵr. Gellir cymharu nodweddion dylunio fel y cladin yn null pren a balconïau gwydr â chyfleusterau llety soffistigedig eraill mewn trefi glan môr ac ardaloedd llewyrchus eraill ble y byddai'r fath lety yn ennyn cenfigen unrhyw ddatblygwr preifat nodedig.

Defnyddiwyd cladin cyfansawdd, yn hytrach na rendr, i ddarparu amddiffyniad tymor hir deniadol i'r adeildd rhag y tywydd, a dewiswyd gorffeniadau deunydd a gwaith haearn dengar sy'n gofyn am ychydig iawn o gynnal a chadw, os o gwbl, gan ddarparu hirhoedledd hyd yn oed mewn lleoliad arfordirol sy'n profi gwyntoedd cryfion a glaw gyrru.

Mae'r cynllun yn ymgorffori triniaeth ecolegol fanwl hefyd trwy waliau ffiniol byw a thirlunio cynhwysfawr i ddenu bioamrywiaeth a meddalau natur drefol lleoliad y safle.

Mae ei nodweddion esthetig syfrdanol, ynghyd â'r gofodau byw a pharcio hael a gynigir (yn enwedig o ystyried ei gyd-destun trefol) wedi creu gofod byw dymunol tu hwnt y mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn ei reoli ar lefelau rhent tai cymdeithasol.

Galluogwyd y cynllun diolch i waith partneriaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru. Cynllun eiconig a nodedig sy'n arddangos cartrefi newydd fforddiadwy ar eu gorau gan wneud datganiad eofn dros y dref a'r rhanbarth ehangach.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae 'Glan Morfa - Westbourne Avenue' yn brosiect tir llwyd £2.3m yn Y Rhyl, Gogledd Cymru, a gwblhawyd gan Cymdeithas Tai Clwyd Alyn mewn dau gam ym misoedd Ionawr a Mehefin 2019.

Mae'r cynllun cartrefi cymysg yn darparu 16 o gartrefi fforddiadwy mewn lleoliad glan dŵr syfrdanol. Gyda phedwar o gartrefi teulu teras 3 ystafell wely a 12 o fflatiau 1 a 2 ystafell wely pellach sy'n edrych dros lyn trefol, rhoddwyd yr enw 'Glan Morfa' / 'The Waterside' i'r cynllun syfrdanol hwn.

Bydd gan y cynllun bach hwn, a grëwyd fel rhan o bortffolio adfywio ehangach sy'n cynnwys y gymuned leol, nifer o fudd-ddeiliaid ac asiantaethau partner,

effaith gadarnhaol enfawr, gan gynnig tai cymdeithasol nodedig mewn ardal a oedd wedi dirywio, gan drawsnewid y lleoliad ac ar ben hynny yr ymdeimlad o falchder cymunedol, gan ddod ag optimistiaeth, hunan-gred a grymuso i'r rhai sy'n byw yno.

Wedi'i ddylunio gyda manyleb o safon, yn esthetig ac i uchafu cynladwyedd ac effeithlonrwydd ynni, mae'n dlws pefriol mewn lleoliad glan llyn rhai canllathau o draethau ardderchog a chyfleusterau manwerthu newydd gyda golygfeydd pell o fynyddoedd Eryri. Fel y dywedodd un o'r tenantiaid newydd: "Mae fel ein bod yn byw ar Rodfa'r Miliynyddion ar y Riviera!" - Tai fforddiadwy ar ei orau ac enghraifft ddisglair i'r sector.

Llys Raddington

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn



Datganiad o gefnogaeth

Mae Llys Raddington yn gynllun tai newydd i bobl 60 oed ac yn hŷn sydd ag angen cefnogaeth a adnabuwyd, a dylunnir 15 o'r 73 o fflatiau un a dwy ystafell wely hunangynhwysol yn benodol ar gyfer y rhai sy'n byw gyda cholli'r cof.

Mae'r datblygiad, a leolir yng Nghanol Tref y Fflint yn Sir Y Fflint, Gogledd Cymru ac a adeiladwyd at safon uchel trwyddi draw gan Grŵp Adeiladu Anwyl, yn gynllun partneriaeth rhwng Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Housing Ltd., Cyngor Sir Y Fflint a Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun yn ddatblygiad allweddol fel rhan o gynllun adfywio 'Cynllun Meistr 2021 Y Fflint' Cyngor Sir Y Fflint. Dechreuodd gwaith ar y safle yn 2016 a symudodd y tenantiaid cyntaf i mewn pan gwblhawyd y cynllun ym mis Hydref 2019.

Trwy gydol yr holl gamau, o ddylunio i gyflwyno, bu cyfranogiad agos y gymuned yn nodwedd allweddol gyda digwyddiadau ymgynghori'n cael eu cynnal mewn cyfleusterau cymunedol lleol gan gynnwys

Caffi'r Hen Lys, Y Fflint ac Eglwys Santes Fair a Dewi Sant. Trwy gydol y cyfnod adeiladu, defnyddiwyd yr Eglwys bob dydd Gwener i drigolion 'alw heibio' i godi unrhyw bryderon ac, o ganlyniad uniongyrchol i hyn, aeth yr eglwys yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol sy'n cynorthwyo gwella cydlyniant cymunedol. Mae Caffi'r Hen Lys gerllaw yn Y Fflint hefyd wedi mynd yn bwynt cyswllt cymunedol ar gyfer tenantiaid y cynllun gofal ychwanegol, gan oresgyn rhwystrau unigedd ac annog cyfranogiad yn y gymuned ehangach.

Bu i'r contractwyr, Anwyl Construction, ymrwymo hefyd i gyfres o fentrau cymunedol rhagorol, gan gynnal ymweliadau ysgol i annog plant o'r ddau ryw i ystyried gyrfau yn y crefftiau. Gweithiodd Anwyl hefyd gyda thrigolion un o gynlluniau byw yn annibynnol Cymdeithas Tai Clwyd Alyn i bobl a fu'n ddigartref i'w cefnogi trwy'r ardystiad diogelwch safle CSCS angenrheidiol i alluogi nhw i ennill profiad gwaith hanfodol. (Mae un o'r hyfforddeion hyn wedi symud ymlaen i ymgymryd â swydd amser llawn gyda'r cwmni).

Mae'r ymdeimlad o greu cymdogaeth fywiog, gan adeiladu ar ysbryd cymunedol gwych yr hen fflatiau, eisoes wedi sefydlu Llys Raddington fel ased bendigedig, nid yn unig i'r trigolion ond i'r dref yn gyffredinol.

Mae cysylltiadau parhaus rhwng y cenedlaethau gyda phlant ysgol lleol a'r trigolion yn profi i fod yn llwyddiant ysgubol gyda'r hen a'r ifanc fel ei gilydd yn elwa o'r amser a dreulir gyda'i gilydd.

Meddai Susie Lunt, Uwch Reolwr Arwain Gwasanaethau Oedolion Integredig Cyngor Sir Y Fflint: "Mae Sir Y Fflint wedi cydweithio'n agos â ChlwydAlyn i ddatblygu cynllun gofal ychwanegol tra chyfoes sy'n cefnogi unigolion hŷn i fyw mor annibynnol â phosib.

"Mae dull Cymdeithas Tai Clwyd Alyn o gefnogi'r

nod allweddol hwn yn golygu'n ymarferol eu bod wedi datblygu cynllun o fewn pellter cerdded i dref hanesyddol Y Fflint, mae dyluniad y cynllun yn galluogi annog annibyniaeth. Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn ymatebol i ddiwallu anghenion tai pobl; maent yn ymateb yn gyflym i anghenion newidiol pobl, ac maent wedi datblygu dealltwriaeth ragorol o anghenion tai a chefnogaeth pobl sy'n byw gyda dementia, gan gymryd model dyluniad dementia da Sterling i ystyriaeth".

Meddai un o'r trigolion Wilfred Bateman, 95 oed: "Rwy'n falch iawn fy mod wedi symud yma. Mae'n dda i deimlo fy mod yn rhan o bethau lle mae lot yn mynd ymlaen, mae gennyf fy fflat fy hun sy'n rhoi

preifatrwydd a gofod personol i mi."

Meddai un o'r trigolion Mrs Jacqueline Jones, 75 oed: "Rwy'n lleol i'r Fflint ac wedi gweld newidiadau enfawr yn yr ardal dros flynyddoedd diweddar. Mae cymaint o bethau'n mynd ymlaen nawr ac rwy'n teimlo fy mod yn byw reit yng nghanol rhywbeth sy'n wirioneddol dda."

Meddai Cerys Sullivan, merch un o drigolion Llys Raddington: "Mae symud i Lys Raddington wedi bod yn wych i fy mam, ac ar ben hynny mae wedi trawsnewid fy mywyd i hefyd. Mae gennyf gymaint o dawelwch meddwl - mae'n lle arbennig iawn."

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Llys Raddington yn gynllun gofal ychwanegol a gostiodd tua £10 miliwn yng nghanol Y Fflint, un o dri a gwblhawyd gan Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Housing Ltd ar ddiwedd 2018 mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ar draws Gogledd Cymru. Mae'r cynllun, a ddyluniwyd fel rhan annatod o Gynllun Adfywio Canol Tref Y Fflint, yn darparu 73 o fflatiau un a dwy ystafell wely hunangynhwysol o safon uchel dros bedwar llawr gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau cymunedol allweddol sy'n rhoi mynediad 24 awr i ofal a chefnogaeth ar gyfer trigolion 60 oed ac yn hŷn. Dyluniwyd 15 o'r fflatiau'n benodol ar gyfer pobl sy'n

byw gyda dementia.

O ddylunio i gyflwyno, mae Llys Raddington yn enghraifft arobryn o gynnwys y gymuned, gwaith partneriaeth bendigedig a gweledigaeth i drawsnewid lleoliad canol tref fel rhan ganolog o waith adfywio ehangach yr ardal. Ar safle twr uchel o fflatiau blaenorol, mae Llys Raddington yn enghraifft ddisglair o greu cymdogaeth wych sy'n dod â chwa o awyr iach i'r ardal a rhoi cymaint o ofal i greu cysylltiadau cymunedol â'r sylw i fanylder wrth ddylunio'r adeilad er mwyn sicrhau y gall pobl ffynnu a byw yn dda mewn cynllun gwych.

Hen Dŷ'r Ysgolfeistr

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn



Datganiad o gefnogaeth

Daeth y bartneriaeth rhwng datblygiad Hen Dŷ'r Ysgolfeistr yn Llanrwst â chyfuniad anarferol o arbenigwyr tai, gwasanaethau hamdden, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau pobl hŷn, cadwraeth a threfadaeth, dylunio ac adeiladu technegol ynghyd â chynghorwyr tref a chymuned, cynrychiolwyr cymunedol ac arbenigwyr iechyd a llesiant. A hwythau'n cynrychioli meysydd arbenigedd gwahanol, rhannodd pawb yr un weledigaeth o greu datblygiad unigryw sy'n glynu wrth yr ethos o rymuso pobl o bob oedran i fyw yn dda.

Ar gyfer y prosiect hwn roedd angen gwaith partneriaeth cydweithredol agos i sicrhau bod y cyfleuster yn gweddu i anghenion yr ardal, cadw nawws ddiledryw yr adeilad rhestredig gwreiddiol o'r 17eg ganrif a chydweddu â'r cyfleusterau eraill gerllaw (gan gynnwys meddygfa, swyddfeydd iechyd a'r cyfleuster gofal ychwanegol presennol). Bu reidrwydd i gydbwysu gofynion amrywiol anarferol y rhai sy'n defnyddio'r adeilad ar ôl ei gwblhau gan gynnwys y rhai ar draws y sir sy'n defnyddio'r gampfa a chyfleusterau cymunedol â rhai'r bobl sy'n byw yn y fflatiau gofal ychwanegol.

Trwy gydol y broses gyfan, o ddylunio i gyflwyno, roedd perthynas waith dda iawn yn amlwg gyda phob aelod o'r tîm partneriaeth amrywiol yn parchu'r rôl hanfodol a rannwyd gan bawb wrth gyflawni'r cyfleuster y mae angen mawr amdano.

Dyma rywfaint o'r adborth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

Yn ystod y tri mis cyntaf ar ôl agor 'Hwb Yr Hen Ysgol', roedd y cyfleuster hamdden iechyd a llesiant gwledig wedi...

- Denu 87 o aelodau newydd.
- Gweld 4,000 o ymweliadau â'r Hwb, gan gymryd rhan mewn amryw weithgareddau.
- Gweld dros 1,400 o ymweliadau ag un o'r deuddeg o ddsbarthiadau ffitrwydd a arweinir gan hyfforddwr a thri dosbarth ffitrwydd rhyngweithiol a gynhelir bob wythnos.
- Cynhelir tri dosbarth cyfeiriadau meddyg teulu prysur bob wythnos yn ogystal â phedair sesiwn ymgynghori â meddyg teulu bob wythnos, gyda sesiwn gampfa adfer calon ac ysgyfaint a dosbarth atal cwmpo yn y Stiwdio Gweithgareddau.
- Mae'r clwb cyfeillgarwch yn cwrdd unwaith y mis, hefyd cynhelir grŵp canu, dosbarthiadau dawns bob nos Lun ac mae'r grŵp U3A (Prifysgol y Drydedd Oes) yn cynnal grŵp dawns bob yn ail wythnos ar fore dydd Mawrth.

Meddai Aelod Cabinet Conwy, Y Cynghorydd Louise Emery, "Mae Hwb Yr Hen Ysgol a'r fflatiau gofal ychwanegol yn y cyfleuster newydd hyfryd hwn yn hybu ac yn uchafu llesiant, sy'n adlewyrchu ein nod o ddarparu'r amgylchedd iawn er mwyn i drigolion Conwy fod yn ddiogel, iach ac yn annibynnol."

Wrth agor yr Hyb Iechyd a Llesiant newydd yn swyddogol, meddai Julie Morgan, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: "Dyma enghraifft wych o'r math o gyfleusterau integredig all gael ei gyflwyno pan ddaw pobl a sefydliadau ynghyd gyda gweledigaeth a rennir ac ymrwymiad i gefnogi cymunedau yng Nghymru."

Symudodd Steven Potts, sy'n gwadriplegig, gyda'i wraig Karen i'r fflat newydd ar y llawr gwaelod yn y datblygiad, ac fe ddywedodd:

"Wrth ddod i fyw mewn un o'r fflatiau yn y rhandy newydd o eiddo a rentir yn breifat, roeddem yn ochelgar i ddechrau. Nid oeddem wedi clywed am gynlluniau tai Gofal Ychwanegol cyn hynny ac nid oeddem yn deall sut maent yn cefnogi pobl i fyw yn annibynnol. Roeddem ar fin cael ein gwneud yn ddigartref o ganlyniad i'n landlord ddod â'r denantiaeth i ben, felly ni allai'r cyfle fod wedi dod i'r amlwg ar amser gwell."

"A ninnau wedi byw yma ers saith mis bellach, mae ein hamheuron cychwynnol wedi'u chwalu'n llwyr. Mae safon y gofal a'r cyfleusterau heb eu hail. Yn gryno, yn ogystal â bod yn lle prydferth i fyw, a byw yn dda, mae'n hafan ddiogel a chroesawgar i'r rhai sydd angen hynny hefyd."

Mae Hen Dŷ'r Ysgolfeistr yn Llanrwst yn enghraifft o'r gorau oll mewn gwaith datblygu partneriaeth sy'n gwella bywydau am genedlaethau i ddod.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Hen Dŷ'r Ysgolfeistr yn Llanrwst yn ddatblygiad partneriaeth arloesol eofn rhwng Tai Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae'r datblygiad yn cyflwyno cyfleuster unigryw sy'n trawsnewid adeilad rhestredig gradd dau o'r 17eg ganrif i hwb iechyd a llesiant cyfoes gyda champfa a chyfleusterau ystafell gyfarfod cymunedol o'r enw 'Hwb Yr Hen Ysgol', ar yr un pryd mae'n darparu pedair fflat hunangynhwysol mewn rhandy i'r cynllun gofal ychwanegol presennol drws nesaf i'r adeilad.

Mae llwyddiant y datblygiad yn deyrnged i agwedd 'gwneud ein gorau glas' pawb dan sylw at weithio

i oresgyn heriau unigryw darparu campfa a lle cyfarfod o fewn yr un adeilad hanesyddol â phedair fflat gofal ychwanegol newydd, a'r canlyniad yw enghraifft ddisglair sy'n ysbrydoli pobl o bob oedran o ardaloedd gwledig ar draws y sir yn ogystal â'r rhai sy'n byw o fewn y cynllun, i fyw bywydau hapus ac iach.

Mae'r datblygiad yn gwthio ffiniau tai cymdeithasol, gwaith partneriaeth a gwaith ar y cyd yn wirioneddol er mwyn trawsnewid bywydau.

Mae 'Hwb yr Hen Ysgol' a'r fflatiau gofal ychwanegol fel ei gilydd yn cynrychioli penderfyniad ac angerdd pawb dan sylw i ddod o hyd i atebion creadigol newydd sy'n helpu grymuso pobl i fyw yn dda.

Y Felin - Treganna

Lovell



Datganiad o gefnogaeth

Ar safle hen felin bapur Arjo Wiggins Teape wrth Bont Elái, Caerdydd, mae'r Felin yn trawsnewid y safle tir llwyd 53 erw diffaith i un o gymunedau preswyl mwyaf atyniadol a chynaliadwy Caerdydd.

Mae'r partneriaid Lovell, Grŵp Tirion, Cymdeithas Tai Cadwyn, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth ariannol gan Gymdeithas Adeiladu Principality, yn datblygu un o'r prosiectau adfywio trefol mwyaf erioed yng Nghymru yn Y Felin, Treganna gydag 800 o gartrefi newydd. Gan ymdrin â'r angen am dai fforddiadwy, cynigir hanner y cartrefi am rent wedi'i ddisgowntio/cymdeithasol gyda Tirion, wedi'u rheoli gan Cadwyn, a bydd y cartrefi sy'n weddill ar gael i'w gwerthu ar y farchnad agored trwy Lovell. Ar ôl ei gwblhau'n llawn bydd yn cynnwys mannau gwyrdd cymunedol â pharc glan yr afon a hyb cymdogaeth ag amrywiaeth o siopau a Meddygfa a fydd yn ffurfio calon y datblygiad.

Gyda chamau 1a a Safle A eisoes wedi'u cwblhau mae'r 265 o gartrefi daliadaeth gymysg newydd

eisoes yn dod â chwa o awyr iach i'r llain hon o dir a esgeuluswyd yn flaenorol, gan gynnig cymdogaeth o safon uchel sydd ag ymdeimlad unigryw o le. Ceir cymysgedd o fathau o unedau sy'n amrywio o fflatiau un ystafell wely i gartrefi teulu pedair ystafell wely.

Mae gan y cynllun meistr a ddatblygwyd chwe egwyddor drosgynnol:

- Adfer tirwedd Afon Elái
- Lleoliad y gymuned gynaliadwy newydd
- Creu 'lle' sydd wedi'i ymwreiddio yn y dirwedd
- Creu cymuned seiliedig ar rwydwaith o strydoedd sy'n ffafrio cerddwyr, beicio a chlydiant cyhoeddus.
- Darparu cymysgedd o ddefnyddiau tai, masnachol a chymunedol
- Ansawdd a naws unigryw y dyluniad.
- Mae'r camau cyntaf wedi'u diffinio gan groywder y cynllun meistr, sydd wedi'i gyfeirio gan gyfyngiadau a chyfleoedd y safle. Y nodweddion pwysicaf:
- Mynediad ar hyd Meingefn y Gymdogaeth sy'n rhedeg o'r Dwyrain i'r Gorllewin
- Cysylltiad â Pharc Glan yr Afon trwy'r Strydoedd Gwyrdd sy'n rhedeg o'r Gogledd i'r De
- Gofodau a rennir fel ffocws y lleiniau datblygu i greu cymdogaethau penodol.

O'r cychwyn cyntaf y weledigaeth ar gyfer Y Felin oedd darparu cartrefi ansawdd uchel, hyblyg a chynaliadwy o fewn fframwaith y cynllun meistr yr oedd ganddo 'creu lle' fel prif ysgogydd. Cartrefi'n seiliedig ar rwydwaith o ofodau croyw ac ansawdd uchel a rennir gydag isadeiledd tirlun cryf i feithrin datblygiad cymuned newydd. Rydym yn falch o fod yn creu lle y gall pobl fyw a ffynnu ynddo a chreu cysylltiadau rhwng hanes cyfoethog a bywiog yr ardal, ei phresennol a'i dyfodol.

Yn awr mae ailddatblygu Y Felin yn darparu'r cysylltiad colledig hanfodol ar lwybr darluniaidd Afon Elái, gan alluogi pobl i werthfawrogi'r fioamrywiaeth gyfoethog a chynefinoedd amrywiol ar hyd yr afon o Sain Ffagan i Fae Caerdydd. Roedd Afon Elái yn rhan hanfodol o hanes yr ardal a llwyddiant y Felin. Bydd bioamrywiaeth gyfoethog yr ardal yn cael ei diogelu a'i gwella fel y bydd modd i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

Mae tîm y bartneriaeth wedi ennyn diddordeb y gymuned leol yn uniongyrchol ac wedi cyflawni nifer mawr o fentrau cymunedol. Yn benodol ein prosiect 'Ein Hatgofion o'r Felin' sy'n ceisio dod â phobl a fu'n gweithio ym Melin Arjo Wiggins ynghyd i rannu eu hatgofion a chreu etifeddiaeth ar gyfer y dyfodol. Bydd y prosiect yn parhau trwy gydol y datblygiad

wrth i ni ddathlu treftadaeth Y Felin ar draws y safle - yn benodol ym Mharc Glan yr Afon a chanol y pentref.

Yn ogystal â darparu cyfle adfywio anhygoel o ran datblygu safle tir llwyd, bydd Y Felin hefyd yn rhoi hwb gwerthfawr i'r diwydiant adeiladu lleol trwy ei ymrwymiad i ddefnyddio gweithwyr medrus o'r gymuned leol yn y datblygiad.

"Symudais i'r Felin oherwydd ei lleoliad bendigedig. Mae'n agos iawn at ysgol fy merch ac o fewn cyrraedd hwylus i Dreganna a'r tu hwnt. Rwy'n dwlu ar fyw yma ac mae'n teimlo fel pentref yn barod lle mae pawb yn adnabod ac yn cymryd gofal am ei gilydd. Mae fy merch wedi gwneud ffrindiau yn y stryd yn barod ac yn gallu chwarae allan yn ddiogel. Mae ymdeimlad cymunedol gwych wrth fyw yma." - Hannah - trigolyn

Canlyniadau a chyflawniadau

- Gwobrau Eiddo Insider - Gwobr Datblygiad y Flwyddyn 2019
- Gwobr Ansawdd NHBC Pride in the Job 2018
- NHBC - Gwobr Seal of Excellence 2018
- Gwobrau Darllenwyr First Time Buyer - Cartref Teuluol Gorau First Time Buyer 2018
- Un o'r llwyddiannau mwyaf hyd yma bu ein cwrs 'Get into Construction', a gyflwynwyd ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog. Rhoddwyd cyfle i 16 o oedolion ifainc lleol sy'n ddi-waith wella'u cyfleoedd cyflogadwyedd.
- Y Prosiect Tyfu'n Dda gyda chleifion o'r feddygfa - gardd newydd â phatio gyda mynediad i gadeiriau olwyn, a pharhau i gefnogi eu cynllun o helpu cleifion i ddysgu sut i blannu a thyfu ac ar yr un pryd gwneud ffrindiau a helpu nhw i oresgyn salwch.
- Crëwyd sied feiciau i storio beiciau Ysgol Gymraeg Treganna ar Sanatorium Road yn ddiogel, tarmacwyd llwybr newydd er diogelwch rhieni a gwarcheidwaid wrth iddynt gasglu eu plant a heriwyd y disgyblion trwy brosiect i enwi un o'r strydoedd ar y datblygiad.
- Cefnogwyd Gŵyl Caerau a Threlái, cymerwyd rhan yn y 'Fenter Rhoi ac Elwa', lle gwirfoddolodd pump o'u staff fel dyfarnwyr yng ngŵyl rygbi tag blynyddol Gleision Caerdydd gan godi dros £5 dros Ymchwil Canser Cymru yng Ngŵyl Badau Draig Caerdydd.
- Adnewyddwyd ystafelloedd newid Parc Jiwbil yn Nhreganna.

Cefnogi bywydau actif

Noddir gan

CARTREFI
CONWY
creu cymunedau i fod yn falch ohonynt
creating communities to be proud of

Mae'r ceisiadau ar y rhestr fer wedi medru dangos iddynt chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu cefnogaeth gysylltiedig â thai i amrywiaeth eang o bobl. Dylai prosiectau gydweithio'n uniongyrchol ag unigolion, teuluoedd a gofalgwyr i rymuso pobl i gael ansawdd bywyd dymunol, gan gefnogi eu nodau, uchelgeisiau a dyheadau trwy ddarparu cartrefi ac amgylchedd cefnogaeth o ansawdd da.

Hafan Cefni

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn



Datganiad o gefnogaeth

Mae Hafan Cefni'n enghraifft ddisglair o waith partneriaeth sydd wedi creu cyfle unigryw i bobl 60 oed ac yn hŷn fyw yn annibynnol ac yn ddiogel gyda mynediad i gefnogaeth 24 awr ar y safle. Mae'r cynllun yn gwneud llawer mwy na diwallu anghenion tai a chefnogaeth unigol tenantiaid, mae'n gwerthfawrogi eu cyfraniad at y gymuned hefyd ac yn grymuso nhw i barhau i fedru bod yn rhan o'r ardal leol.

Mae'r adeilad, a gwblhawyd at safon uchel gan Anwyl Construction Ltd, wedi ei gynllunio i osgoi corneli miniog a newidiadau cyfeiriad sydyn ac yn lle, cael newidiadau llyfn y gall pobl sydd â namau corfforol a'r rhai sy'n byw gyda cholli eu cof eu trafod yn fwy hwylus. Mae ardal y llawr isaf, a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, wedi'i chynllunio mewn ffordd debyg i ddarparu dolen o ofodau cerdded a fydd yn dychwelyd unrhyw un i'w fflat yn hwylus.

Mae fflatiau unigol wedi eu cynllunio ar hyd y trychiadau gan gynnwys drysau wedi'u cilannu i alluogi creu a defnyddio blychau cof a mynedfeydd

lliw i weithredu fel marcwyr lle o fewn yr adeilad, gan gynorthwyo ymdeimlad o gymuned a rhwyddineb trafod a chyflwynwyd y dyluniad mewnol gan arbenigwyr mewn dylunio sy'n llesol i dementia, gan fodloni safonau meincnod Prifysgol Sterling a galluogi tenantiaid i fyw yn gyfforddus a theimlo'n ddiogel.

Yn ogystal â thechnoleg Gofal Ychwanegol Warden Call Telecare, mae'r cynllun yn cynnwys technoleg fel dyfeisiau tracio crwydro, drysau patio â larwm arnynt a dyfeisiau synhwyro gwres, dŵr a nwy.

O'r cychwyn cyntaf, mae wedi bod yn ddatblygiad 'pobl yn gyntaf'. Mae ymrwymiad yr awdurdod lleol i adnabod a chefnogi'r angen tai arbenigol hwn wedi'i integreiddio gyda chyfleuster caffi hyb cymunedol eisoes wedi profi'n llwyddiannus. Symudodd y trigolion cyntaf i mewn ym mis Hydref 2018, ac mae'r caffi bellach wedi'i sefydlu fel canolbwynt i'r ardal.

Mae'r staff yn ddwyieithog er mwyn parchu dymuniadau ieithyddol tenantiaid a chyn agor i fyny fe ddaeth y Tim Gofal Ychwanegol ynghyd â Thim Gofal yr Awdurdod Lleol i gynnal te prynhawn er mwyn i bawb y dyrannwyd fflatiau iddynt a'u haelodau teulu a ffrindiau ddod ynghyd i gwrdd â'i gilydd, gan greu ymdeimlad cymunedol i'r gymdogaeth hyd yn oed cyn iddynt symud i mewn.

Mae cynnwys caffi ac ardaloedd cyffredin o gwmpas y fynedfa'n gweithredu fel cyswllt â'r gymuned ehangach wedi profi i fod yn ased hanfodol wrth rymuso tenantiaid sydd ag ystod eang o anghenion cefnogaeth i fyw'n annibynnol a chyfrannu'n weithredol at weithgareddau yng nghymuned ehangach tref Llangefni.

Adborth:

Gordon Barlow, 91 oed: "Fy newis i yn llwyr yw symud yma, ac rwy'n gwybod mai dyma'r penderfyniad iawn. Mae'n teimlo fel fy nghartref yn barod."

Michael Allmond, 85 oed: "Pan ddes i wybod yn gyntaf am Hafan Cefni, roeddwn braidd yn amharod i

adael fy mhentref lle roedd pawb mor gefnogol, ond erbyn hyn mae'r hen gymdogion hynny eisiau dod i aros gyda fi. Rwy'n gallu byw yn fwy annibynnol ac mae gofal a chefnogaeth ar gael pan fydd ei angen arnaf."

Brian Burt, 76 oed: "Mae'r lleoliad canolog yn fonws go iawn gan nad wyf yn gallu gyrru mwyach, felly gallaf fynd allan a theimlo fy mod yn rhan o bethau yn ogystal â chwrdd â phobl newydd yma. Mae'n lle hyfryd".

Alwyn Rhys Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn: "Rydym yn falch bod Hafan Cefni'n darparu cyfle i bobl leol aros yn annibynnol o fewn eu tenantiaeth eu hunain gyda mynediad i ofal. Mae'r cyfleuster arobryn hwn yn darparu dewis arall go iawn i ofal preswyl."

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Hafan Cefni ger canol Llangefni, Ynys Môn, gan ddarparu 63 o fflatiau hunangynhwysol o safon uchel, amrywiaeth eang o gyfleusterau cymunedol a chefnogaeth unigol ar gyfer pobl 60 oed ac yn hŷn ag angen a asesir, y mae 15 ohonynt wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer y rhai sy'n byw gyda cholli eu cof.

Mae'r prosiect hwn, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru, yn cynnwys hyb caffî cymunedol ar gyfer pobl yr ardal ehangach hefyd.

Mae'r cynllun yn darparu ateb rhagorol i angen tai penodol a adnabuwyd gan yr ardal leol, ac ar yr un pryd mae'n creu man cyfarfod bywiog ar gyfer pobl o

bob oedran.

Mae'r cynllun yn ddatblygiad meincnod gyda nodweddion dylunio allweddol i alluogi pobl sydd ag anghenion cefnogaeth amrywiol i fyw yn annibynnol. Mae nodwedd allweddol y caffî cymunedol integredig o fewn y cynllun wedi creu hyb cymdeithasol y mae ei angen yn fawr ar y gymuned leol ar yr un pryd â sicrhau bod y trigolion eu hunain yn teimlo eu bod yn rhan ganolog o gymdogaeth newydd a bywiog, gan oresgyn teimladau o unigedd cymdeithasol. Helpodd cyfranogiad cynnar y darparwyr gwasanaethau cymunedol lleol, Agewell, i gyfeirio'r broses hon a dyluniwyd y cynllun yn unol â meincnod 'Designed for Dementia' Prifysgol Sterling hefyd.

Llys Raddington

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn



Datganiad o gefnogaeth

Mae Llys Raddington yn gynllun tai newydd i bobl 60 oed ac yn hŷn sydd ag angen cefnogaeth a adnabuwyd, a dylunnir 15 o'r 73 o fflatiau un a dwy ystafell wely hunangynhwysol yn benodol ar gyfer y rhai sy'n byw gyda cholli'r cof.

Mae'r datblygiad, a leolir yng Nghanol Tref y Fflint yn Sir Y Fflint, Gogledd Cymru ac a adeiladwyd at safon uchel trwyddi draw gan Grŵp Adeiladu Anwyl, yn gynllun partneriaeth rhwng Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Housing Ltd., Cyngor Sir Y Fflint a Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun yn ddatblygiad allweddol fel rhan o gynllun adfywio 'Cynllun Meistr 2021 Y Fflint' Cyngor Sir Y Fflint. Dechreuodd gwaith ar y safle yn 2016 a symudodd y tenantiaid cyntaf i mewn pan gwblhawyd y cynllun ym mis Hydref 2019.

Trwy gydol yr holl gamau, o ddylunio i gyflwyno, bu cyfranogiad agos y gymuned yn nodwedd allweddol gyda digwyddiadau ymgynghori'n cael eu cynnal mewn cyfleusterau cymunedol lleol gan gynnwys Caffi'r Hen Lys, Y Fflint ac Eglwys Santes Fair a Dewi Sant. Trwy gydol y cyfnod adeiladu, defnyddiwyd yr Eglwys bob dydd Gwener i drigolion 'alw heibio' i godi unrhyw bryderon ac, o ganlyniad uniongyrchol i hyn, aeth yr eglwys yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol sy'n cynorthwyo gwella cydlyniant cymunedol. Mae Caffi'r Hen Lys gerllaw yn Y Fflint hefyd wedi mynd yn bwynt cyswllt cymunedol ar gyfer tenantiaid y cynllun gofal ychwanegol, gan oresgyn rhwystrau unigedd ac annog cyfranogiad yn y gymuned ehangach.

Bu i'r contractwyr, Anwyl Construction, ymrwymo hefyd i gyfres o fentrau cymunedol rhagorol, gan gynnal ymweliadau ysgol i annog plant o'r ddau ryw

i ystyried gyrfa yn y crefftau. Gweithiodd Anwyl hefyd gyda thrigolion un o gynlluniau byw yn annibynnol Cymdeithas Tai Clwyd Alyn i bobl a fu'n ddigartref i'w cefnogi trwy'r ardystiad diogelwch safle CSCS angenrheidiol i alluogi nhw i ennill profiad gwaith hanfodol. (Mae un o'r hyfforddeion hyn wedi symud ymlaen i ymgymryd â swydd amser llawn gyda'r cwmni).

Mae'r ymdeimlad o greu cymdogaeth fywiog, gan adeiladu ar ysbryd cymunedol gwych yr hen fflatiau, eisoes wedi sefydlu Llys Raddington fel ased bendigedig, nid yn unig i'r trigolion ond i'r dref yn gyffredinol.

Mae cysylltiadau parhaus rhwng y cenedlaethau gyda phlant ysgol lleol a'r trigolion yn profi i fod yn llwyddiant ysgubol gyda'r hen a'r ifanc fel ei gilydd yn elwa o'r amser a dreulir gyda'i gilydd.

Meddai Susie Lunt, Uwch Reolwr Arwain Gwasanaethau Oedolion Integredig Cyngor Sir Y Fflint: "Mae Sir Y Fflint wedi cydweithio'n agos â ChlwydAlyn i ddatblygu cynllun gofal ychwanegol tra chyfoes sy'n cefnogi unigolion hŷn i fyw mor annibynnol â phosib.

"Mae dull Cymdeithas Tai Clwyd Alyn o gefnogi'r nod allweddol hwn yn golygu'n ymarferol eu bod wedi datblygu cynllun o fewn pellter cerdded i dref hanesyddol Y Fflint, mae dyluniad y cynllun yn galluogi annog annibyniaeth. Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn ymatebol i ddiwallu anghenion tai pobl; maent yn ymateb yn gyflym i anghenion newidiol pobl, ac maent wedi datblygu dealltwriaeth ragorol o anghenion tai a chefnogaeth pobl sy'n byw gyda dementia, gan gymryd model dyluniad dementia da Sterling i ystyriaeth".

Meddai un o'r trigolion Wilfred Bateman, 95 oed: "Rwy'n falch iawn fy mod wedi symud yma. Mae'n dda i deimlo fy mod yn rhan o bethau lle mae lot yn mynd ymlaen, mae gennyf fy fflat fy hun sy'n rhoi preifatrwydd a gofod personol i mi."

Meddai un o'r trigolion Mrs Jacqueline Jones, 75 oed: "Rwy'n lleol i'r Fflint ac wedi gweld newidiadau enfawr yn yr ardal dros flynyddoedd diweddar. Mae cymaint o bethau'n mynd ymlaen nawr ac rwy'n teimlo fy mod yn byw reit yng nghanol rhywbeth sy'n wirioneddol dda."

Meddai Cerys Sullivan, merch un o drigolion Llys Raddington: "Mae symud i Llys Raddington wedi bod yn wych i fy mam, ac ar ben hynny mae wedi trawsnewid fy mywyd i hefyd. Mae gennyf gymaint o dawelwch meddwl - mae'n lle arbennig iawn."

Canlyniadau a chyflawniadau

Mae Llys Raddington yn gynllun gofal ychwanegol a gostiodd tua £10 miliwn yng nghanol Y Fflint, un o dri a gwblhawyd gan Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Housing Ltd ar ddiwedd 2018 mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ar draws Gogledd Cymru. Mae'r cynllun, a ddyluniwyd fel rhan annatod o Gynllun Adfywio Canol Tref Y Fflint, yn darparu 73 o fflatiau un a dwy ystafell wely hunangynhwysol o safon uchel dros bedwar llawr gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau cymunedol allweddol sy'n rhoi mynediad 24 awr i ofal a chefnogaeth ar gyfer trigolion 60 oed ac yn hŷn. Dyluniwyd 15 o'r fflatiau'n benodol ar gyfer pobl sy'n

byw gyda dementia.

O ddylunio i gyflwyno, mae Llys Raddington yn enghraifft arobryn o gynnwys y gymuned, gwaith partneriaeth bendigedig a gweledigaeth i drawsnewid lleoliad canol tref fel rhan ganolog o waith adfywio ehangach yr ardal. Ar safle twr uchel o fflatiau blaenorol, mae Llys Raddington yn enghraifft ddisglair o greu cymdogaeth wych sy'n dod â chwa o awyr iach i'r ardal a rhoi cymaint o ofal i greu cysylltiadau cymunedol â'r sylw i fanylder wrth ddylunio'r adeilad er mwyn sicrhau y gall pobl fyfnnu a byw yn dda mewn cynllun gwyach.

Cynllun Gorseion

Cymdeithas Tai First Choice



Datganiad o gefnogaeth

Yn ddiweddar mae'r Gymdeithas wedi cyflwyno cynllun Cyd-gynhyrchu llwyddiannus yng Ngorseion, Abertawe. Datblygodd Cymdeithas Tai First Choice 8 o fflatiau ar safle partneriaeth gyda Grŵp Tai Coastal yn datblygu gweddill y safle. Cefnogodd y cynllun anghenion tai Dinas a Sir Abertawe trwy ddarparu llety addas ar gyfer wyth o denantiaid sydd ag anabledau dysgu.

Ystyriwyd bod y safle'n addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig oherwydd ei agosrwydd at amwynderau lleol a llwybrau bws trwy Gorseion. Mae datblygiad CTFC yn cynnwys 8 x fflat 1 ystafell wely a ddarperir ar draws tri llawr i bobl sydd ag anabledau dysgu. Mae'r datblygiad hefyd yn cynnwys darpariaeth staff cysgu ar y safle ac ardal 'sgiliau bywyd' cymunedol ar gyfer ein tenantiaid ar y llawr gwaelod. Yn allanol; mae'r datblygiad yn elwa o barcio digonol ar gyfer tenantiaid, staff ac ymwelwyr, ardal gardd gymunedol, cyfleusterau storio allanol a rheseli beiciau.

Cwblhawyd y cynllun yn llwyddiannus mewn partneriaeth â Grŵp Tai Coastal, Dinas a Sir Abertawe,

Mirus (y Darparwr Cefnogaeth), Focus Construction a Grŵp Jehu.

Cyllidwyd y cynllun trwy gymysgedd o Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Grant Cyllid Tai a chyllid preifat CTFC. Cofleidiodd y cynllun waith ar y cyd a phartneriaeth yn wirioneddol rhwng landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, Dinas a Sir Abertawe, Mirus a Llywodraeth Cymru, gan ddarparu llety arloesol priodol ar gyfer ein tenantiaid. Cwblhawyd y cynllun ym mis Mawrth 2019. Ymgynghorwyd yn gynhwysfawr â budd-ddeiliaid ar ffurf cyfarfodydd rheolaidd gan alluogi'r Gymdeithas i ymdrin â cheisiadau ychwanegol budd-ddeiliaid am sicrhau bod y datblygiad yn diwallu anghenion tenantiaid yn y ffordd orau.

Dylunio

Trwy drafodaethau ac ymgynghori ynglŷn â'r dyluniad a chefnogaeth gan Ddinas a Sir Abertawe, mae'r cynllun yn cynnig cysur a diogelwch i denantiaid yn eu cartref newydd. Mae'r ddarpariaeth cysgu ar y safle i staff yn darparu cefnogaeth angenrheidiol i denantiaid fel y bo angen. Mae'r ardal gymunedol ar lawr gwaelod y datblygiad yn cynnig cyfle i denantiaid ymwneud â'i gilydd, cymdeithasu a mynychu digwyddiadau sgiliau bywyd a gynigir gan y darparwr cefnogaeth, Mirus.

Manteision a chyflawniadau

Trwy waith cynhwysfawr ar y cyd gydag amryw fudd-ddeiliaid, mae'r datblygiad hwn wedi darparu llawer o fuddion a chyflawniadau gan gynnwys:

- Darparu llety â chefnogaeth addas ar gyfer wyth o denantiaid sydd ag anawsterau dysgu
- Cyfleusterau cymunedol i annog diddordeb tenantiaid a chymryd rhan mewn digwyddiadau sgiliau bywyd
- Dysgu sgiliau bywyd a mynd yn fwy annibynnol

- Cynyddu annibyniaeth tenantiaid a symud tuag at gefnogaeth ostyngol
- Cyfranogiad tenantiaid a rhyngweithio â'r gymuned leol
- Darparu lle y gallant ei alw'n gartref i denantiaid.

Wrth ofyn iddi "Pa effaith y mae b yw yn annibynnol wedi'i chael ar y bobl sy'n byw yma?" dywedodd Kathryn, un o weithwyr cefnogi Park Road wrthym:

- Coginiodd Todd farbeciw i 50 o bobl ac mae wedi bod allan ac o gwmpas yn y gymuned. Bu rhai adegau pan aeth e allan a siarad â phobl yn gyhoeddus, cael sgysiau a gwneud ffrindiau newydd, sy'n anhygoel.
- Mae Kirsty wedi bod allan nifer o weithiau nawr am apwyntiad harddwch ac ni fu angen i staff fynd gyda

hi. Coginiodd hi pizzas i bawb un nos, sy'n rhywbeth nad oedd hi'n gallu gwneud ar y dechrau gan nad oedd hi'n hyderus iawn wrth ddefnyddio'r ffwrn. Mae ei hyder wedi tyfu'n aruthrol ers dod i Park Road, a fu'n rymusol iawn i bawb arall, mae hi'n canmol pawb arall ac yn helpu pobl eraill i deimlo'n dda.

- Mae Aled wedi mynd i'r gampfa ar ei ben ei hun, sy'n anhygoel. Yn wreiddiol roedd e'n mynd gyda staff cefnogi.
- Mae James wedi bod yn mynd allan ac yn gwneud yr ardd

Mae Kathryn yn meddwl bod Park Road wedi datblygu fel ei gymuned fach ei hun ac yn meddwl ei fod yn syfrdanol.

Canlyniadau a chyflawniadau

Mewn fideo a grëwyd gan Mirus yn ddiweddar, wrth ofyn i'r tenantiaid "Beth ydych chi'n hoffi fwyaf am Park Road":

- Dywedodd Kirsty wrthym am fynd allan a mwynhau'r ffrindiau mae hi wedi'u gwneud yma.
- Dywedodd Todd wrthym mai'r peth y mae'n ei fwynhau fwyaf yw mynd allan yn y gymuned, gwneud ffrindiau yma a hefyd ei fod yn hoffi ei wethiwr allweddol, Kath.
- Dywedodd James wrthym ei fod yn mwynhau gwneud y gwaith plannu a'i fod yn dwlu ar bawb yma.
- Dywedodd Nathan wrthym ei fod yn hoffi'r holl aelodau staff a bod pawb yma yn gyfeillgar.
- Dywedodd Aled wrthym ei fod yn hoffi ei fflat ac yn teimlo fel ei fod wedi byw yno ers blynnyddoedd. Mae'n teimlo fel fy nghartref.

Wrth ofyn i'r tenantiaid "Beth ydych chi wedi gwneud

sy'n eich gwneud chi'n falch?":

- Siaradodd Kirsty â ni am gadw ei fflat yn lân.
- Dywedodd Todd wrthym am fod yn annibynnol, coginio a glanhau.
- Dywedodd Nathan wrthym am gwrdd â'r holl bobl newydd.

Wrth ofyn i'r tenantiaid "Bydd ydych chi'n meddwl fydd effaith byw yma?":

- Dywedodd Nathan ei fod yn fwy hyderus i fyw ar ei ben ei hun. Mynd allan â phobl ac aelodau staff i weld cyngerdd Slipknot yn fyw yng Nghaerdydd.
- Dywedodd Aled y gall dysgu mwy o sgiliau a bod yn fwy annibynnol

Wrth ofyn i'r tenantiaid "Beth yw eich barn chi am CTFC a Park Road?": Dywedodd Nathan wrthym fod First Choice yn landlord neis iawn.

Dyddiau Slawer Dydd (Vintage Days)

Linc Cymru



Datganiad o gefnogaeth

Er gwaethaf safonau uchel ar draws Cartrefi Byw yn Annibynnol Linc rydym yn gwybod ei fod yn hawdd i drigolion fynd yn sefydliadedig ac yn ddiflas. Mae llawer o drigolion yn wynebu neu'n byw gyda dementia a chyflyrau iechyd tymor hir, a gall hyn effeithio ar eu hiechyd a llesiant. Gall effeithio ar y ffordd y maent yn trin ac yn rhyngweithio â'i gilydd hefyd.

Daethom ynghyd â thenantiaid i archwilio themâu cyffredin a gofyn i'n hunain "Beth allwn ni wneud i gynnwys a grymuso tenantiaid i ymwneud yn fwy â Linc ac â bywyd?" Treulio nifer o sesiynau yn eistedd i lawr ac yn siarad â thrigolion am yr hyn y gallem i gyd ei gyfrannu.

Yn y lle cyntaf roedd gan rai trigolion ddiffyg hyder i leisio eu barn a chymryd rhan ond trwy sesiynau rheolaidd bu i ni adeiladu ein dealltwriaeth o'n gilydd a datblygu ymdeimlad o ddyheadau trigolion. Creom yr hyn sydd wedi dod i gael eu hadwaen fel Dyddiau Slawer Dydd (Vintage Days).

Mae'r dyddiau'n cynnwys:

- gwisgo i fyny mewn dillad o ddewis i fynd i ysbryd y peth - cafodd nifer o bobl hwyl yn gwisgo pethau na fyddent byth yn eu gwisgo fel arfer
- sefydlu stondinau a ddyluniwyd yn greadigol i annog cyffwrdd â, synhwyro, archwilio a defnyddio gwrthrychau. Bu'r stonddin Hollywood yn boblogaidd tu hwnt gyda goleuadau gwych, pethau gwisgo i fyny, masgiau a petheuach ffilmiau! Gallai tenantiaid fyw'r profiad Hollywood
- creu blychau cof 'arbennig' i'w hagor a'u fforio
- cefnogi tenantiaid i ddod â'u cofbathau eu hunain
- ail-greu atgofion, fel rhedeg siop losins neu wneud teisennau, canu a gwerthu papurau newydd
- creu atgofion newydd - ffotograffau difyr wrth y stonddin traeth, anfon cerdyn post etc

- dod ag actau bywiog i mewn i gyd-fynd â'r dyddiau
- rhannu ffilmiau wedi'u teilwra am yr ardal leol i bawb eu mwynhau
- gwahodd y gymuned leol, aelodau teulu ac ysgolion i gymryd rhan a dysgu o'r profiad am bobl hŷn mewn amgylchedd creadigol a bywiog
- adnabod offeryn hygyrch i fesur llesiant

I lawer o drigolion, profodd ymchwilio i atgofion i fod yn ddull hunanfyneiant anhygoel - yr egwyddor yw 'byddwch bwy bynnag a fynnwch'. Dewisodd dynion a menywod fel ei gilydd i wisgo i fyny a chymryd rhan a bu'r adborth yn rhagorol

Erbyn hyn cynhaliwyd Dyddiau Slawer Dydd a digwyddiadau tebyg mewn 6 chartref gofal ychwanegol ac mae gan drigolion stoc o ddeunyddiau y gallant eu defnyddio. Mae nifer o denantiaid wedi ymgeisio am Grantiau Cymunedol i adnewyddu eu thema. Er enghraifft, mae un cynllun wedi'i ddewis i ganolbwyntio ar chwaraeon a bu hyn yn arbennig o dda ar gyfer dynion a menywod fel ei gilydd. Mae wedi cynyddu ymdeimlad nifer o drigolion o'u 'gwerth' eto wrth iddynt rannu eu straeon.

O safbwynt 'ennyn diddordeb' rydym wedi achub ar bob cyfle i ddod i adnabod pobl eraill a'u hannog i gymryd rhan mewn agweddau eraill ar Linc. Cofrestrodd dros 65 o bobl i gymryd rhan mewn materion o'u dewis, megis Grŵp Golygu'r Cylchlythyr.

Mae un cynllun wedi symud ymlaen at redeg eu prosiect eu hunain mewn cydweithrediad â Stori Caerdydd y mae nifer o fechgyn ysgol uwchradd wedi cwblhau agwedd gymuned eu Bagloriaeth Gymreig arni, gan gaffael mewnwelediad hynod werthfawr i fywydau pobl hŷn.

"Hwyl ryfeddol ...petawn ni wedi gwneud hyn ynghynt byddai canlyniad y bleidlais Brexit wedi bod yn wahanol iawn ...heddiw rydym wir yn deall ein gilydd" (person ifanc)

Maent wedi cael eu canmol gan deuluoedd, ysgolion, gwleidyddion a llawer o rai eraill. "Rwy'n siŵr bod hyn wedi helpu fy nhad i ymadfer"

Wrth glywed am hyn mewn digwyddiad rhwydwaith - "Mae fy mam-gu mor hapus - mae hi wedi dweud wrthym am bopeth mae hi'n ei wneud - mae hi'n fenyw wahanol. Mae'r hyn yr ydych i gyd yn ei ddweud yn wir." (aelod staff CT arall sydd â pherthynas mewn cartref Linc)

Mae'r ysgolion yn parhau â'u perthynas â thenantiaid/ trigolion ac maent mewn cyswllt rheolaidd â'i gilydd. Mae llawer yn gwneud ymweliadau rheolaidd ac yn parhau â'r perthnasoedd y maent wedi'u hadeiladu gydag eraill. "Dyma'r diwrnod dysgu gorau erioed"

Preswlydd newydd - "Roeddwn i'n unig pythefnos yn ôl a doeddwn i ddim yn nabod neb yma gan i mi newydd symud i mewn. Edrycha arna i nawr!"

Canlyniadau a chyflawniadau

- Ar gyfartaledd mae llesiant yn cynyddu 45% pan gynhelir y sesiynau
- Mae'r gwaith wedi'i arddangos mewn Digwyddiad Comisiynydd Pobl Hŷn ac mewn digwyddiadau rhwydweithio i rannu arfer
- Gallwn dynnu lluniau a ffilmio'r deilliannau a dangos nhw i denantiaid!
- Roedd y trigolion yn dwlu ar gam cynllunio'r prosiect - aroglau, golygon a seiniau - defnyddio'r we i archebu pethau er enghraifft
- Nododd y trigolion ba arddangosiadau/golygfeydd yr oeddent eu heisiau, y dylai popeth fod ar gael i'w arogl/cyffwrdd ag ef, cael ei drin a'i ddefnyddio.
- Helwyd atgofion wrth i gemau hen a newydd gael eu chwarae rhwng y cenedlaethau.
- Roedd y trigolion yn dwlu ar wisgo i fyny, golygfeydd traeth, y stondin Hollywood, oll wedi'u dylunio i fwyafu rhyngweithio a gweithgarwch
- Creodd cerddoriaeth sawl awyrgylch anhygoel. Rhai diwrnodau nid oeddem yn gallu cael y trigolion i ffwrdd o'r microffonau, gwnaethant ffrindiau newydd, roeddent yn dwlu ar arddangos eu cartrefi a rhannu eu hatgofion, creu rhai newydd a chanu. Bu i lawer ddawnsio am y tro cyntaf mewn oes, gan symud ac ehangu eu cylchoedd cymdeithasol
- Nid oedd llawer yn gallu dweud pwy oedd a phwy nad oedd yn byw gyda dementia wrth i'r dyddiau fynd ymlaen. Roedd yr awyrgylch yn groesawgar i bawb.
- Mae llawer o'r staff yn gwisgo i fyny hefyd gan gynnwys staff gofal, staff domestig a chegin a staff a leolir mewn swyddfeydd. Mae pawb yn cymryd rhan
- Cynhelir sgwrsiau newydd.
- Mae mentrau newydd yn deillio o'r dyddiau hyn ac maent yn cael eu datblygu.
- Mae nifer o'r cynlluniau wedi ennill Gwobrau Arian ac Aur - a ddyfarnwyd o ganlyniad i adborth gan y trigolion eu hunain.

Mae'r wobwr arbennig hon yn cydnabod naill ai unigolyn neu dîm y mae ei angerdd, brwdfrydedd ac ymrwymiad wedi gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl eraill.

Alan Jones

Cyngor Sir Gâr



Datganiad o gefnogaeth

Hoffem enwebu Alan Jones gan ei fod yn unigolyn ysbrydoliaethus ac anhunanol sydd wir yn haeddu cael ei gydnabod am yr acolad hwn.

Mae Alan yn un o denantiaid y Cyngor sy'n byw mewn cynllun tai ym Mhontyberem, Cwm Gwendraeth. Ers iddo symud i mewn 5 mlynedd yn ôl, mae wedi gwneud argraff fawr ar y trigolion eraill sy'n byw yno. Mae'n gwneud cynifer o bethau i'w helpu nhw, ac nid oes dim byd erioed yn ormod o waith ar ei gyfer.

Mae Alan yn ymwneud â nifer o brosiectau/fentrau fel:

- Cadeirydd cymdeithas y tenantiaid, mae'r grŵp yn cwrdd bob mis yn y lolfa gymunedol i drafod materion amrywiol gysylltiedig â'r cartrefi, pryderon, etc. Maent hefyd wedi llwyddo i gael 2 grant Arian i Bawb gan y Loteri.
- Mae Alan yn cynhyrchu cylchlythyr rheolaidd i'r holl drigolion ei ddarllen a'i fwynhau. Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol yn ogystal â newyddion lleol.
- Mae Alan wedi creu gwefan ar gyfer cymdeithas y tenantiaid hefyd.
- Cyllidodd un o'r grantiau Loteri gampfa'n rhannol sydd yn y lolfa gymunedol. Mae'n cynnwys

melin draed, 2 feic, peiriant rhwyfo a pheiriant tawsymarfer. Trefnodd Alan a nifer o drigolion eraill i staff o'r ganolfan hamdden leol roi sesiwn gynefino ar y peiriannau a sut i'w defnyddio'n ddiogel. Erbyn hyn, defnyddir y gampfa bob dydd ac mae Alan yn helpu'r trigolion i wella'u galluoedd a hyder wrth ddefnyddio'r cyfarpar a chynyddu eu ffitrwydd trwy wneud hynny.

- Mae Alan wedi derbyn hyfforddiant i yrru bws mini o gynllun hurio lleol ac mae'n gallu archebu'r bws am gyfradd isel i fynd â thrigolion ar wibdeithiau. Maent wedi bod ar nifer o deithiau, gan gynnwys Saundersfoot/Dinbych y Pysgod, sioeau yn Theatr y Mileniwm yng Nghaerdydd, aros am wythnos yn Ngogledd Cymru, a llawer mwy. Mae'r holl deithiau hyn wedi creu mwy o ysbryd cymunedol a rhoi rhywbeth i edrych ymlaen ato i'r trigolion. Mae rôl Alan yn hanfodol wrth drefnu ac archebu'r teithiau hyn a sicrhau y gall cynifer o bobl â phosib ddod arnynt.
- Mae Alan hefyd yn trefnu parti Nadolig blynyddol gyda bwyd ac adloniant ar gyfer y trigolion i gyd. Troir y goleuadau Nadolig allanol ymlaen hefyd.
- Ac yntau'n frwd dros y rygbi, mae Alan yn trefnu digwyddiadau prynhawn arbennig yn y lolfa gymunedol pan fydd gemau'r 6 Gwlad ymlaen. Er enghraifft, pan fydd Cymru'n chwarae yn erbyn Yr Eidal, bydd Alan yn gwneud digon o Spaghetti Bolognese i fwydo tîm rygbi cyfan! Mae'r digwyddiadau hyn wedi profi i fod yn llawer o hwyl ar gyfer y cenedlaethau hen ac ifanc.
- Mae Alan hefyd yn treulio llawer o'i amser yn helpu cynnal a chadw gardd gymunedol y cynllun. Mae hyn yn cynnwys 8 gwely uchel yn ogystal ag amrywiaeth o fasgedi crog. Gyda grant gan y Loteri, prynwyd peiriant torri gwair mawr y mae Alan yn ei ddefnyddio'n rheolaidd i dorri'r ardal gwair cymunedol.

Felly, fel y gallwch ei weld o'r uchod, mae Alan yn wirioneddol yn eiriolwr Tai: Mae bob amser yn rhoi pobl eraill yn gyntaf ac yn gwneud ei orau i gynnwys pawb mewn beth bynnag y mae'n ei drefnu. Mae'n bleser cydweithio ag ef a byddai mor arbennig i roi'r credyd y mae'n ei haeddu iddo gyda'r wobwr hon.

Canlyniadau a chyflawniadau

Fel a nodwyd eisoes, mae Alan wedi ymwneud â nifer o brosiectau sydd wedi bod o fudd uniongyrchol i drigolion sy'n byw yn ei gynllun tai. Mae'n ymwneud â grant Loteri arall ar hyn o bryd a fydd yn cynnwys dau gynllun gerllaw, un ym Mhont-henri ac un yn Y Tymbl. Os bydd yn llwyddo, bydd Alan yn gallu trefnu rhai

diwrnodau i'r trigolion i gyd, gan helpu creu mwy o ysbryd cymunedol a chyfeillgarwch newydd.

Bydd Alan yn parhau i greu cyfleoedd newydd i'r trigolion i gyd gymryd rhan ynddynt a helpu mynd i'r afael ag unigrwydd ymysg ei gymdogion. Mae ei lwyddiant hyd yma'n aruthrol.

Panel Tenantiaid

Linc Cymru



Datganiad o gefnogaeth

Mae 15 o aelodau ar ein Panel Tenantiaid. Fel arfer mae aelodau'n ymuno oherwydd eu bod eisiau 'rhoi rhywbeth yn ôl'. Wrth adolygu eu diben, daeth y neges yn glir atom fod ein haelodau Panel yn syfrdanol. Maent yn gymuned o arwyr. Y tu hwnt i'w busnes Linc arferol, maent i gyd yn gweithio ar draws eu cymunedau i gyflwyno newid go iawn. Isod rydym yn rhannu rhywfaint o'u gwaith, yn cyfleu eu hangerdd ac yn egluro'r effaith y maent yn ei chael.

Y Panel yn gyffredinol - Eu rôl yw siapio gwasanaethau e.e. Cynllun Busnes Linc, y Strategaeth Ennyn Diddordeb, y dull diwygio llesiant, etc. Gyda chefnogaeth gan Linc mae aelodau panel wedi helpu tenantiaid eraill i arbed arian, gwella llesiant, gofyn am gefnogaeth briodol, rhannu gwybodaeth strategol (ACEs, digartrefedd etc) ac arbrofi gyda dulliau hygyrch o gyfathrebu gwybodaeth i eraill. "Rwy'n rhywun gwahanol i bwy yr oeddwn i'n arfer bod ..roedd arnaf ofn fy nghysgod" (tenant) "roedd y Bwrdd yn dwlu ar ein fideo - yn bendant mae'n ffordd wych o ennyn diddordeb" (tenant).

Mae gan bob tenant ei niche ei hun ac yn gwneud cyfraniadau mewn ffyrdd gwahanol.

Gerddi Cymunedol - mae aelodau wedi annog eraill i dyfu eu cynnyrch eu hunain, cadw a thyfu eu gerddi eu hunain ond dod ynghyd hefyd am gyd-gefnogaeth. Mae aelodau wedi cynnal digwyddiadau, cefnogi elusennau a gwneud eu hardaloedd yn wyrdd. Gwelwyd newid mewn iechyd a llesiant pobl, "Mae Mr A yn cael taci yma bob wythnos, mae'n dwlu ar eistedd i lawr yn gyntaf, yn gwenu'r holl amser ond rydym bob amser yn ei gael ei fyny ac yn gwneud rhywbeth!" (aelod) "Rwyf mor hoff o'r ardd, mae'n fy ngwneud yn hapus iawn." (gwirfoddolwr)

Y Gydweithfa Ffrwythau a Llysiau - gwasanaeth wythnosol a redir gan 3 aelod o'r panel, "mae'n stopio ni rhag gorfod defnyddio Tesco!" Maent bellach yn cludo o ddrws i ddrws ar gyfer y rhai sydd â phroblemau symudedd. Maent wedi bod yn rhedeg clwb basged Nadolig dros y 3 blynedd ddiwethaf i helpu gwneud y Nadolig yn fforddiadwy i bawb.

Gweithgareddau tymhorol i blant - Yn ystod y gwyliau, mae aelodau'n rhedeg clwb gweithgareddau ar gyfer y gymuned leol. Mae rhieni'n cyrchu gweithgareddau fforddiadwy a difyr ar gyfer eu plant ar yr un pryd â derbyn cefnogaeth ehangach. Cyrhaeddir 100oedd o blant lleol a'u teuluoedd trwy gydol y flwyddyn. Y thema yn aml yw dysgu trwy chwarae, a'r nod yw cyrraedd y rhai sydd wedi'u diarddel o addysg brif-ffrwd. "Daw fy mab yma gan fod y lle hwn yn esmwyth - dyw e ddim yn dod ymlaen yn dda yn yr ysgol" (tenant)

Lleihau stigma cymdeithasol: mae'r aelodau'n awyddus i daclo'r stigma sy'n gysylltiedig â byw mewn tai cymdeithasol. Mae hyn wedi'i gynnwys oherwydd mewnbwn tenantiaid yn ein Strategaeth Ennyn Diddordeb ac mae'n destun trafod rheolaidd. Mae'r aelodau eisiau newid a gyda'n gilydd rydym yn ymchwilio i sut i fynd â hyn at y lefel nesaf. Maent yn ffynnu pan fyddant yn cefnogi ei gilydd ac yn cydnabod bod gan bawb gryfderau gwahanol.

Ymchwil - mae'r aelodau wedi ymchwilio i'r hyn sy'n digwydd mewn tai cymdeithasol. Dyma rhywbeth y maent yn aml yn ei wneud yn eu hamser sbâr ac yn rhannu'r ymchwil â ni a gyda'i gilydd. Yn ddiweddar maent wedi postio adroddiadau ar ddigartrefedd, iechyd meddwl, atal troi allan, dyluniadau cartref

newydd, ac yn rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu o gymryd rhan â sefydliadau eraill, fel gyda Which? "Sefais i fyny heddiw o flaen 20 o bobl mewn grŵp ffocws, alla i ddim goelio i mi wneud e" (aelod)

Gwirfoddoli mewn Digwyddiadau Cymunedol: Mae'r aelodau'n hwyluso gweithdai, yn rhedeg stondinau, tynnu lluniau, croesawu gwleidyddion, ffilmio a hysbysebu digwyddiadau. Gydag agwedd

hawdd mynd atynt a'u traed ar y ddaear maent yn uniaethu â phobl o bob cefndir. "Ces i gymaint o groeso - Dwi eisiau gwirfoddoli'n fwy nawr a rhannu'r hyn a ddysgais gyda fy Ngrŵp Pobl yn Gyntaf" (gwirfoddolwr). "Dyweddod y fenyw honno i mi newid ei bywyd hi... Dwedais wrthi am y llawdriniaeth ar fy nghlustiau... doedd hi ddim yn gwybod amdani" (aelod)

Canlyniadau a chyflawniadau

Bwyd fforddiadwy y gydweithfa ffrwythau a llysiau ar gyfer dros 40 o deuluoedd. Mae'r tenantiaid yn adeiladu sgiliau, cludwyd dros 60 o fasgedi Nadolig.

Cefnogi tenantiaid gan gynnwys llawer sydd â phroblemau gysylltiedig ag iechyd a dementia i ymwneud â gerddi cymunedol - gan gyfrannu at iechyd/llesiant pobl eraill a rhannu sgiliau. Gwobrau'r Faner Werdd - mae'r aelodau'n helpu gyrru gofodau gwyrdd Linc ymlaen yn eu cymunedau

Gwirfoddoli Ychwanegol - agwedd 'gallwn wneud hyn', annog eraill, heriau cyffrous. Rolau wrth wneud ffilmiau, hwyluso gweithdai, stiwardiaid, llysgenhadon rhuban gwyn, cwrdd a chyfarch, gwsteiwyr a siaradwyr cyhoeddus. Ymunodd 14 o wirfoddolwyr newydd â'r prosiect diwethaf

Ymchwil - rhannu â staff a thenantiaid - fel landlord rydym yn deall meysydd o ddiddordeb yn well o safbwynt y tenant. Mae tenantiaid yn postio am ddigartrefedd, iechyd meddwl, cartrefi newydd ac

arbed arian ymysg pethau eraill. Sylfaen wych o wybodaeth

Lleihau stigma - nid ydym wedi ymchwilio eto i ffordd i denantiaid fynegi eu diddordeb ond maent wrthi'n rhannu storiâu cadarnhaol ar gyfryngau cymdeithasol. Mwy o hyn i ddod

Digwyddiadau cymunedol gwell - taflenni tenantiaid, digwyddiadau wedi'u rhedeg/rheoli gan denantiaid - mae'n ysbrydoli tenantiaid eraill sydd wedyn yn teimlo y gallant ymuno â ni. Erbyn hyn mae gan Linc dros 65 o denantiaid newydd sydd eisiau ymwneud yn fwy. Mae 100oedd o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, dysgu a chwarae, gan fwynhau llyfrau, gemau etc a digwyddiadau cymunedol.

Mae'r Panel wedi ennill gwobr amrywiaeth a chynhwysiad (TPAS) 2019

Ymunwyd â Chartrefi dros Gymru a'r Ymgyrch Rhuban Gwyn yn y gorffennol

Tîm y Gymdogaeth

Cymdeithas Tai Sir Fynwy



Datganiad o gefnogaeth

Mae CTSF yn ymroddedig i ddarparu gwasanaethau rhagweithiol o safon uchel i'n tenantiaid i gyd.

Mae Tim y Gymdogaeth yn ymuno â'r tenant i adnabod anghenion cefnogaeth ychwanegol yn ystod ein Gwriad Iechyd Tenantiaeth a gwblheir bob 1-2 flynedd; rydym yn cytuno ar atgyfeiriad i'n Gwasanaeth Anogwyr Tenantiaid (GAT) mewnol. Mae anogwyr tenantiaid yn gweithio gyda'r tenant a thîm y gyndogaeth i wella bywydau a chartrefi'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi.

Mae GAT yn brosiect arbenigol o gyllid craidd a sefydlwyd yn 2016/17 i alluogi CTSF i gyflwyno gwasanaeth wedi'i deilwra i'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o golli eu cartrefi oherwydd tor-denantiaethau sylweddol. Trwy gyflwyno diwylliant anogaeth, mae ein tenantiaid yn cael eu grymuso'n llwyddiannus i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am newid ymddygiad i achub eu cartrefi a gwella'u llesiant yn sylweddol.

Trwy'r bartneriaeth hon rydym wedi cydweithio â mwy nag 80 o denantiaid yr oedd angen cefnogaeth ddwys arnynt gyda phroblemau clirio llanast a chronni eiddo na fyddent fel arall wedi cael eu trin, gan arwain at droi allan. Mae'r tîm wedi cydweithio'n llwyddiannus â dwsinau o denantiaid, gan roi perthnasoedd cadarnhaol a chyfannol wrth wraidd y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn treulio amser yn sefydlu perthynas ac yn creu cysylltiad cyn datblygu cynllun gweithredu gyda'r tenant sy'n cydnabod natur frys y sefyllfa a'r hyn y gall y tenant ymdopi ag ef.

Yn ei hanfod mae CTSF yn cydnabod mai argyfwng y landlord yw hyn, nid y tenant.

Dull unigryw CTSF yw creu blociau adeiladu i lwyddiant trwy waith nad yw'n barnu ar draws timau

wedi'i gydlynu gan swyddogion arbenigol sy'n canolbwyntio ar gryfderau tenantiaid i ddatblygu cydnerthedd a newid cynaliadwy.

Rydym wedi mabwysiadu model anogaeth a gyfeirir gan drawma sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a deilliannau cyflawnadwy; dull seiliedig ar Egan i adnabod 'beth yw sefyllfa'r tenant', 'ble maent eisiau cyrraedd' a chytuno ar 'sut i gyrraedd y nod'.

Mae'r timau'n delio ag achosion â chymhlethdodau lluosog lle efallai bod y tenant wedi bod yn cronni pethau ers blynyddoedd, gan gydbwysu'r risgiau i'r unigolyn â diogelwch pobl eraill a'r eiddo. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant arbenigol mewn diogelu, gwaith wedi'i gyfeirio gan drawma, anogaeth ac iechyd a diogelwch.

Mae arbenigedd y tîm yn golygu eu bod yn deall grym ymlyniad emosiynol i eiddo a all amrywio o fwndeli o bapurau a sbwriel cyffredinol i eitemau sydd â gwerth ariannol/sentimental fel doliau a llyfrau. Bydd rhai unigolion sy'n profi anhawster gyda llanast yn ystyried bod eu heiddo a chyflwr yr adeilad yn rhywbeth arferol; maent yn ei chael hi'n anodd deall beth yw'r broblem, ond mae'n faich ar rai eraill, maent yn drist am eu sefyllfa a dydyn nhw ddim yn gwybod ble i ddechrau, gan gynnwys sut i ofyn am gymorth. Rydym yn cynnig y cymorth y mae ar bobl ofn i ofyn amdano.

Mae'r tîm yn gweithio i sicrhau bod y camau a gymerir yn rhai y mae'r tenant yn eu hadnabod, eu ffurfio ac yn arwain arnynt fel bod yr unigolyn yn datblygu strategaethau ymdopi a chydnerthedd gan sicrhau y bydd yr ymyraethau'n gynaliadwy yn y tymor hwy.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys cynllun peilot yn 2019 gydag un o Seicolegwyr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, sy'n cynnig cefnogaeth a goruchwyliaeth glinigol i staff i sicrhau llesiant y swyddogion. Amlygodd yr adolygiad o'r gwaith hwn effeithiolrwydd y gwasanaeth a gwaith anhygoel y timau trwy dechnegau cyfweiliad cymhelliannol a dulliau wedi'u cyfeirio gan drawma. Trwy ddangos trugaredd a chydnerthedd effaith colled a theithiau personol, rydym wedi llwyddo i achub 83 o denantiaethau yr oeddent mewn risg uchel o wynebu camau cyfreithiol. Oherwydd y canlyniadau anhygoel hyd yma, mae CTSF wedi sicrhau cyllid parhaus gan lechyd yn ddiweddar i barhau â'r bartneriaeth traws-sector hon sy'n newid bywydau.

Nododd yr adborth gan denantiaid cyn iddynt dderbyn y gwasanaeth eu bod yn plygu o dan y baich, yn casáu eu cartref ac yn teimlo tristwch a chywilydd. Yn sgil derbyn y gwasanaeth roedd eu teimladau'n sylweddol wahanol; llesiant gwell, hyder cynyddol a pherthynas newydd a chadarnhaol gyda CTSF. Yng ngeiriau un tenant mae'r gwasanaeth anogwyr tenantiaid wedi "troi fy mywyd o gwmpas".

Canlyniadau a chyflawniadau

1. Meddylwch yn ôl i sut y teimloch chi cyn i chi ddechrau cael cefnogaeth gyda ni.

- Doeddwn i ddim yn hoffi byw yn fy fflat, teimlais dristwch a chywilydd
- Teimlais fel fy mod mewn ffos fawr ...ac yn sownd ynddi.
- Teimlais nad oeddwn i'n gallu bwrw ymlaen gyda bywyd.
- Teimlais fy mod yn byw o dan faich y llanast...

2. Pa wahaniaeth y mae'r gefnogaeth hon wedi'i wneud?

- Mae fy fflat yn wych ... dw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi gwneud hebbynt.
- Helpodd fi i droi fy mywyd o gwmpas... gweld pethau'n gliriach.
- Dyma'r tro cyntaf i mi fwynhau byw yn fy nhŷ ... mae'n teimlo'n lân [Gallaf] eistedd yn fy ngardd.
- Mae wedi gwneud i ni ddod ynghyd - mae fy mhlant yn helpu ...mae pawb yn hapusach.

3. Ydy eich rhagolwg a'ch nodau wedi newid?

- Ydw - hyderus, mae... wedi clirio fy meddwl
- Ydw - mwy hyderus, rwy'n ymddiried yn y gwasanaethau
- Ydw - Mae fy hyder wedi tyfu'n aruthrol, dwi'n ddiolchgar iawn.
- Ydw - rwy'n teimlo'n hyderus iawn am gymryd y camau nesaf

4. Petaech yn gallu rhoi un neges neu ddyfyniad cadarnhaol

- Gweithiodd yr hyfforddwr ar fy rhediad i... Gwnaeth gwasanaethau eraill fy rhuthro a doeddwn i ddim yn teimlo bod gennyf reolaeth.
- Peidio â chael eich barnu, ...gadael nhw i mewn a byddan nhw'n helpu chi
- Maen nhw wedi newid fy mywyd o ddifri
- Rwy'n argymhell yr anogaeth denantiaid, mae wedi'i theilwra ac yn newid bywydau.

Logan Oberholster

Cymdeithas Tai'r Rhondda



Datganiad o gefnogaeth

Rydym yn enwebu ein tenant-wirfoddolwr Logan Oberholster am y wobwr arbennig hon gan fod ei angerdd, brwdfrydedd ac ymrwymiad wedi gwneud gwir wahaniaeth i fywydau tenantiaid, aelodau cymuned a staff Cymdeithas Tai'r Rhondda).

Mae Logan yn ymwneud â llawer o brosiectau: o fod yn aelod o'n Tim Craffu, i gynrychioli CTRh mewn digwyddiadau a chefnogi ein prosiectau cymunedol a hwyluso ein prosiect tloidi bwyd - Grub Hub.

Mae gwirfoddoli Logan yn adlewyrchu gwir ymrwymiad gan ei fod yn profi brwydr bob dydd gyda'i iechyd corfforol, mae ganddo orbwysedd mewngreuanol idiopathig, syndrom coluddyn lliudus cronig, arthritis a phoen cronig y cefn, yn ogystal â rheoli gorbryder ac iselder, anhwylder deubegwn ac anhwylder personoliaeth luosog, felly mae pob un dydd yn frwydr i Logan. Mae hefyd yn byw ei daith drawsryw yn weladwy ac yn ddewr, yn y gobaith o gefnogi ac ysbrydoli pobl drawsryw eraill i fod yn hyderus ac yn falch o bwy ydynt.

Cyfarfuom â Logan 2 flynedd yn ôl ac yntau'n profi pwynt arbennig o isel yn ei fywyd, yn rheoli ei iechyd corfforol a meddyliol gwael yn unig, dewisodd ef ymgysylltu â ni fel ffordd o gymdeithasu, dod o hyd i ddiben a chael rheswm dros godi o'r gwely bob dydd.

18 mis yn ôl collodd Logan ei dad, roedd ei iechyd meddwl yn wael iawn ac fe benderfynodd gymryd rhan yn ein menter iechyd a llesiant. Ymrwymodd yn y lle cyntaf i gwrs chwech wythnos a'i gefnogodd i wella'i iechyd ac ymdrin â'i gyflwr emosïynol, gyda'r fath lwyddiant y gwnaeth e barhau â'r rhaglen ac mae bellach yn fentor y prosiect!

Mae angerdd Logan dros y gymuned LHDT+ hefyd wedi'i symblu i gyflwyno gwybodaeth a sesiynau Holi ac Ateb ar y gymuned LHDT+ a materion cysylltiedig i fyfyrwyr Gradd Gwaith Ieuencid a Chymunedol

Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Derbyniodd y sesiwn hon adborth gwych gan gyfranogwyr, gan alluogi darpar weithwyr leuenctid a Chymunedol i glywed safbwynt personol, yn enwedig ar y broses glinigol a'r materion cymdeithasol a wynebir gan bobl Drawsryw ar eu teithiau personol.

Mae gan Logan angerdd dros anifeiliaid ac mae wedi mynd uwchlaw a'r tu draw wrth helpu tenantiaid eraill sy'n wynebu dolur calon ailgartrefu anifeiliaid anwes hoff annwyl. Mae wedi mynd ag anifeiliaid anwes ei hun i'n hasiantaeth bartner Hope Rescue, i sicrhau eu bod yn ddiogel ac wedi'u hymgartrefu.

Fodd bynnag, ei ymrwymiad ac angerdd mwyaf yw'r frwydr yn erbyn tlodi bwyd ac wrth ymateb i hyn mae wedi cefnogi ac yn awr yn hwyluso'n llawn ein prosiect Grub Hub mewnol.

Mae Logan wedi ymwneud â Grub Hub ers bron dwy flynedd ac yn gyfrifol am weinyddiaeth, hwyluso a llwyddiant y prosiect. Dwywaith yr wythnos mae'n

casglu eitemau bwyd dros ben gan werthwyr bwyd lleol, gan storio nhw yn unol â gofynion diogelwch bwyd. Mae'n gwirfoddoli ei amser ac yn cysylltu'n fewnol â'n staff i adnabod tenantiaid y mae angen cefnogaeth pecyn bwyd arnynt.

Bob wythnos, gyda thim o wirfoddolwyr mae Logan yn paratoi pecynnau ac yn cefnogi staff CTRh i'w dosbarthu. Mae Logan hefyd yn paratoi gwobrau raffl a chynlluniau rhodd, yn ogystal â threfnu a dosbarthu basgedi sy'n cynnwys mwy o nwyddau moethus dros gyfnod y Nadolig. Mae Logan wedi rhoi o'i adnoddau a chyllid ei hun i'w benderfyniad i daclo tlodi bwyd a sicrhau nad yw eraill yn dioddef chwant bwyd.

Mae Logan yn unigolyn gwirioneddol ysbrydoliaethus ar gynifer o lefelau ac yn rhoi o'i amser yn anhunanol ac yn ddifflin i wella bywydau pobl eraill. Yn anaml iawn yr ydym wedi cwrdd â gwirfoddolwr y gallwn ddibynnu arno gymaint ac rydym yn ei argymhell am y wobr hon yn ddiymdroi gan ei fod yn gwella bywydau unigolion heb ddymuno cael ei gydabod.

Canlyniadau a chyflawniadau

Roedd Logan yn un o'n Tenant-Aseswyr, gan helpu adolygu polisiau a phrosiectau, yn ogystal â dod i ddeall sut mae CTRh yn gweithio. Bu'n ymwneud â phrosiectau fel adolygu ein Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid, ein Llawlyfr Tenantiaid a recriwtio Cyfarwyddwyr newydd. Mae wedi symud ymlaen at fod yn aelod o'n Tim Craffu Tenantiaid ac yn ddiweddar wedi helpu adolygu ein Strategaeth Iechyd a Diogelwch, gan greu pecyn gwybodaeth 'Cadw'n Ddiogel yn y Cartref' ar gyfer ein tenantiaid.

Mae Logan wedi mentora 20+ o gyfranogwyr prosiect, darparu cefnogaeth i gymheiriaid, gweinyddu monitro prosiectau a hyd yn oed gyrru'r bws mini!

Mae Logan yn llawer mwy iach bellach ac mae hyd yn oed yn cymryd rhan mewn prosiect Fitbit - Get Fit Wales.

Mae Logan wedi cynrychioli CTRh mewn digwyddiadau a gydag asiantaethau partner, gan siarad yng nghynhadledd TPAS Cymru fel aelod panel gyda chynrychiolwyr tai eraill (gan gynnwys Prif Weithredwyr) a oedd yn siarad ar bwysigrwydd 'Tenantiaid wrth Wraidd', mae Logan yn angerddol dros hyn ac yn eirioli drosto. Fe gynrychiolodd CTRh yn adolygiad 'Tenantiaid wrth Wraidd' Llywodraeth Cymru.

Dros ddwy flynedd, mae Logan wedi cefnogi'r prosiect Grub Hub i ddarparu 1500 o becynnau bwyd i 900 o bobl, gwasanaeth hanfodol ac un na fyddai'n cael ei gyflwyno heb iddo roi o'i amser, brwdfrydedd a chymhelliad.

